Cyngor Bwrdeistref Sirol
Pen-y-Bont ar Ogwr

# Ysgol Gymraeg Bro Ogwr

## Dogfen ymgynghori

Cynnig i wneud newid rheoledig i ehangu Ysgol Gymraeg Bro Ogwr yn ysgol 2.5 dosbarth mynediad (FE), gyda meithrinfa â 90 lle cyfwerth ag amser llawn ynghyd â dosbarth arsylwi ac asesu 8 lle ar dir oddi ar Ffordd Cadfan, i ddigwydd o ddechrau tymor yr hydref 2025.

**Dyddiad cyhoeddi:** 7 Chwefror 2022

**Camau i'w cymryd:** 21 Mawrth 2022

**Ffôn**: (01656) 643643

**E-bost**: consultation@bridgend.gov.uk

**Gwefan:** www.bridgend.gov.uk/consultation

## Cynnwys


Cynnwys .......... 2
Trosolwg .......... 3
Sut i ymateb .......... 3
Cyfarfodydd ymgynghori .......... 3
Diogelu data .......... 4
Dogfennau cysylltiedig .......... 4
Cefndir a gwybodaeth .......... 4
Ysgol Gymraeg Bro Ogwr – Ble rydyn ni nawr .......... 5
Y cynnig .......... 6
Pam mae'r cynnig hwn wedi'i gyflwyno? .......... 8
Beth mae'r cynnig yn ei olygu'n ymarferol .......... 8
Corff Llywodraethol .......... 9
Materion Staffio .......... 9
Darpariaeth Feithrin .......... 9
Beth yw'r manteision os aiff y cynnig yn ei flaen? .......... 10
Beth yw'r anfanteision posibl os aiff y cynnig yn ei flaen? .......... 10
Effaith y cynigion .......... 11
Asesiadau Effaith .......... 15
Risgiau .......... 16
Dewisiadau amgen .......... 17
Manylion yr ysgol(ion) yr effeithir arnynt .......... 18
Cyllid .......... 41
Y broses ymgynghori .......... 41
Beth sy'n rhaid i chi ei ystyried yn awr? .......... 43
Sut ydych chi'n lleisio'ch barn? .......... 43
Pro forma .......... 44
Atodiad A - Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned .......... 45
Atodiad B - Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg .......... 50
Atodiad C - Ffurflen Sgrinio Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (AEA) .......... 58
Ffurflen Sgrinio Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (AEA) .......... 58
Atodiad 1 – Adroddiadau Estyn .......... 65
Atodiad 2 – Rhestr o randdeiliaid .......... 65

## Trosolwg

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gwahodd sylwadau ar y cynnig i wneud newid rheoledig i ehangu Ysgol Gymraeg Bro Ogwr yn ysgol 2.5 dosbarth mynediad (FE), gyda meithrinfa â 90 lle cyfwerth ag amser llawn ynghyd â dosbarth arsylwi ac asesu 8 lle ar dir oddi ar Ffordd Cadfan, i ddigwydd o ddechrau tymor yr hydref 2025.

## Sut i ymateb

Bydd y cyfnod ymgynghori hwn yn dechrau ar **7 Chwefror 2022** ac yn cau ar **21 Mawrth 2022.**

Gallwch ymateb ar y profforma sydd wedi'i gynnwys (gweler tudalen 44 o'r ddogfen hon) neu ar-lein a gofyn cwestiynau pellach yn y ffyrdd canlynol:

**Ffôn:** (01656) 643 643

**E-bost:** edsu@bridgend.gov.uk

**Arlein:** www.bridgend.gov.uk/consultation

**Post:** Anfonwch ymateb pro fforma (gweler tudalen 44 o'r ddogfen hon) i'r Gyfarwyddiaeth Addysg a Chymorth i Deuluoedd – Uned Gymorth y Gyfarwyddiaeth (EDSU), Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 4WB.

Mae fformatiau eraill ar gael hefyd ar eich cais.

## Cyfarfodydd ymgynghori

Oherwydd goblygiadau posibl COVID-19, mae'r awdurdod lleol wedi trefnu cyfarfodydd ymgynghori rhithwir. Gofynnwn i'r rhai sy'n dymuno mynychu gofrestru eu presenoldeb ymlaen llaw erbyn dydd Llun 7 Mawrth drwy anfon e-bost at: michelle.smith@bridgend.gov.uk neu ffonio: 01656 815135. Rhowch wybod i ni ai Cymraeg neu Saesneg yw eich dewis iaith .

Mae'r cyfarfodydd ymgynghori canlynol wedi'u trefnu:

| Dyddiad | Amser | Pwy | Lleoliad |
|---|---|---|---|
| 7 Mawrth 2022 | 5pm-6pm | Llywodraethwr ysgol | Rhithwir |
| 14 Mawrth 2022 | 4pm-5pm | Staff ysgol | Rhithwir |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 15 Mawrth 2022 | 4pm | Agored - mynychwyr i gofrestru o flaen llaw | Rhithwir |
| I'w gadarnhau | | Cyngor ysgol / dysgwyr | Rhithwir |
| I'w gadarnhau | | Cyngor Cymuned Bracla | Rhithwir |
| I'w gadarnhau | | Cyngor Cymuned Coety | Rhithwir |

## Diogelu data

Sut rydym yn defnyddio'r safbwyntiau a'r wybodaeth rydych chi'n eu rhannu gyda ni: Bydd yr holl ymatebion a dderbynia Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn cael eu gweld yn llawn gan yr aelodau staff sy'n rhan o'r broses ymgynghori. Gall adrannau eraill o fewn y cyngor neu aelodau byrddau gwasanaethau lleol weld yr wybodaeth hefyd er mwyn helpu i wella'r gwasanaethau a ddarperir.

Yn ogystal â hyn, gall y cyngor ddefnyddio'r wybodaeth a gesglir i gyhoeddi dogfennau dilynol sy'n gysylltiedig â'r ymgynghoriad hwn yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol. Fodd bynnag, ni fydd y Cyngor byth yn datgelu unrhyw wybodaeth bersonol megis enwau neu gyfeiriadau a allai ddatgelu pwy ydy unigolion.

Os nad ydych yn dymuno i'ch barn gael ei chyhoeddi, nodwch hynny yn eich ymateb.

## Dogfennau cysylltiedig

I gael rhagor o wybodaeth am ymgynghoriadau ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr neu os am wybod sut i ymuno â'n panel Dinasyddion.

**Ewch i:** www.bridgend.gov.uk/consultation

## Cefndir a gwybodaeth

Diben yr ymgynghoriad hwn yw gwahodd eich barn ar y cynnig i wneud newid rheoledig i ehangu Ysgol Gymraeg Bro Ogwr yn ysgol 2.5 dosbarth mynediad (FE), gyda meithrinfa â 90 lle cyfwerth ag amser llawn ynghyd â dosbarth arsylwi ac asesu 8 lle ar dir oddi ar Ffordd Cadfan, i ddigwydd o ddechrau tymor yr hydref 2025. Rydym yn gofyn barn ac yn ymgynghori â nifer o randdeiliaid (gweler y rhestr gyflawn yn atodiad 2). Bydd y broses ymgynghori hon yn digwydd rhwng 7 Chwefror 2022 a 21 Mawrth 2022.

## Ysgol Gymraeg Bro Ogwr – Ble rydyn ni nawr

Ysgol gynradd gymunedol cyfrwng Cymraeg yn Ffordd y Dywysoges, Bracla, Pen-y-bont yw Ysgol Gymraeg Bro Ogwr. Fe'i hadeiladwyd yn 1994 ac mae wedi'i lleoli ar 2.7 erw o dir. Mae'r ysgol wedi'i hymestyn ers ei hadeiladu'n wreiddiol ac mae'n cynnwys dwy ystafell ddosbarth symudol dros dro y tu ôl i'r ysgol. Y nifer derbyn disgyblion presennol (PAN) yw 54, byddai hyn yn cynyddu i 75 yn yr ysgol newydd arfaethedig.

Mae rhai ystafelloedd dosbarth o dan y $m^2$ a argymhellir ar gyfer dosbarthiadau o 30, sydd wedi arwain at orlenwi mewn rhai ardaloedd. Serch hynny, yn arolygiad yr ysgol yn 2017, nododd Estyn er bod prinder gofod yn yr adeilad, bod yr ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o'r gofod sydd ar gael.

Mae adeilad yr ysgol wedi'i leoli ar safle gweddol wastad gyda'r tir a'r llwybrau mynediad yn hygyrch yn gyffredinol i ddisgyblion ac ymwelwyr anabl, gyda gradd B asesiad Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd (DDA), sy'n golygu ei fod yn hygyrch i raddau helaeth, er bod rhai llwybrau wedi'u hadeiladu ar raddiant.

Mae'r adeilad yn ffrâm unllawr o wneuthuriad dur a brics ac mae gan y to gyfuniad o orchudd llechi a dur ar oleddf ar y blaen a thoeau gwastad wedi'u gorchuddio â ffelt yn y cefn.

Canfu arolwg diweddar o gyflwr yr adeilad fod y fframwaith dur i'r canopi ar flaen yr ysgol mewn cyflwr gwael. Nodwyd bod drysau alwminiwm y dosbarthiadau i'r gwedd flaen yn dioddef o weithrediad gwael, difrod o drawiadau parhaus a dŵr yn treiddio iddynt.

Mae'r toiledau i gyd yn gweithio. Fodd bynnag, ystyrir eu bod yn hen ac angen eu hadnewyddu i'w cynnal i safon fodern. Mae dau doiled hygyrch yn yr ysgol, un wedi ei leoli wrth y brif fynedfa ac un yn rhan isaf yr adeilad yn ardal y cyfnod sylfaen.

Mae gan yr ysgol system wresogi â nwy sy'n gwbl weithredol. Mae'r prif seilwaith trydanol mewn cyflwr rhesymol a dim ond amnewidiad cylch bywyd hirdymor a ragwelir.

## Y cynnig

Mae'r cynnig hwn yn ymwneud ag ehangu Ysgol Gymraeg Bro Ogwr i gynyddu nifer y lleoedd cyfrwng Cymraeg sydd ar gael. Mae’r lleoedd cyfrwng Cymraeg ychwanegol yn yr ysgol newydd yn cefnogi dyheadau Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru a Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yr awdurdod lleol i gynyddu lleoedd disgyblion cyfrwng Cymraeg yn ardal gogledd-ddwyrain Pen-y-bont ar Ogwr y fwrdeistref sirol..

Byddai capasiti'r ysgol newydd yn cynyddu o 378 o leoedd i 525 o leoedd i ddysgwyr 4-11 oed (h.y. 2.5 dosbarth mynediad). Byddai darpariaeth feithrin yn cynyddu o 55 o leoedd cyfwerth ag amser llawn (CALl), i 90 o leoedd CALl. Yn ogystal, cynigir bod gan yr ysgol newydd ddarpariaeth ar gyfer dosbarth arsylwi ac asesu 8 lle.

Byddai’r cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar ddarpariaeth anghenion dysgu ychwanegol. Byddai'r dosbarth arsylwi ac asesu arfaethedig yn cynyddu'r ddarpariaeth ar gyfer plant trwy gyfrwng y Gymraeg sydd angen cyfnod o arsylwi ac asesu er mwyn diwallu eu hanghenion unigol.

Mae dalgylch Ysgol Gymraeg Bro Ogwr yn cynnwys ardaloedd tref Pen-y-bont ar Ogwr, Valleys Gateway a Phencoed. Byddai'r ysgol arfaethedig wedi'i lleoli ar dir oddi ar Ffordd Cadfan sy'n cael ei ystyried fel y lleoliad mwyaf addas ar gyfer yr ysgol newydd o ran ei faint, lleoliad daearyddol o fewn y dalgylch ac agosrwydd at yr ysgol bresennol.

Mae’r cynllun a ganlyn yn dangos safle’r ysgol arfaethedig a’i hagosrwydd at safle’r ysgol bresennol (sylwer mai ffiniau bras a roddir):




Cafodd Ysgol Gymraeg Bro Ogwr ei graddio fel cyflwr C yn 2019 (gwael gyda diffygion mawr ac/neu nid yw’n gweithredu yn ôl y bwriad). Yn 2019, adroddwyd bod ôl-groniad cynnal a chadw gwerth £750,700 yn yr ysgol. Bydd yr ysgol newydd yn gyfleuster addas ar gyfer addysgu a dysgu yn yr unfed ganrif ar hugain.

Byddai adeilad newydd yr ysgol yn agor ei ddrysau i ddysgwyr ym mis Medi 2025.

## Pam mae'r cynnig hwn wedi'i gyflwyno?

Ar 3 Mawrth 2015, derbyniodd y cyngor gymeradwyaeth y cabinet i fabwysiadu egwyddorion diwygiedig fel fframwaith ar gyfer trefniadaeth ysgolion ym Mhen-y-bont ar Ogwr; nodwyd pum egwyddor allweddol i lywio'r gwaith o drefnu a moderneiddio ein hysgolion:

i. Ymrwymiad i safonau uchel a rhagoriaeth yn y ddarpariaeth.

ii. Cyfleoedd cyfartal, fel bod pob dysgwr yn gallu cael mynediad at gyfleoedd dysgu o ansawdd, ni waeth pa ysgol y maent yn ei mynychu.

iii. Ysgolion cynhwysol, sy'n darparu ar gyfer anghenion dysgu eu holl ddysgwyr.

iv. Ysgolion bro, lle mae'r ysgol yn ymgysylltu'n weithredol â'i chymuned.

v. Gwerth am arian.

Mae'r Fframwaith Polisi a Chynllunio yn nodi 17 maes lle dylid cymhwyso'r egwyddorion yn ymarferol. Mae'r rhai sy'n arbennig o berthnasol yng nghyd-destun y cynnig hwn yn ymwneud â gwerth am arian ac effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.

Mae'r cyngor wedi cyflwyno'r cynnig hwn i godi adeilad newydd ar gyfer Ysgol Gymraeg Bro Ogwr er mwyn:

- cynyddu nifer y lleoedd cyfrwng Cymraeg er mwyn cefnogi strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru a Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yr awdurdod lleol; a
- darparu adeilad ysgol newydd ar gyfer yr 21ain Ganrif a fydd yn cefnogi cyflwyno'r cwricwlwm newydd; a
- mynd i'r afael â chyflwr adeiladau a materion yn ymwneud â gorlenwi.

## Beth mae'r cynnig yn ei olygu'n ymarferol

Mae'r cynnig yn golygu y byddai Ysgol Gymraeg Bro Ogwr yn trosglwyddo i dir oddi ar Ffordd Cadfan ac yn ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg fwy. Byddai'r adeilad newydd yn cael ei ddylunio ar gyfer 525 o ddysgwyr 4-11 oed, 90 o ddysgwyr meithrin cyfwerth ag amser llawn a dosbarth arsylwi ac asesu 8 lle, o ddechrau tymor yr hydref 2025.

## Corff Llywodraethol

Mae aelodaeth corff llywodraethu ysgol wedi'i nodi yn offeryn llywodraethu'r ysgol benodol, y mae'n rhaid iddo fod yn unol â Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005. Mae'r rheoliadau hynny'n pennu nifer y llywodraethwyr ym mhob categori (h.y. rhiant-lywodraethwyr, llywodraethwyr awdurdod lleol, athro-lywodraethwyr, staff-lywodraethwyr a llywodraethwyr cymunedol).

Mae offeryn llywodraethu Ysgol Gymraeg Bro Ogwr eisoes yn adlewyrchu uchafswm nifer y llywodraethwyr o bob categori a ganiateir o dan y rheoliadau ar gyfer ysgol gynradd sydd â mwy na 100 o ddisgyblion cofrestredig. Yn unol â hynny, ni all fod unrhyw gynnydd yn nifer y llywodraethwyr ym mhob categori pan ddaw'r ysgol yn ysgol â 2.5 dosbarth mynediad.

## Materion Staffio

Canlyniad y cynnig, pe bai'n mynd yn ei flaen, fyddai bod y strwythur staffio yn debygol o gynyddu dros gyfnod o amser. Byddai'r strwythur staffio yn cyd-fynd â'r cynnydd yn y boblogaeth ysgol. Y corff llywodraethu fyddai'n gyfrifol am y strwythur staffio. Byddai'r strwythur yn cael ei bennu'n bennaf gan anghenion addysgol yr ysgol a'r gyllideb sydd ar gael.

## Darpariaeth Feithrin

Mae'r galw am leoedd meithrin yn Ysgol Gymraeg Bro Ogwr yn fwy na chapasiti'r ysgol, sy'n awgrymu nad yw'r adeilad presennol yn hyfyw i gefnogi'r cynnydd mewn lleoedd meithrin. Nid oes unrhyw ddarparwr addysg feithrin cyfrwng Cymraeg arall yn yr ardal hon, a gynhelir neu nas cynhelir a ariennir. Mae hyn yn gosod yr holl alw ar yr ysgol. Ni ddylai cynnydd yn y ddarpariaeth feithrin effeithio ar ddarparwyr eraill oherwydd diffyg darparwyr addysg cyfrwng Cymraeg nas cynhelir a ariennir. Gall cynnydd mewn lleoedd meithrin gael effaith fach ar y feithrinfa ddydd leol ond gan mai darpariaeth cyfrwng Saesneg yw hon ni ddylai fod yn arwyddocaol.

Mae'r Asesiadau o Ddigonolrwydd Gofal Plant yn amlygu'r maes hwn fel un sydd angen darpariaeth gofal plant blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg. Bydd y cynnydd yn y ddarpariaeth feithrin yn helpu i fodloni gofynion teuluoedd sydd angen

hyn. Mae cynlluniau i gynnig darpariaeth Dechrau'n Deg trwy gyfrwng y Gymraeg ym Mracla wedi'u gohirio ar hyn o bryd ond ffocws gwasanaethau'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant yw cynyddu lefelau'r ddarpariaeth Gymraeg yn y maes hwn.

## Beth yw'r manteision os aiff y cynnig yn ei flaen?

- Cynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer ardal gogledd-ddwyrain Pen-y-bont ar Ogwr.
- Byddai dysgwyr a staff ar eu hennill mewn adeilad newydd sbon.
- Ysgol sydd wedi'i chynllunio i ddarparu'r amgylchedd dysgu cywir a chyfleoedd cwricwlwm, yn enwedig yn y cyfnod sylfaen.
- Mae cyfle ar gyfer llwybrau teithio llesol a llwybrau teithio dysgwyr da o amgylch y safle.
- Gellid ymgorffori darpariaeth gymunedol mewn adeilad ysgol newydd.
- Arbed gwaith atgyweirio a chynnal a chadw adeiladau ysgol sy'n heneiddio.

## Beth yw'r anfanteision posibl os aiff y cynnig yn ei flaen?

- Gall ad-drefnu'r achosi peth aflonyddwch am gyfnod o amser e.e. yn ystod y cyfnod gwagio a symud i'r ysgol. Fodd bynnag, dengys profiad y gellir cadw hyn i'r lleiafswm trwy weithio'n agos gyda'r pennaeth, llywodraethwyr a staff trwy gynllunio'r rhaglen o amgylch anghenion yr ysgol.

- Efallai y byddai'n well gan rai rhieni i'w plant gael eu haddysgu yn yr ysgol lai presennol. Pe bai'r syniad hwn yn cael ei godi fel pryder yn ystod y broses ymgynghori, byddai cyfarfodydd yn cael eu cynnal gyda rhieni er mwyn mynd i'r afael â'u pryderon a thawelu eu hofnau; gall pob ysgol, waeth beth fo'i maint, berfformio'n dda lle mae ansawdd yr arweinyddiaeth yn dda neu'n rhagorol.

## Effaith y cynigion

**Safonau (safonau a chynnydd yn gyffredinol, grwpiau penodol ac mewn sgiliau); lles ac agweddau at ddysgu**

Mae cwricwlwm y cyfnod sylfaen yn rhoi llawer o bwyslais ar ddysgu drwy brofiad a dysgu yn yr awyr agored. Mae adeiladau ysgol newydd yng Nghymru yn ystyried hyn fel bod yr amgylchedd dysgu yn cefnogi gweithgareddau'r cwricwlwm yn effeithiol a'r ffyrdd y disgwylir i athrawon drefnu profiadau dysgu ac addysgu. Mae profiadau dysgu awyr agored yn parhau i fod yn rhan bwysig o'r cwricwlwm yng nghyfnod allweddol 2.

Dylai symud i ysgol sydd wedi'i hadeiladu'n bwrpasol o amgylch yr anghenion ar gyfer addysgu a dysgu yn yr unfed ganrif ar hugain wella'n sylweddol allu'r ysgol i gyflwyno'r cwricwlwm llawn yn y cyfnod sylfaen ac yng nghyfnod allweddol 2 gan effeithio'n gadarnhaol ar ansawdd a safonau mewn addysg.

Yn ystod arolygiad Ysgol Gymraeg Bro Ogwr ym Mehefin 2017, barnwyd bod y deilliannau mewn safonau a lles yn dda. Yn 2019, roedd data o wefan 'My Local School' yn nodi yn yr Adroddiad Categoreiddio Ysgolion Cenedlaethol diwethaf, bod yr ysgol wedi'i rhoi yn y categori cymorth 'gwyrdd' ar gyfer safonau ac arweinyddiaeth. Y gyfradd bresenoldeb ar gyfer 2019 oedd 95.7%.

**Profiadau addysgu a dysgu (ansawdd yr addysgu, ehangder, cydbwysedd a phriodoldeb y cwricwlwm, a darpariaeth sgiliau)**

Mae ansawdd yr addysgu yn Ysgol Gymraeg Bro Ogwr yn debygol o gael ei wella gan gyfleuster modern, newydd, pwrpasol. Mae morâl staff yn debygol o gael ei effeithio'n gadarnhaol a dylai fod yn haws i'r ysgol gynnal gweithlu addysgu o ansawdd da.

**Gofal, cymorth ac arweiniad (olrhain, monitro a darparu cymorth dysgu, datblygiad personol a diogelu)**

Mae adeiladau ysgol newydd yn ystyried dulliau modern o addysgu a dysgu, gan gynnwys yr angen i ddarparu amgylcheddau sy'n addas ar gyfer addysgu mewn grwpiau bach i ddisgyblion sy'n dechrau mynd ar ei hôl hi yn eu dysgu. Felly, dylai cymorth, arweiniad a gofal wella o ganlyniad i'r cynnig. Mae hyn yn ei dro yn debygol o effeithio ar gyflawniad a chyrhaeddiad uwch disgyblion.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth (ansawdd ac effeithiolrwydd arweinwyr a rheolwyr, prosesau hunanarfarnu a chynllunio gwelliant, dysgu proffesiynol, a defnydd o adnoddau)**

Bernir bod arweinyddiaeth a rheolaeth yn dda ac mae hyn wedi'i gynnal, fel yr adroddwyd gan y partner gwella o Gonsortiwm Canolbarth y De. Mae'r model arweinyddiaeth dosranedig wedi'i wreiddio'n dda yn strwythur yr ysgol. Mae gan arweinwyr ddealltwriaeth ragorol o'r heriau yn eu maes eu hunain a'r ysgol yn gyffredinol. Mae gan arweinwyr, staff a llywodraethwyr weledigaeth a rennir a strategaeth glir sy'n gwella deilliannau ar gyfer dysgwyr. Mae pwyslais clir ar godi safonau ac mae gan yr ysgol ddisgwyliadau uchel ar gyfer cyflawniad ei disgyblion.

Mae'r holl staff yn rhannu ymrwymiad cyffredin i'r ysgol ac yn cydweithio'n gydlynol. Mae rhaglen hunanarfarnu'r ysgol yn nodi'n gywir gryfderau'r ysgol a'r meysydd y mae angen iddi eu datblygu trwy'r defnydd o dimau meysydd cwricwlwm. Mae gweithgareddau partneriaeth effeithiol yn cyfrannu'n dda at wella safonau a lles disgyblion. Mae gan yr ysgol lefelau priodol o staff cymwys, medrus, newydd a phrofiadol ac ynghyd â lefelau da o adnoddau, mae'n sicrhau bod hyn yn briodol i gefnogi'r amgylchedd dysgu.

Mae crynodeb o adroddiadau arolygu diweddaraf Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru (Estyn) yn ymwneud ag ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg y mae'r cynnig yn debygol o effeithio arnynt wedi'u cynnwys yn atodiad 1. Mae'r adroddiadau arolygu llawn ar gael ar wefan Estyn: www.estyn.llyw.cymru

**Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA)**

Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yw strategaeth yr awdurdod lleol sy'n nodi'r ffordd y mae'n anelu at hwyluso cynnydd yn nifer y bobl o bob oed sy'n gallu defnyddio'r Gymraeg yn y fwrdeistref sirol.

Mae'r awdurdod lleol wedi ymrwymo i fwrw ymlaen â chynlluniau i dyfu'r Gymraeg yn strategol a chyda chynllunio strategol a buddsoddi effeithiol, ei nod yw cyfrannu'n sylweddol at gyflawni gweledigaeth 'Cymraeg 2050' Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg ledled Cymru.

Gellir gweld CSCA cyfredol yr awdurdod lleol ar gyfer 2017-2020 drwy'r ddolen ganlynol:
https://democratic.bridgend.gov.uk/documents/s14163/171219%2010%20WESP%20Appendix.pdf?LLL=0

Mae ymgynghoriad statudol ar y CSCA deng mlynedd newydd ar gyfer y cyfnod rhwng 2022 a 2032 wedi dod i ben yn ddiweddar ac yn y broses o gael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w ystyried.

Gellir gweld CSCA drafft 2022-2032 yr awdurdod lleol drwy'r ddolen ganlynol:
https://www.bridgend.gov.uk/media/11820/welsh-in-education-strategic-plan-2022-2032.docx

Mae ehangu Ysgol Gymraeg Bro Ogwr yn ddatblygiad addysg strategol allweddol sy'n cael ei gynnwys yn y CSCA presennol a hefyd y cynllun 10 mlynedd newydd.

Bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg gan y bydd y prosiect yn sicrhau cynnydd sylweddol yn nifer y lleoedd i ddisgyblion yn Ysgol Gymraeg Bro Ogwr. Byddai capasiti'r ysgol newydd yn cynyddu o 378 o leoedd i ddysgwyr (4-11 oed) a 55 o leoedd meithrin cyfwerth ag amser llawn (CALl), i 525 o leoedd i ddysgwyr (h.y. 2.5 dosbarth mynediad) (4-11 oed) ynghyd â 90 o leoedd meithrin cyfwerth ag amser llawn a dosbarth arsylwi ac asesu 8 lle ar dir oddi ar Ffordd Cadfan, yn weithredol o ddechrau tymor yr hydref 2025.

Rhagwelir y bydd y nifer sy’n manteisio ar addysg cyfrwng Cymraeg yn yr ardal yn cynyddu o ganlyniad i’r cynnig, a thrwy hynny gefnogi targedau CSCA yr awdurdod, hyrwyddo’r Gymraeg a chynyddu nifer y plant meithrin nas cynhelir sy’n trosglwyddo i addysg gynradd cyfrwng Cymraeg.

**Ystyriaethau eraill**

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr fyddai’r awdurdod derbyn ar gyfer yr ysgol newydd arfaethedig. Byddai'r trefniadau derbyn fel ag a nodir gan y cyngor yn y 'Prosbectws Dechrau yn yr Ysgol – Arweiniad i drefniadau derbyn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar gyfer Ysgolion’:

https://www.bridgend.gov.uk/media/11958/2022-2023-starting-school-prospectus-v10.pdf

https://www.bridgend.gov.uk/media/11959/2022-2023-prosbectws-dechrau-yn-yr-ysgol-v10.pdf

Y Rhif Derbyn a Gyhoeddwyd ar gyfer Ysgol Gymraeg Bro Ogwr newydd fyddai 75.

**Trefniadau teithio ac effaith hygyrchedd**

Yn unol â’r Polisi Cartref i’r Ysgol/Coleg, bydd dysgwyr oed cynradd sy’n mynychu eu hysgol cyfrwng Cymraeg agosaf yn cael cludiant am ddim os ydynt yn byw 2 filltir neu fwy o’r ysgol a bydd dysgwyr meithrin llawn amser yn gymwys i gael cludiant am ddim os maent yn byw 1.5 milltir neu fwy. Mae pellteroedd yn seiliedig ar lwybrau cerdded a llwybrau diogel sydd ar gael.

Gellir gweld y Polisi Cartref i’r Ysgol/Coleg drwy'r ddolen ganlynol: https://www.bridgend.gov.uk/media/5632/home-to-school-or-college-transport-policy-v2.pdf

Y pellter rhwng safle presennol Ysgol Gymraeg Bro Ogwr a safle Ffordd Cadfan yw 0.2 milltir. Rhagwelir y gallai'r rhai sy'n byw ar hyn o bryd yn union o amgylch yr ysgol gerdded o hyd pe bai'r cynnig yn cael ei symud ymlaen.

## Asesiadau Effaith

### Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned

Cynhaliwyd asesiad cychwynnol o'r effaith ar y gymuned a byddem yn croesawu eich sylwadau/safbwyntiau fel rhan o'r ymgynghoriad hwn ynghylch a ydych o'r farn y byddai'r cynnig yn cael effaith gadarnhaol/andwyol.

Canlyniadau'r asesiad cychwynnol yw: rhagwelir y bydd cwblhau'r adeiladau ysgol newydd arfaethedig yn cael effaith gadarnhaol o ganlyniad i ddarparu cyfleusterau modern a hygyrch.

Mae'r asesiad cychwynnol i'w weld yn atodiad A.

### Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

Cynhaliwyd asesiad cychwynnol o'r effaith ar y Gymraeg a byddem yn croesawu eich sylwadau/safbwyntiau fel rhan o'r ymgynghoriad hwn ynghylch a ydych o'r farn y byddai'r cynnig yn cael effaith gadarnhaol/andwyol.

Gan mai'r cynnig yw gwneud newid rheoledig i ehangu Ysgol Gymraeg Bro Ogwr, ar dir oddi ar Ffordd Cadfan, ystyrir y byddai effaith gadarnhaol sylweddol ar y ddarpariaeth Gymraeg a brofir gan ddysgwyr ar hyn o bryd.

Mae'r asesiad cychwynnol i'w weld yn atodiad B.

### Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Cynhaliwyd asesiad cychwynnol o'r effaith ar gydraddoldeb a byddem yn croesawu eich sylwadau/safbwyntiau fel rhan o'r ymgynghoriad hwn ynghylch a ydych o'r farn y byddai'r cynnig yn cael effaith gadarnhaol/andwyol.

Fel rhan o'r broses gyffredinol, mae'n ddyletswydd ar y cyngor i ystyried goblygiadau unrhyw gynnig ar bob aelod o'r gymuned leol ble gallai'r cynnig effeithio'n annheg arnynt petai'n cael ei weithredu.  Mae sgrinio cychwynnol wedi'i wneud a nodwyd na fyddai'r cynnig yn debygol o gael effaith negyddol ar unrhyw grŵp gwarchodedig. Nodwyd effeithiau cadarnhaol, gan gynnwys y Gymraeg, rhywedd ac oedran.  Gan

na nodwyd unrhyw effeithiau negyddol, ni fydd angen cynnal asesiad llawn o'r effaith ar gydraddoldeb.

Byddem yn croesawu eich sylwadau/safbwyntiau fel rhan o'r ymgynghoriad hwn ynghylch a ydych o'r farn y byddai’r cynnig yn cael effaith gadarnhaol/andwyol ar unrhyw grwpiau neu unigolion.

Gwelir y sgrinio cychwynnol yn atodiad C.

**Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn**

Mae'r cynnig yn debygol o fod o fudd i blant a phobl ifanc yn unol â 7 nod craidd Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn sef:

- Cael dechrau da mewn bywyd;
- Cael ystod gynhwysfawr o gyfleoedd addysg a dysgu;
- Cael yr iechyd gorau posibl, yn rhydd o gamdriniaeth, erledigaeth a cham-fanteisio;
- Cael mynediad at weithgareddau chwarae, hamdden, chwaraeon a diwylliannol;
- Cael gwrandawiad teg, eu trin â pharch a bod eu hil a'u hunaniaeth ddiwylliannol yn cael eu cydnabod;
- Cael cartref diogel a chymuned sy'n cefnogi llesiant corfforol ac emosiynol;
- Dim anfantais oherwydd tlodi.

## Risgiau

Mae manylion y risgiau sy'n gysylltiedig â'r cynnig a'r gwrthfesurau i'w gweld isod:

| Risg | Gwrthfesur |
|---|---|
| Gwrthwynebiadau i'r cynnig | Cyfathrebu amserol effeithiol gyda'r holl randdeiliaid |
| Costau'r cynllun yn uwch na'r gyllideb sydd ar gael | Cyfathrebu effeithiol gyda Llywodraeth Cymru ac achos busnes cadarn dros wariant |
| Costau’r gwaith isadeiledd priffyrdd angenrheidiol yn anhysbys ar hyn o bryd | Comisiynu asesiad cludiant yn gynnar i lywio'r gyllideb ar gyfer y gwaith priffyrdd angenrheidiol |

## Dewisiadau amgen

Ystyriwyd syniadau gwahanol i'r hyn a gynigiwyd. Mae nifer ohonynt yn cael eu rhestru isod, ynghyd â'r rhesymau pam na chawsant eu dewis:

**Gwneud Dim**
(h.y. parhau gyda'r ddarpariaeth addysgol bresennol yn yr ardal a fydd yn arwain at brinder lleoedd, costau cludiant ychwanegol posib a lleoliadau allan o'r sir oherwydd diffyg lleoedd cyfrwng Cymraeg).

Diystyrwyd yr opsiwn gan y byddai'n arwain at brinder lleoedd addysg oherwydd y twf mewn tai yn yr ardal.

**Adeilad newydd ar gyfer ysgol cyfrwng Saesneg 2FE**

Diystyrwyd yr opsiwn gan na fyddai'n cefnogi Cymraeg 2050, Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) i hybu'r Gymraeg a chynyddu mynediad i leoedd cyfrwng Cymraeg.

**Ysgol cyfrwng Cymraeg 2FE newydd ac ailfodelu YG Bro Ogwr i ddarparu ysgol cyfrwng Saesneg 1 neu 1.5FE**

Diystyrwyd yr opsiwn gan na fyddai'n cynyddu nifer y lleoedd cyfrwng Cymraeg yn ddigonol ar gyfer y buddsoddiad.

**Estyniadau mewn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg ar gyfer y disgyblion ddaw o ddatblygiadau tai gogledd-ddwyrain Bracla yn unig**

Diystyrwyd yr opsiwn gan nad yw'n cefnogi Cymraeg 2050, Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) i hybu'r Gymraeg a chynyddu mynediad i leoedd cyfrwng Cymraeg.

**Ysgol cyfrwng Cymraeg 2.5FE newydd ac ailfodelu YG Bro Ogwr i ddarparu ysgol cyfrwng Saesneg 1 neu 1.5FE**

Dyma'r opsiwn a ffefrir gan ei fod yn cyd-fynd â strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru, yn cefnogi'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg i hyrwyddo'r Gymraeg, yn lleddfu'r pwysau ar leoedd mewn ysgolion cyfagos drwy greu ysgol cyfrwng Saesneg yn ychwanegol at y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ac yn cynyddu nifer y lleoedd cyfrwng Cymraeg ar gyfer y dalgylch.

**DS** Byddai creu ysgol cyfrwng Saesneg yn adeilad presennol Ysgol Gymraeg Bro Ogwr yn destun proses statudol ar wahân a fyddai'n cael ei gweithredu dim ond pe bai'r cynnig ar gyfer ehangu Ysgol Gymraeg Bro Ogwr yn Ffordd Cadfan yn mynd yn ei flaen.

## Manylion yr ysgol(ion) yr effeithir arnynt

Mae’r ysgolion cymunedol canlynol wedi’u nodi fel rhai sy’n debygol o gael eu heffeithio’n uniongyrchol gan y cynnig:

| **Enw a chyfeiriad yr ysgol** | **Math** | **Rheswm dros gael ei heffeithio** | **Iaith** | **Ystod oedran** |
|---|---|---|---|---|
| Ysgol Gymraeg Bro Ogwr, Ffordd y Dywysoges, Bracla, Pen-y-bont CF31 2LN | Cymunedol | Ehangu | Cyfrwng Cymraeg | 3-11 |

Mae'r ysgolion cymunedol canlynol yn yr ardal gyfagos. Er nad yw'r cynnig yn effeithio'n uniongyrchol arnynt, mae'n bosibl (er nad yw o reidrwydd yn debygol) y gallai'r cynnig effeithio'n anuniongyrchol ar rai mewn rhyw ffordd gyfyngedig (e.e. o bosibl o ganlyniad i rieni yn mynegi dewis mewn perthynas â'r ysgol a ffefrir ar gyfer eu plant):

| **Enw a chyfeiriad yr ysgol** | **Math** | **Iaith** | **Ystod oedran** |
|---|---|---|---|
| **CYNRADD** | | | |
| Ysgol Gynradd yr Archddiacon John Lewis yr Eglwys yng Nghymru Ffordd Bracla Pen-y-bont CF31 2JS | Gwirfoddol a gynorthwyir | Cyfrwng Saesneg | 3-11 |
| Ysgol Gynradd Bracla Ffordd Bracla Pen-y-bont CF31 2EZ | Cymunedol | Cyfrwng Saesneg | 3-11 |
| Ysgol Gynradd Bryncethin Heol Canola Bryncethin Pen-y-bont CF32 9TH | Cymunedol | Cyfrwng Saesneg | 3-11 |
| Ysgol Gynradd Brynmenyn Heol Sarah Jane Howell Tondu Pen-y-bont CF32 9FB | Cymunedol | Cyfrwng Saesneg | 3-11 |
| Ysgol Fabanod Bryntirion Bright Hill Pen-y-bont CF31 4DD | Cymunedol | Cyfrwng Saesneg | 3-7 |
| Ysgol Fabanod Cefn Glas 11 Ffordd Santes Gwenffrewi Pen-y-bont CF31 4PL | Cymunedol | Cyfrwng Saesneg | 3-7 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ysgol Gynradd Coety<br>Ffordd Yr Hebog Coety,<br>Pen-y-bont CF35 6DH | Cymunedol | Cyfrwng Saesneg | 3-11 |
| Ysgol Gynradd Llangrallo<br>Main Road Llangrallo<br>Pen-y-bont CF35 5HN | Cymunedol | Cyfrwng Saesneg | 3-11 |
| Ysgol Gynradd Croesty<br>Ffordd Coychurch<br>Pencoed Pen-y-bont<br>CF35 5LY | Cymunedol | Cyfrwng Saesneg | 3-11 |
| Ysgol Gynradd Llidiard<br>Garfield Avenue Pen-y-bont<br>CF31 1QB | Cymunedol | Cyfrwng Saesneg | 3-11 |
| Ysgol Iau Llangewydd<br>Heol Llangewydd<br>Pen-y-bont CF31 4JT | Cymunedol | Cyfrwng Saesneg | 7-11 |
| Ysgol Gynradd Maes Yr Haul Gentle Way<br>Pen-y-bont CF31 2EZ | Cymunedol | Cyfrwng Saesneg | 3-11 |
| Ysgol Gynradd Hengastell<br>Heol y De Pen-y-bont<br>CF31 3ED | Cymunedol | Cyfrwng Saesneg | 3-11 |
| Ysgol Gynradd Pencoed<br>Heol Penprysg Pencoed<br>Pen-y-bont CF35 6RH | Cymunedol | Cyfrwng Saesneg | 3-11 |
| Ysgol Gynradd Penybont<br>Heol Minerva<br>Pen-y-bont CF31 1TD | Cymunedol | Cyfrwng Saesneg | 3-11 |
| Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Pen-y-fai<br>Heol yr Eglwys Pen-y-fai<br>Pen-y-bont CF31 4LX | Gwirfoddol a reolir | Cyfrwng Saesneg | 3-11 |
| Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair Heol Llangewydd Cefn Glas<br>Pen-y-bont CF31 4JW | Gwirfoddol a gynorthwyir | Cyfrwng Saesneg | 3-11 |
| Ysgol Gynradd Gatholig Sant Roberts<br>Danylan, Abercynffig<br>Pen-y-bont CF32 9AB | Gwirfoddol a gynorthwyir | Cyfrwng Saesneg | 3-11 |
| Ysgol Gynradd Tondu<br>Meadow Street Abercynffig<br>Pen-y-bont CF35 6BU | Cymunedol | Cyfrwng Saesneg | 3-11 |
| Ysgol Gynradd Trelales<br>Trelales Pen-y-bont<br>CF32 0LN | Cymunedol | Cyfrwng Saesneg | 3-11 |
| Ysgol Gynradd Tremaen<br>Channel View<br>Pen-y-bont CF31 2NL | Cymunedol | Cyfrwng Saesneg | 3-11 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ysgol Gymraeg Bro Ogwr<br>Ffordd y Dywysoges<br>Bracla Pen-y-bont<br>CF31 2LN | Cymunedol | Cyfrwng Cymraeg | 3-11 |
| Ysgol Gynradd Gymraeg Calon Y Cymoedd<br>Hill View Pontycymmer<br>Betws Pen-y-bont<br>CF32 0LN | Cymunedol | Cyfrwng Cymraeg | 3-11 |
| Ysgol Cynwyd Sant<br>Pen-Yr-Ysgol Maesteg<br>CF34 9NS | Cymunedol | Cyfrwng Cymraeg | 3-11 |
| Ysgol Y Ferch O'r Sgêr<br>Teras Maes Glas Gogledd<br>Corneli Pen-y-bont<br>CF33 4LW | Cymunedol | Cyfrwng Cymraeg | 3-11 |
| **UWCHRADD** | | | |
| Ysgol Gyfun Gymraeg<br>Llangynwyd Maesteg<br>CF34 9RW | Cymunedol | Cyfrwng Cymraeg | 11 – 18 |
| Ysgol Gatholig yr Archesgob McGrath Oak Tree Way<br>Bracla Pen-y-bont<br>CF32 9AB | Ysgol uwchradd a gynorthwyir | Cyfrwng Saesneg | 11 - 18 |
| Ysgol Brynteg<br>Heol Ewenni<br>Pen-y-bont CF31 3ER | Cymunedol | Cyfrwng Saesneg | 11 - 18 |
| Ysgol Gyfun Bryntirion<br>Merlin Crescent<br>Pen-y-bont CF31 4QR | Cymunedol | Cyfrwng Saesneg | 11 - 18 |
| Coleg Cymunedol Y Dderwen Heol-Yr-Ysgol<br>Tondu Pen-y-bont CF32 9FE | Cymunedol | Cyfrwng Saesneg | 11 - 18 |
| Ysgol Gyfun Pencoed<br>Heol Coychurch<br>Pencoed Pen-y-bont<br>CF35 5LZ | Cymunedol | Cyfrwng Saesneg | 11 - 18 |

Mae'r tabl isod yn rhoi manylion rhifau ar y gofrestr ym mis Ionawr 2021 ym mhob un o'r ysgolion yr effeithir arnynt yn uniongyrchol gan y cynnig a'r rhifau a gofnodwyd ar gyfer y pedwar cyfrifiad blynyddol blaenorol.

| | **Ion 2021** | | **Ion 2020** | | **Ion 2019** | | **Ion 2018** | | **Ion 2017** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Llawn Amser | Rhan-amser | Llawn Amser | Rhan-amser | Llawn Amser | Rhan-amser | Llawn Amser | Rhan-amser | Llawn Amser | Rhan-amser |
| Ysgol Gynradd yr | 156 | 8 | 165 | 3 | 184 | 6 | 198 | 2 | 193 | 7 |

| | Ion 2021 | | Ion 2020 | | Ion 2019 | | Ion 2018 | | Ion 2017 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Archddiacon John Lewis | | | | | | | | | | |
| Ysgol Gynradd Bracla | 335 | 10 | 333 | 10 | 338 | 6 | 325 | 12 | 303 | 10 |
| Ysgol Gynradd Bryncethin | 264 | 10 | 266 | 10 | 275 | 7 | 292 | 7 | 293 | 5 |
| Ysgol Gynradd Brynmenyn | 385 | 15 | 361 | 11 | 312 | 6 | 218 | 7 | 198 | 7 |
| Ysgol Fabanod Bryntirion | 145 | 7 | 136 | 11 | 154 | 6 | 145 | 7 | 149 | 12 |
| Ysgol Fabanod Cefn Glas | 187 | 21 | 180 | 5 | 175 | 19 | 178 | 14 | 211 | 6 |
| Ysgol Gynradd Coety | 460 | 15 | 443 | 20 | 430 | 19 | 401 | 18 | 370 | 13 |
| Ysgol Gynradd Llangrallo | 152 | 0 | 151 | 2 | 147 | 4 | 144 | 7 | 142 | 7 |
| Ysgol Gynradd Croesty | 213 | 3 | 220 | 5 | 223 | 7 | 217 | 5 | 236 | 2 |
| Ysgol Gynradd Llidiard | 506 | 0 | 470 | 17 | 448 | 15 | 443 | 15 | 428 | 16 |
| Ysgol Gynradd Llangewydd | 354 | 0 | 366 | 0 | 337 | 0 | 339 | 0 | 324 | 0 |
| Ysgol Gynradd Maes Yr Haul | 504 | 12 | 521 | 0 | 540 | 8 | 565 | 11 | 570 | 14 |
| Ysgol Gynradd Hengastell | 451 | 0 | 440 | 12 | 434 | 6 | 423 | 18 | 409 | 12 |
| Ysgol Gynradd Pencoed | 610 | 0 | 596 | 0 | 583 | 14 | 575 | 10 | 349 | 14 |
| Ysgol Gynradd Penybont | 358 | 0 | 344 | 10 | 359 | 7 | 360 | 9 | 359 | 9 |
| Ysgol Gynradd yr Eglwys yng | 238 | 9 | 237 | 4 | 240 | 4 | 236 | 3 | 228 | 2 |

| | Ion 2021 | | Ion 2020 | | Ion 2019 | | Ion 2018 | | Ion 2017 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Nghymru Pen-y-fai | | | | | | | | | | |
| St Marys Catholic Primary School | 255 | 0 | 259 | 0 | 231 | 5 | 249 | 4 | 257 | 0 |
| Ysgol Gynradd Gatholig Sant Roberts | 189 | 4 | 193 | 3 | 192 | 7 | 187 | 4 | 182 | 8 |
| Ysgol Gynradd Tondu | 212 | 9 | 223 | 5 | 236 | 9 | 273 | 9 | 276 | 8 |
| Ysgol Gynradd Trelales | 226 | 4 | 223 | 2 | 216 | 3 | 212 | 10 | 218 | 2 |
| Ysgol Gynradd Tremaen | 459 | 15 | 457 | 1 | 466 | 17 | 472 | 22 | 473 | 9 |
| Ysgol Gymraeg Bro Ogwr | 402 | 0 | 397 | 10 | 423 | 1 | 433 | 7 | 420 | 5 |
| Ysgol Gynradd Gymraeg Calon Y Cymoedd | 212 | 1 | 190 | 4 | 166 | 7 | 152 | 4 | 154 | 0 |
| Ysgol Cynwyd Sant | 285 | 0 | 290 | 0 | 290 | 0 | 293 | 0 | 302 | 0 |
| Ysgol Y Ferch O'r Sgêr | 162 | 6 | 163 | 3 | 172 | 1 | 191 | 1 | 219 | 2 |
| Ysgol Gatholig yr Archesgob McGrath | 876 | 0 | 879 | 0 | 830 | 0 | 800 | 0 | 809 | 0 |
| Ysgol Brynteg | 1469 | 0 | 1404 | 0 | 1441 | 0 | 1412 | 0 | 1513 | 0 |
| Ysgol Gyfun Bryntirion | 1239 | 0 | 1193 | 0 | 1204 | 0 | 1170 | 0 | 1116 | 0 |
| Coleg Cymunedol Y Dderwen | 1273 | 0 | 1224 | 0 | 1243 | 0 | 1214 | 0 | 1219 | 0 |
| Ysgol Gyfun Pencoed | 900 | 0 | 901 | 0 | 889 | 0 | 888 | 0 | 884 | 0 |

| | Ion 2021 | | Ion 2020 | | Ion 2019 | | Ion 2018 | | Ion 2017 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd | 657 | 0 | 622 | 0 | 613 | 0 | 623 | 0 | 617 | 0 |

Mae'r tablau canlynol yn dangos rhagamcaniadau 5 mlynedd o niferoedd dysgwyr:

**Ysgol Gynradd yr Archddiacon John Lewis**

| Blwyddyn | M1 | M2 | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 | Cyfan swm 2-11 | Cyfanswm gan gynnwys tai |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ion 2021 | 8 | 11 | 21 | 15 | 20 | 23 | 24 | 29 | 13 | 164 | 166 |
| Ion 2022 | 5 | 16 | 18 | 20 | 16 | 19 | 23 | 23 | 30 | 170 | 173 |
| Ion 2023 | 6 | 15 | 18 | 17 | 21 | 16 | 20 | 23 | 24 | 160 | 161 |
| Ion 2024 | 6 | 15 | 17 | 17 | 18 | 20 | 16 | 19 | 23 | 151 | 151 |
| Ion 2025 | 6 | 15 | 17 | 16 | 18 | 18 | 21 | 15 | 20 | 146 | 146 |
| Ion 2026 | 6 | 15 | 18 | 16 | 18 | 18 | 21 | 15 | 20 | 147 | 147 |

**Ysgol Gynradd Bracla**

| Blwyddyn | M1 | M2 | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 | Cyfan swm 2-11 | Cyfanswm gan gynnwys tai |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ion 2021 | 10 | 45 | 43 | 41 | 44 | 37 | 43 | 42 | 40 | 345 | 345 |
| Ion 2022 | 10 | 42 | 45 | 41 | 43 | 42 | 38 | 44 | 42 | 347 | 347 |
| Ion 2023 | 9 | 43 | 42 | 40 | 43 | 41 | 43 | 39 | 45 | 345 | 345 |
| Ion 2024 | 9 | 43 | 43 | 40 | 42 | 41 | 43 | 44 | 40 | 345 | 345 |
| Ion 2025 | 9 | 43 | 43 | 41 | 42 | 40 | 42 | 44 | 45 | 349 | 349 |

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ion 2026 | 9 | 43 | 43 | 41 | 43 | 40 | 41 | 44 | 44 | 348 | 348 |

**Ysgol Gynradd Bryncethin**

| Blwyddyn | M1 | M2 | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 | Cyfan swm 2-11 | Cyfanswm gan gynnwys tai |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ion 2021 | 11 | 34 | 30 | 32 | 35 | 32 | 32 | 34 | 34 | 274 | 277 |
| Ion 2022 | 9 | 33 | 34 | 29 | 31 | 35 | 31 | 32 | 33 | 267 | 270 |
| Ion 2023 | 9 | 32 | 44 | 33 | 28 | 31 | 34 | 31 | 31 | 273 | 276 |
| Ion 2024 | 9 | 32 | 37 | 43 | 31 | 28 | 31 | 34 | 30 | 275 | 278 |
| Ion 2025 | 9 | 32 | 34 | 36 | 41 | 31 | 27 | 30 | 33 | 273 | 276 |
| Ion 2026 | 9 | 32 | 37 | 33 | 34 | 41 | 31 | 27 | 30 | 274 | 277 |

**Ysgol Gynradd Brynmenyn**

| Blwyddyn | M1 | M2 | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 | Cyfan swm 2-11 | Cyfanswm gan gynnwys tai |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ion 2021 | 15 | 43 | 50 | 56 | 52 | 49 | 46 | 50 | 39 | 400 | 402 |
| Ion 2022 | 10 | 45 | 47 | 61 | 66 | 63 | 54 | 52 | 60 | 458 | 461 |
| Ion 2023 | 10 | 48 | 48 | 57 | 71 | 80 | 70 | 62 | 62 | 508 | 511 |
| Ion 2024 | 10 | 48 | 48 | 58 | 67 | 86 | 89 | 80 | 74 | 560 | 563 |
| Ion 2025 | 10 | 48 | 48 | 58 | 69 | 81 | 96 | 101 | 95 | 606 | 609 |
| Ion 2026 | 10 | 48 | 48 | 58 | 69 | 83 | 90 | 109 | 120 | 635 | 638 |

**Ysgol Fabanod Bryntirion**

| Blwyddyn | M1 | M2 | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 | Cyfan swm 2-11 | Cyfanswm gan gynnwys tai |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ion 2021 | 7 | 34 | 30 | 39 | 40 | | | | | 150 | 154 |
| Ion 2022 | 7 | 32 | 40 | 32 | 38 | | | | | 149 | 154 |
| Ion 2023 | 7 | 32 | 32 | 42 | 31 | | | | | 144 | 160 |
| Ion 2024 | 7 | 32 | 33 | 34 | 41 | | | | | 147 | 163 |
| Ion 2025 | 7 | 32 | 32 | 35 | 33 | | | | | 139 | 155 |
| Ion 2026 | 7 | 32 | 34 | 34 | 34 | | | | | 141 | 157 |

**Ysgol Fabanod Cefn Glas**

| Blwyddyn | M1 | M2 | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 | Cyfan swm 2-11 | Cyfanswm gan gynnwys tai |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ion 2021 | 21 | 38 | 64 | 49 | 36 | | | | | 208 | 227 |
| Ion 2022 | 15 | 45 | 60 | 63 | 50 | | | | | 233 | 274 |
| Ion 2023 | 15 | 48 | 63 | 59 | 64 | | | | | 249 | 290 |
| Ion 2024 | 15 | 48 | 59 | 62 | 60 | | | | | 244 | 285 |
| Ion 2025 | 15 | 48 | 61 | 58 | 63 | | | | | 245 | 286 |
| Ion 2026 | 15 | 48 | 61 | 60 | 59 | | | | | 243 | 284 |

**Ysgol Gynradd Coety**

| Blwyddyn | M1 | M2 | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 | Cyfan swm 2-11 | Cyfanswm gan gynnwys tai |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ion 2021 | 15 | 58 | 60 | 60 | 60 | 59 | 54 | 54 | 55 | 475 | 475 |
| Ion 2022 | 18 | 59 | 103 | 61 | 58 | 62 | 60 | 52 | 55 | 528 | 558 |
| Ion 2023 | 18 | 59 | 118 | 105 | 59 | 59 | 63 | 58 | 53 | 592 | 631 |
| Ion 2024 | 18 | 59 | 114 | 120 | 101 | 61 | 61 | 61 | 60 | 655 | 694 |
| Ion 2025 | 18 | 59 | 117 | 116 | 116 | 104 | 62 | 59 | 62 | 713 | 752 |
| Ion 2026 | 18 | 59 | 113 | 119 | 112 | 119 | 106 | 60 | 60 | 766 | 805 |

**Ysgol Gynradd Llangrallo**

| Blwyddyn | M1 | M2 | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 | Cyfan swm 2-11 | Cyfanswm gan gynnwys tai |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ion 2021 | 0 | 18 | 17 | 19 | 19 | 20 | 21 | 19 | 19 | 152 | 152 |
| Ion 2022 | 3 | 18 | 18 | 16 | 19 | 19 | 19 | 22 | 17 | 151 | 161 |
| Ion 2023 | 2 | 18 | 18 | 17 | 16 | 19 | 18 | 20 | 20 | 148 | 158 |
| Ion 2024 | 2 | 18 | 18 | 17 | 17 | 16 | 18 | 20 | 19 | 145 | 160 |
| Ion 2025 | 2 | 18 | 18 | 17 | 17 | 17 | 16 | 19 | 18 | 142 | 157 |
| Ion 2026 | 2 | 18 | 18 | 17 | 17 | 17 | 17 | 17 | 18 | 141 | 156 |

**Ysgol Gynradd Croesty**

| Blwyddyn | M1 | M2 | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 | Cyfan swm 2-11 | Cyfanswm gan gynnwys tai |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ion 2021 | 12 | 14 | 22 | 19 | 29 | 30 | 29 | 31 | 30 | 216 | 216 |
| Ion 2022 | 7 | 20 | 29 | 24 | 19 | 29 | 29 | 29 | 32 | 218 | 218 |
| Ion 2023 | 8 | 19 | 23 | 31 | 24 | 19 | 29 | 29 | 30 | 212 | 212 |
| Ion 2024 | 8 | 19 | 23 | 25 | 31 | 24 | 19 | 29 | 31 | 209 | 209 |
| Ion 2025 | 8 | 19 | 19 | 25 | 25 | 32 | 24 | 19 | 30 | 201 | 201 |
| Ion 2026 | 8 | 19 | 24 | 20 | 25 | 25 | 31 | 24 | 20 | 196 | 196 |

**Ysgol Gynradd Llidiard**

| Blwyddyn | M1 | M2 | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 | Cyfan swm 2-11 | Cyfanswm gan gynnwys tai |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ion 2021 | 27 | 60 | 58 | 57 | 59 | 62 | 65 | 54 | 64 | 506 | 506 |
| Ion 2022 | 19 | 58 | 65 | 57 | 57 | 63 | 49 | 68 | 55 | 491 | 491 |
| Ion 2023 | 19 | 58 | 68 | 64 | 57 | 60 | 49 | 68 | 69 | 512 | 512 |
| Ion 2024 | 19 | 58 | 68 | 67 | 64 | 60 | 49 | 68 | 69 | 522 | 522 |
| Ion 2025 | 19 | 58 | 71 | 67 | 67 | 68 | 49 | 68 | 69 | 536 | 536 |
| Ion 2026 | 19 | 58 | 68 | 70 | 67 | 71 | 49 | 68 | 69 | 539 | 539 |

**Ysgol Gynradd Llangewydd**

| Blwyddyn | M1 | M2 | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 | Cyfan swm 2-11 | Cyfanswm gan gynnwys tai |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ion 2021 | | | | | | 72 | 98 | 89 | 95 | 354 | 383 |
| Ion 2022 | | | | | | 58 | 72 | 100 | 91 | 321 | 378 |
| Ion 2023 | | | | | | 68 | 58 | 73 | 102 | 301 | 372 |
| Ion 2024 | | | | | | 80 | 68 | 59 | 75 | 282 | 353 |
| Ion 2025 | | | | | | 78 | 80 | 69 | 60 | 287 | 359 |
| Ion 2026 | | | | | | 71 | 78 | 81 | 71 | 301 | 373 |

**Ysgol Gynradd Maes Yr Haul**

| Blwyddyn | M1 | M2 | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 | Cyfan swm 2-11 | Cyfanswm gan gynnwys tai |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ion 2021 | 12 | 53 | 60 | 53 | 59 | 60 | 75 | 72 | 72 | 516 | 516 |
| Ion 2022 | 8 | 57 | 53 | 61 | 52 | 60 | 59 | 74 | 71 | 495 | 495 |
| Ion 2023 | 7 | 56 | 57 | 55 | 60 | 53 | 58 | 58 | 72 | 476 | 476 |
| Ion 2024 | 7 | 56 | 56 | 59 | 55 | 61 | 51 | 57 | 56 | 458 | 458 |
| Ion 2025 | 7 | 56 | 62 | 58 | 59 | 55 | 62 | 50 | 56 | 465 | 465 |
| Ion 2026 | 7 | 56 | 57 | 64 | 58 | 59 | 54 | 60 | 49 | 464 | 464 |

**Ysgol Gynradd Hengastell**

| Blwyddyn | M1 | M2 | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 | Cyfan swm 2-11 | Cyfanswm gan gynnwys tai |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ion 2021 | 0 | 58 | 52 | 58 | 54 | 55 | 58 | 57 | 59 | 451 | 451 |
| Ion 2022 | 9 | 50 | 65 | 54 | 60 | 52 | 57 | 57 | 58 | 462 | 466 |
| Ion 2023 | 7 | 51 | 50 | 67 | 55 | 58 | 54 | 56 | 58 | 456 | 460 |
| Ion 2024 | 7 | 51 | 51 | 52 | 69 | 54 | 60 | 53 | 57 | 454 | 458 |
| Ion 2025 | 7 | 51 | 60 | 53 | 53 | 67 | 55 | 59 | 54 | 459 | 463 |
| Ion 2026 | 7 | 51 | 56 | 62 | 54 | 51 | 69 | 55 | 60 | 465 | 469 |

**Ysgol Gynradd Pencoed**

| Blwyddyn | M1 | M2 | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 | Cyfan swm 2-11 | Cyfanswm gan gynnwys tai |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ion 2021 | 0 | 67 | 77 | 63 | 73 | 83 | 76 | 87 | 84 | 610 | 610 |
| Ion 2022 | 6 | 67 | 67 | 81 | 64 | 74 | 84 | 77 | 88 | 608 | 618 |
| Ion 2023 | 5 | 66 | 67 | 70 | 82 | 64 | 74 | 85 | 78 | 591 | 600 |
| Ion 2024 | 5 | 66 | 74 | 70 | 71 | 82 | 65 | 75 | 86 | 594 | 604 |
| Ion 2025 | 5 | 66 | 81 | 78 | 71 | 72 | 83 | 66 | 76 | 598 | 608 |
| Ion 2026 | 5 | 66 | 75 | 85 | 78 | 72 | 72 | 84 | 66 | 603 | 613 |

**Ysgol Gynradd Penybont**

| Blwyddyn | M1 | M2 | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 | Cyfan swm 2-11 | Cyfanswm gan gynnwys tai |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ion 2021 | 17 | 38 | 37 | 41 | 44 | 45 | 43 | 45 | 48 | 358 | 358 |
| Ion 2022 | 11 | 37 | 38 | 37 | 43 | 43 | 45 | 51 | 45 | 350 | 350 |
| Ion 2023 | 12 | 37 | 37 | 38 | 39 | 41 | 43 | 51 | 50 | 348 | 348 |
| Ion 2024 | 12 | 37 | 37 | 37 | 40 | 38 | 42 | 51 | 50 | 344 | 344 |
| Ion 2025 | 12 | 37 | 37 | 37 | 39 | 39 | 38 | 51 | 50 | 340 | 340 |
| Ion 2026 | 12 | 37 | 37 | 37 | 39 | 38 | 39 | 51 | 50 | 340 | 340 |

**Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Pen-y-fai**

| Blwyddyn | M1 | M2 | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 | Cyfan swm 2-11 | Cyfanswm gan gynnwys tai |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ion 2021 | 9 | 30 | 30 | 29 | 30 | 30 | 31 | 35 | 23 | 247 | 247 |
| Ion 2022 | 5 | 29 | 30 | 29 | 29 | 30 | 31 | 33 | 33 | 249 | 254 |
| Ion 2023 | 6 | 29 | 29 | 29 | 29 | 29 | 31 | 32 | 31 | 245 | 250 |
| Ion 2024 | 6 | 29 | 29 | 28 | 29 | 29 | 30 | 32 | 31 | 243 | 248 |
| Ion 2025 | 6 | 29 | 29 | 28 | 28 | 29 | 30 | 31 | 31 | 241 | 246 |
| Ion 2026 | 6 | 29 | 29 | 28 | 28 | 28 | 30 | 32 | 30 | 240 | 245 |

## Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair

| Blwyddyn | M1 | M2 | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 | Cyfan swm 2-11 | Cyfanswm gan gynnwys tai |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ion 2021 | 4 | 28 | 33 | 31 | 28 | 38 | 40 | 30 | 23 | 255 | 258 |
| Ion 2022 | 3 | 26 | 30 | 36 | 33 | 29 | 41 | 39 | 32 | 269 | 271 |
| Ion 2023 | 3 | 27 | 30 | 33 | 38 | 34 | 31 | 40 | 41 | 277 | 278 |
| Ion 2024 | 3 | 27 | 29 | 33 | 34 | 39 | 37 | 31 | 42 | 275 | 275 |
| Ion 2025 | 3 | 27 | 28 | 32 | 34 | 36 | 42 | 35 | 32 | 269 | 269 |
| Ion 2026 | 3 | 27 | 29 | 32 | 34 | 36 | 42 | 35 | 32 | 270 | 270 |

## Ysgol Gynradd Gatholig Sant Roberts

| Blwyddyn | M1 | M2 | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 | Cyfan swm 2-11 | Cyfanswm gan gynnwys tai |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ion 2021 | 4 | 10 | 30 | 24 | 23 | 30 | 30 | 17 | 25 | 193 | 195 |
| Ion 2022 | 5 | 20 | 25 | 29 | 24 | 28 | 27 | 34 | 15 | 207 | 208 |
| Ion 2023 | 5 | 20 | 25 | 24 | 28 | 29 | 25 | 31 | 31 | 218 | 219 |
| Ion 2024 | 5 | 20 | 24 | 24 | 24 | 34 | 26 | 29 | 28 | 214 | 214 |
| Ion 2025 | 5 | 20 | 24 | 23 | 24 | 29 | 31 | 29 | 26 | 211 | 211 |
| Ion 2026 | 5 | 20 | 25 | 23 | 24 | 29 | 31 | 29 | 26 | 212 | 212 |

**Ysgol Gynradd Tondu**

| Blwyddyn | M1 | M2 | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 | Cyfan swm 2-11 | Cyfanswm gan gynnwys tai |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ion 2021 | 9 | 18 | 24 | 21 | 31 | 26 | 31 | 34 | 27 | 221 | 244 |
| Ion 2022 | 8 | 25 | 21 | 24 | 20 | 32 | 26 | 30 | 34 | 220 | 266 |
| Ion 2023 | 8 | 22 | 25 | 21 | 22 | 21 | 32 | 25 | 30 | 206 | 274 |
| Ion 2024 | 8 | 22 | 31 | 25 | 20 | 23 | 21 | 31 | 25 | 206 | 297 |
| Ion 2025 | 8 | 22 | 22 | 30 | 23 | 20 | 23 | 20 | 31 | 199 | 313 |
| Ion 2026 | 8 | 22 | 25 | 22 | 29 | 24 | 20 | 22 | 20 | 192 | 329 |

**Ysgol Gynradd Trelales**

| Blwyddyn | M1 | M2 | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 | Cyfan swm 2-11 | Cyfanswm gan gynnwys tai |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ion 2021 | 6 | 27 | 27 | 30 | 18 | 31 | 31 | 30 | 30 | 230 | 230 |
| Ion 2022 | 5 | 25 | 27 | 28 | 32 | 19 | 32 | 33 | 30 | 231 | 231 |
| Ion 2023 | 4 | 28 | 25 | 28 | 29 | 32 | 19 | 33 | 33 | 231 | 231 |
| Ion 2024 | 4 | 28 | 28 | 26 | 29 | 30 | 33 | 20 | 34 | 232 | 232 |
| Ion 2025 | 4 | 28 | 28 | 29 | 27 | 30 | 30 | 35 | 20 | 231 | 231 |
| Ion 2026 | 4 | 28 | 28 | 29 | 30 | 28 | 30 | 32 | 35 | 244 | 244 |

### Ysgol Gynradd Tremaen

| Blwyddyn | M1 | M2 | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 | Cyfan swm 2-11 | Cyfanswm gan gynnwys tai |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ion 2021 | 12 | 54 | 70 | 58 | 39 | 58 | 63 | 62 | 58 | 474 | 474 |
| Ion 2022 | 11 | 56 | 54 | 69 | 57 | 36 | 56 | 60 | 61 | 460 | 460 |
| Ion 2023 | 10 | 59 | 56 | 53 | 67 | 53 | 35 | 54 | 59 | 446 | 446 |
| Ion 2024 | 10 | 59 | 59 | 55 | 52 | 63 | 51 | 34 | 53 | 436 | 436 |
| Ion 2025 | 10 | 59 | 59 | 58 | 54 | 48 | 61 | 49 | 33 | 431 | 431 |
| Ion 2026 | 10 | 59 | 59 | 58 | 57 | 50 | 47 | 58 | 48 | 446 | 446 |

### Ysgol Gymraeg Bro Ogwr

| Blwyddyn | M1 | M2 | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 | Cyfan swm 2-11 | Cyfanswm gan gynnwys tai |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ion 2021 | 6 | 42 | 47 | 49 | 49 | 45 | 51 | 60 | 53 | 402 | 416 |
| Ion 2022 | 6 | 47 | 50 | 45 | 46 | 48 | 44 | 49 | 59 | 394 | 416 |
| Ion 2023 | 6 | 46 | 50 | 48 | 42 | 45 | 47 | 43 | 49 | 376 | 402 |
| Ion 2024 | 6 | 46 | 50 | 48 | 45 | 41 | 44 | 45 | 42 | 17 | 395 |
| Ion 2025 | 6 | 46 | 50 | 48 | 45 | 44 | 40 | 42 | 45 | 366 | 396 |
| Ion 2026 | 6 | 46 | 50 | 48 | 45 | 44 | 40 | 42 | 45 | 366 | 398 |

**Ysgol Gynradd Gymraeg Calon Y Cymoedd**

| Blwyddyn | M1 | M2 | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 | Cyfan swm 2-11 | Cyfanswm gan gynnwys tai |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ion 2021 | 9 | 26 | 30 | 25 | 30 | 28 | 22 | 29 | 14 | 213 | 227 |
| Ion 2022 | 4 | 26 | 25 | 32 | 27 | 33 | 30 | 21 | 29 | 227 | 249 |
| Ion 2023 | 4 | 26 | 26 | 27 | 34 | 30 | 36 | 29 | 21 | 233 | 259 |
| Ion 2024 | 4 | 26 | 26 | 28 | 29 | 38 | 32 | 35 | 29 | 247 | 275 |
| Ion 2025 | 4 | 26 | 26 | 28 | 30 | 32 | 41 | 31 | 35 | 253 | 283 |
| Ion 2026 | 4 | 26 | 26 | 28 | 30 | 32 | 41 | 31 | 35 | 253 | 285 |

**Ysgol Cynwyd Sant**

| Blwyddyn | M1 | M2 | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 | Cyfan swm 2-11 | Cyfanswm gan gynnwys tai |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ion 2021 | 0 | 31 | 44 | 32 | 22 | 37 | 37 | 41 | 41 | 285 | 299 |
| Ion 2022 | 1 | 34 | 43 | 42 | 31 | 21 | 37 | 37 | 41 | 287 | 309 |
| Ion 2023 | 1 | 34 | 38 | 41 | 40 | 29 | 21 | 37 | 36 | 277 | 303 |
| Ion 2024 | 1 | 34 | 41 | 36 | 39 | 39 | 29 | 21 | 36 | 276 | 304 |
| Ion 2025 | 1 | 34 | 41 | 39 | 35 | 38 | 39 | 29 | 21 | 277 | 307 |
| Ion 2026 | 1 | 34 | 41 | 39 | 35 | 38 | 39 | 29 | 21 | 277 | 309 |

**Ysgol Y Ferch O'r Sgêr**

| Blwyddyn | M1 | M2 | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 | Cyfan swm 2-11 | Cyfanswm gan gynnwys tai |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ion 2021 | 8 | 21 | 19 | 16 | 16 | 12 | 24 | 28 | 24 | 168 | 170 |
| Ion 2022 | 3 | 20 | 21 | 19 | 15 | 14 | 11 | 23 | 27 | 153 | 156 |
| Ion 2023 | 4 | 20 | 20 | 21 | 18 | 14 | 13 | 10 | 22 | 142 | 146 |
| Ion 2024 | 4 | 20 | 20 | 20 | 20 | 16 | 13 | 13 | 10 | 136 | 140 |
| Ion 2025 | 4 | 20 | 20 | 20 | 19 | 18 | 15 | 12 | 12 | 140 | 145 |
| Ion 2026 | 4 | 20 | 20 | 20 | 19 | 18 | 15 | 12 | 12 | 140 | 172 |

**Ysgol Gatholig yr Archesgob McGrath**

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 | Cyfans wm 11-19 | Cyfanswm gan gynnwys tai |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ion 2021 | 155 | 173 | 146 | 126 | 120 | 77 | 79 | 876 | 886 |
| Ion 2022 | 145 | 158 | 168 | 147 | 122 | 78 | 60 | 878 | 894 |
| Ion 2023 | 160 | 148 | 153 | 169 | 143 | 79 | 61 | 913 | 932 |
| Ion 2024 | 168 | 163 | 143 | 155 | 164 | 93 | 62 | 948 | 969 |
| Ion 2025 | 168 | 171 | 158 | 145 | 150 | 107 | 73 | 972 | 994 |
| Ion 2026 | 150 | 171 | 166 | 160 | 141 | 98 | 83 | 969 | 992 |

**Ysgol Brynteg**

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 | Cyfanswm 11-19 | Cyfanswm gan gynnwys tai |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ion 2021 | 235 | 229 | 274 | 199 | 228 | 176 | 128 | 1469 | 1472 |
| Ion 2022 | 254 | 240 | 234 | 274 | 193 | 155 | 144 | 1494 | 1497 |
| Ion 2023 | 247 | 259 | 244 | 234 | 266 | 131 | 127 | 1508 | 1511 |
| Ion 2024 | 256 | 252 | 264 | 244 | 227 | 181 | 108 | 1532 | 1535 |
| Ion 2025 | 248 | 261 | 257 | 264 | 237 | 154 | 148 | 1569 | 1582 |
| Ion 2026 | 235 | 253 | 266 | 257 | 256 | 161 | 126 | 1554 | 1567 |

**Ysgol Bryntirion**

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 | Cyfanswm 11-19 | Cyfanswm gan gynnwys tai |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ion 2021 | 214 | 208 | 211 | 197 | 219 | 88 | 102 | 1239 | 1268 |
| Ion 2022 | 206 | 210 | 206 | 215 | 189 | 129 | 76 | 1231 | 1288 |
| Ion 2023 | 208 | 202 | 208 | 210 | 207 | 112 | 111 | 1258 | 1329 |
| Ion 2024 | 216 | 204 | 200 | 212 | 202 | 122 | 96 | 1252 | 1323 |
| Ion 2025 | 178 | 212 | 202 | 204 | 203 | 119 | 105 | 1223 | 1295 |
| Ion 2026 | 169 | 174 | 210 | 206 | 196 | 120 | 102 | 1177 | 1249 |

**Coleg Cymunedol Y Dderwen**

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 | Cyfanswm 11-19 | Cyfanswm gan gynnwys tai |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ion 2021 | 249 | 209 | 248 | 222 | 222 | 67 | 55 | 1272 | 1293 |
| Ion 2022 | 228 | 249 | 205 | 248 | 213 | 84 | 49 | 1276 | 1312 |
| Ion 2023 | 247 | 228 | 244 | 205 | 238 | 81 | 62 | 1305 | 1356 |
| Ion 2024 | 237 | 247 | 223 | 244 | 197 | 90 | 59 | 1297 | 1362 |
| Ion 2025 | 225 | 237 | 242 | 223 | 234 | 75 | 66 | 1302 | 1381 |
| Ion 2026 | 254 | 225 | 232 | 242 | 215 | 89 | 55 | 1312 | 1406 |

**Ysgol Pencoed**

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 | Cyfanswm 11-19 | Cyfanswm gan gynnwys tai |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ion 2021 | 136 | 153 | 147 | 150 | 164 | 69 | 80 | 899 | 925 |
| Ion 2022 | 151 | 136 | 153 | 148 | 143 | 90 | 56 | 877 | 914 |
| Ion 2023 | 155 | 151 | 136 | 155 | 141 | 78 | 73 | 889 | 929 |
| Ion 2024 | 144 | 155 | 151 | 137 | 147 | 78 | 63 | 875 | 915 |
| Ion 2025 | 153 | 144 | 155 | 153 | 130 | 81 | 63 | 879 | 918 |
| Ion 2026 | 142 | 153 | 144 | 157 | 145 | 72 | 65 | 877 | 917 |

**Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd**

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 | Cyfanswm 11-19 | Cyfanswm gan gynnwys tai |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ion 2021 | 112 | 123 | 107 | 103 | 98 | 66 | 48 | 657 | 665 |
| Ion 2022 | 120 | 109 | 121 | 103 | 102 | 56 | 49 | 660 | 672 |
| Ion 2023 | 141 | 116 | 106 | 116 | 102 | 58 | 41 | 680 | 695 |
| Ion 2024 | 122 | 137 | 114 | 102 | 115 | 58 | 43 | 691 | 707 |
| Ion 2025 | 112 | 118 | 134 | 110 | 101 | 65 | 43 | 683 | 700 |
| Ion 2026 | 107 | 109 | 134 | 129 | 108 | 58 | 48 | 693 | 711 |

Nid yw'r rhagamcaniadau a amlinellir uchod yn cynnwys y tai posibl y gellid eu cynhyrchu yn y dyfodol gan safleoedd ymgeisiol a gyflwynwyd ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) newydd CBSPAO (dim ond y safleoedd CDLl presennol a ragamcenir). Fodd bynnag, mae'n ddoeth ystyried effaith y CDLl yn y dyfodol wrth benderfynu ar y strategaeth hirdymor ar gyfer addysg yn yr ardal. Mae swyddogion y Gyfarwyddiaeth Addysg a Chymorth i Deuluoedd wedi penderfynu bod ysgol cyfrwng Cymraeg â 2.5 dosbarth mynediad yn briodol ar gyfer cynnig Gogledd-ddwyrain Pen-y-bont ar Ogwr (yn wyneb y galw am leoedd i ddisgyblion a fyddai'n cael ei greu gan dai posibl yn y dyfodol, yr angen i hyrwyddo'r Gymraeg ac i gynyddu nifer y plant meithrin nas cynhelir sy'n trosglwyddo i addysg gynradd cyfrwng Cymraeg).

**Tir ac adeiladau**

Mae'r tabl canlynol yn nodi capasiti ac asesiad o ansawdd y lleoedd dysgu yn unol ag arolygon y cyngor o gyflwr adeiladau'r ysgolion a gaiff eu heffeithio'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol gan y cynnig. Pennir y cyfrifiad capasiti ar gyfer dysgwyr 3-11 oed yn unol â Chylchlythyr Llywodraeth Cymru Rhif 21/2011 'Mesur Capasiti Ysgolion yng Nghymru'.

| Ysgol | Capasiti Meithrin | Capasiti Ysgol | Ansawdd y Lleoedd Dysgu |
|---|---|---|---|
| Ysgol Gynradd yr Archddiacon John Lewis | 15 | 208 | Sgôr cyflwr cyffredinol B (Boddhaol – gweithredu fel y bwriadwyd ond gyda mân ddirywiad) |
| Ysgol Gynradd Bracla | 85 | 330 | Sgôr cyflwr cyffredinol B (Boddhaol – gweithredu fel y bwriadwyd ond gyda mân ddirywiad) |
| Ysgol Gynradd Bryncethin | 60 | 269 | Sgôr cyflwr cyffredinol C (gwael; arddangos diffygion mawr a/neu ddim yn gweithredu fel y bwriadwyd) |
| Ysgol Gynradd Brynmenyn | 63 | 420 | Sgôr cyflwr cyffredinol A (da; gweithredu fel y bwriadwyd ac yn gweithredu'n effeithlon) |
| Ysgol Fabanod Bryntirion | 54 | 143 | Sgôr cyflwr cyffredinol C (gwael; arddangos diffygion mawr a/neu ddim yn gweithredu fel y bwriadwyd) |
| Ysgol Fabanod Cefn Glas | 80 | 180 | Sgôr cyflwr cyffredinol C (gwael; arddangos diffygion mawr a/neu ddim yn gweithredu fel y bwriadwyd) |
| Ysgol Gynradd Coety | 72 | 420 | Sgôr cyflwr cyffredinol B (Boddhaol – gweithredu fel y bwriadwyd ond gyda mân ddirywiad) |
| Ysgol Gynradd Llangrallo | 18 | 133 | Sgôr cyflwr cyffredinol B (Boddhaol – gweithredu fel y bwriadwyd ond gyda mân ddirywiad) |
| Ysgol Gynradd Croesty | 28 | 205 | Sgôr cyflwr cyffredinol C (gwael; arddangos diffygion mawr a/neu ddim yn gweithredu fel y bwriadwyd) |
| Ysgol Gynradd Llidiard | 89 | 420 | Sgôr cyflwr cyffredinol C (gwael; arddangos diffygion mawr a/neu ddim yn gweithredu fel y bwriadwyd) |
| Ysgol Iau Llangewydd | 0 | 357 | Sgôr cyflwr cyffredinol C (gwael; arddangos diffygion mawr a/neu ddim yn gweithredu fel y bwriadwyd) |
| Ysgol Gynradd Maes Yr Haul | 62 | 508 | Sgôr cyflwr cyffredinol B (Boddhaol – gweithredu fel y bwriadwyd ond gyda mân ddirywiad) |
| Ysgol Gynradd Hengastell | 57 | 420 | Sgôr cyflwr cyffredinol B (Boddhaol – gweithredu fel y bwriadwyd ond gyda mân ddirywiad) |
| Ysgol Gynradd Pencoed | 66 | 510 | Sgôr cyflwr cyffredinol A (da; gweithredu fel y bwriadwyd ac yn gweithredu'n effeithlon) |
| Ysgol Gynradd Penybont | 47 | 323 | Sgôr cyflwr cyffredinol C (gwael; arddangos diffygion mawr a/neu ddim yn gweithredu fel y bwriadwyd) |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Pen-y-fai | 39 | 210 | Sgôr cyflwr cyffredinol B (Boddhaol – gweithredu fel y bwriadwyd ond gyda mân ddirywiad) |
| Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair | 22 | 243 | Sgôr cyflwr cyffredinol C (gwael; arddangos diffygion mawr a/neu ddim yn gweithredu fel y bwriadwyd) |
| Ysgol Gynradd Gatholig Sant Roberts | 25 | 129 | Sgôr cyflwr cyffredinol D (Gwael; bywyd wedi dod i ben a/neu risg o gau ar fin digwydd) |
| Ysgol Gynradd Tondu | 40 | 249 | Sgôr cyflwr cyffredinol C (gwael; arddangos diffygion mawr a/neu ddim yn gweithredu fel y bwriadwyd) |
| Ysgol Gynradd Trelales | 31 | 182 | Sgôr cyflwr cyffredinol B (Boddhaol – gweithredu fel y bwriadwyd ond gyda mân ddirywiad) |
| Ysgol Gynradd Tremaen | 63 | 428 | Sgôr cyflwr cyffredinol C (gwael; arddangos diffygion mawr a/neu ddim yn gweithredu fel y bwriadwyd) |
| Ysgol Gymraeg Bro Ogwr | 55 | 349 | Sgôr cyflwr cyffredinol C (gwael; arddangos diffygion mawr a/neu ddim yn gweithredu fel y bwriadwyd) |
| Ysgol Gynradd Gymraeg Calon Y Cymoedd | 43 | 210 | Sgôr cyflwr cyffredinol A (da; gweithredu fel y bwriadwyd ac yn gweithredu'n effeithlon) |
| Ysgol Cynwyd Sant | 43 | 289 | Sgôr cyflwr cyffredinol C (gwael; arddangos diffygion mawr a/neu ddim yn gweithredu fel y bwriadwyd) |
| Ysgol Y Ferch o'r Sgêr | 40 | 197 | Sgôr cyflwr cyffredinol C (gwael; arddangos diffygion mawr a/neu ddim yn gweithredu fel y bwriadwyd) |
| Ysgol Brynteg | Amh. | 2008 | Sgôr cyflwr cyffredinol B (Boddhaol – gweithredu fel y bwriadwyd ond gyda mân ddirywiad) |
| Ysgol Gatholig yr Archesgob McGrath | Amh. | 836 | Sgôr cyflwr cyffredinol B (Boddhaol – gweithredu fel y bwriadwyd ond gyda mân ddirywiad) |
| Ysgol Gyfun Bryntirion | Amh. | 1222 | Sgôr cyflwr cyffredinol C (gwael; arddangos diffygion mawr a/neu ddim yn gweithredu fel y bwriadwyd) |
| Coleg Cymunedol Y Dderwen | Amh. | 1564 | Sgôr cyflwr cyffredinol A (da; gweithredu fel y bwriadwyd ac yn gweithredu'n effeithlon) |
| Ysgol Gyfun Pencoed | Amh. | 1115 | Sgôr cyflwr cyffredinol B (Boddhaol – gweithredu fel y bwriadwyd ond gyda mân ddirywiad) |
| Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd | Amh. | 775 | Sgôr cyflwr cyffredinol C (gwael; arddangos diffygion mawr a/neu ddim yn gweithredu fel y bwriadwyd) |

## Cyllid

Bydd cost ddisgwyliedig yr ysgolion newydd yn cael ei thalu o Raglen Ysgolion a Cholegau'r 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru. Byddwn yn datblygu'r gweithdrefnau achos busnes angenrheidiol yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru (LlC) yn ystod y camau datblygu a dylunio adeiladau.

Os bydd y cynnig yn mynd yn ei flaen yna amcangyfrifir mai cyfanswm cost y prosiect ar gyfer darparu'r ysgol newydd fydd £12.6m a ariennir gan Lywodraeth Cymru fel rhan o gymeradwyaeth grant Band B Moderneiddio Ysgolion yr 21ain Ganrif a Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Cyfartaledd y cyllid a roddir i bob dysgwr cynradd ym Mhen-y-bont ar Ogwr yw £3,808. Y cyllid presennol i bob dysgwr yn Ysgol Gymraeg Bro Ogwr yw £3,303..

Bydd Ysgol Gymraeg Bro Ogwr arfaethedig newydd yn creu costau refeniw ychwanegol. Mae hyn oherwydd yr arwynebedd llawr cynyddol a gwerth ardrethol uchel tebygol yr ysgol newydd o'i chymharu â'r ysgol hŷn. Hefyd, bydd cynnydd yn nifer y disgyblion.

## Y broses ymgynghori

Bydd y broses ymgynghori wedi cael ei chwblhau erbyn ** 2022 a bydd y canlyniadau, a gaiff eu cynnwys yn y cynnig lle bo hynny'n bosibl, yn cael eu cyflwyno i gyfarfod cabinet yn ** 2022. Ni fydd ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn cael eu hystyried fel gwrthwynebiadau ffurfiol; dim ond yn ystod yr Hysbysiad Cyhoeddus y gall hynny ddigwydd, fel ag yr amlinellir isod. Os bydd penderfyniad yn cael ei wneud i beidio â bwrw ymlaen, dyna fydd diwedd y cynnig hwn hyd y gellir rhagweld yr angen am gynnig arall.

Os mai'r penderfyniad fydd bwrw ymlaen â'r cynnig, bydd hysbysiad statudol yn amlinellu'r cynnig yn cael ei gyhoeddi am gyfnod o 28 diwrnod a chaiff gwrthwynebiadau ysgrifenedig ffurfiol eu gwahodd yn ystod y cyfnod hwn. Os bydd gwrthwynebiadau yn cyrraedd yn ystod y cam Hysbysiad Cyhoeddus hwn, bydd angen i'r cabinet ystyried y cynnig. Yna gall y cabinet dderbyn, gwrthod neu addasu'r cynnig.

Os nad oes unrhyw wrthwynebiad i'r cynnig, yna bydd yn mynd yn ei flaen yn amodol ar gymeradwyaeth derfynol y cabinet.

**Camau nesaf**

Mae'r amserlen a'r weithdrefn dros dro fel a ganlyn:

| **Gweithgaredd** | **Dyddiad** |
|---|---|
| Cyfnod ymgynghori lle rydym yn croesawu eich barn a'ch sylwadau ar y cynnig*. | 7 Chwefror 2022 i 21 Mawrth 2022 |
| Drafftio Adroddiad Ymgynghori i roi gwybodaeth i'r cabinet am ganlyniadau'r ymgynghoriad. | Mai 2022 |
| Cyhoeddi'r Adroddiad Ymgynghori Cymeradwy ar wefan CBSPAO, gyda chopïau caled ar gael ar eich cais. | Mai 2022 |
| Os cytuna Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, cyhoeddir Hysbysiad Cyhoeddus a bydd cyfnod o 28 diwrnod i gyflwyno gwrthwynebiadau i'r cynnig yn ysgrifenedig. | Mehefin 2022 |
| Os nad oes gwrthwynebiadau, gall y cabinet benderfynu a ddylid bwrw ymlaen ai peidio.  Os oes gwrthwynebiadau, anfonir Adroddiad Gwrthwynebiadau at y cabinet i'w ystyried cyn dod i benderfyniad terfynol. Yna cyhoeddir yr adroddiad sydd wedi ei gymeradwyo ar wefan CBSPAO a bydd copïau caled o'r adroddiad ar gael ar eich cais.<br>Cyhoeddi hysbysiad y penderfyniad. | Gorffennaf 2022 |
| Gweithredu. | Medi 2025 |

*Sylwer na fydd ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn cael eu hystyried fel gwrthwynebiadau i’r cynnig.   Dim ond yn ystod cyfnod yr hysbysiad cyhoeddus y gellir cofrestru gwrthwynebiadau.

## Beth sy’n rhaid i chi ei ystyried yn awr?

Fe’ch gwahoddir i ystyried y cynnig a chyflwyno eich safbwyntiau o blaid neu yn erbyn cefnogi'r cynnig i wneud newid rheoledig i ehangu Ysgol Gymraeg Bro Ogwr yn ysgol 2.5 dosbarth mynediad (FE), gyda meithrinfa â 90 lle cyfwerth ag amser llawn ynghyd â dosbarth arsylwi ac asesu 8 lle ar dir oddi ar Ffordd Cadfan, i ddigwydd o ddechrau tymor yr hydref 2025.

## Sut ydych chi'n lleisio'ch barn?

Os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach am y cynnig hwn, neu os hoffech gyflwyno'ch barn yn ysgrifenedig, awgrymu cynigion amgen neu ofyn am gopi o’r adroddiad ymgynghori pan gaiff ei gyhoeddi, cysylltwch â ni (drwy ddefnyddio’r ffurflen amgaeedig):

| | |
|---|---|
| **Post:** Y Gyfarwyddiaeth Addysg a Chymorth i Deuluoedd – Uned Gymorth y Gyfarwyddiaeth (EDSU), Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 4WB. | Nodwch er sylw EDSU, neu<br>**E-bost:** edsu@bridgend.gov.uk<br><br>**Ar-lein:** www.bridgend.gov.uk/consultation<br><br>**Ffôn:** (01656) 643643 |

Mae fformatiau eraill ar gael hefyd ar eich cais.

Rhaid i bob barn ddod i law erbyn **21 Mawrth 2022.**

## Pro forma

Cynnig i wneud newid rheoledig i ehangu Ysgol Gymraeg Bro Ogwr yn ysgol 2.5 dosbarth mynediad (FE), gyda meithrinfa â 90 lle cyfwerth ag amser llawn ynghyd â dosbarth arsylwi ac asesu 8 lle ar dir oddi ar Ffordd Cadfan, i ddigwydd o ddechrau tymor yr hydref 2025.

| | |
|---|---|
| Enw: | |
| Manylion Cyswllt: | |

**Ydych chi'n** (ticiwch):

| | |
|---|---|
| Llywodraethwr ysgol | |
| Dysgwr ysgol | |
| Rhiant/gwarcheidwad | |
| Staff yr ysgol | |
| Rhywun arall â diddordeb (nodwch) | |

**Ydych chi'n cefnogi'r cynnig:** **Ydw / Nac ydw**

**Os nad ydych yn cefnogi'r cynnig – nodwch pam:**

**Sylwadau/awgrymiadau/ceisiadau/cwestiynau:**

**Os hoffech awgrymu unrhyw newidiadau neu ddewisiadau eraill yn lle'r cynigion a gyflwynwyd, rhowch fanylion yma:**

**Unrhyw sylwadau eraill:**

## Atodiad A - Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned

**Enw'r cynnig:**

Cynnig i wneud newid rheoledig i ehangu Ysgol Gymraeg Bro Ogwr yn ysgol 2.5 dosbarth mynediad (FE), gyda meithrinfa â 90 lle cyfwerth ag amser llawn ynghyd â dosbarth arsylwi ac asesu 8 lle ar dir oddi ar Ffordd Cadfan, i ddigwydd o ddechrau tymor yr hydref 2025.

**Pwy fydd yn gwneud y penderfyniad?**

Y Cabinet

**Pwy sydd wedi bod yn rhan o waith datblygu'r cynnig?**

Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd

Pennaeth Addysg a Chymorth i Deuluoedd

Rheolwr Rhaglen Ysgolion – Addysg a Chymorth i Deuluoedd

Rheolwyr Grŵp – Y Gyfarwyddiaeth Addysg a Chymorth i Deuluoedd

Bwrdd Rhaglen Strategol Moderneiddio Ysgolion

Rheolwr Prosiect – Moderneiddio Ysgolion

Swyddogion technegol yr awdurdod lleol

**Nodau ac amcanion:**

Cynnig i wneud newid rheoledig i ehangu Ysgol Gymraeg Bro Ogwr yn ysgol 2.5 dosbarth mynediad (FE), gyda meithrinfa â 90 lle cyfwerth ag amser llawn ynghyd â dosbarth arsylwi ac asesu 8 lle ar dir oddi ar Ffordd Cadfan, i ddigwydd o ddechrau tymor yr hydref 2025

**Camau gweithredu allweddol:**

- Gweithdrefn statudol i wneud newid rheoledig i ehangu Ysgol Gymraeg Bro Ogwr

**Canlyniadau disgwyliedig:** Bydd Ysgol Gymraeg Bro Ogwr yn cael ei hadeiladu ar safle Ffordd Cadfan, gan ddarparu ysgol 2.5 dosbarth mynediad (FE) (525 o leoedd), ynghyd â meithrinfa â 90 lle cyfwerth ag amser llawn ynghyd â dosbarth arsylwi ac asesu 8 lle, i ddigwydd o Fedi 2025.

**Pwy fydd yn cael eu heffeithio:** Staff, llywodraethwyr, dysgwyr, rhieni a'r gymuned ehangach.

**Tua faint o bobl fydd yn cael eu heffeithio:** mwy na 1000 o bobl o bosibl.

**Dyddiad disgwyliedig y penderfyniad:** Gorffennaf 2022

**Cwmpas/ffocws yr asesiad:**

Ystyrir:

- defnydd presennol yr ysgolion gan y gymuned
- hygyrchedd i ddysgwyr, staff, rhieni a'r gymuned
- effaith symud ysgol gynradd
- effaith ar adeilad yr ysgol
- effaith ar y gymuned estynedig

**Data a/neu ymchwil berthnasol:**

- Y defnydd a wneir o'r adeilad y tu allan i oriau ysgol
- 'Fframwaith Strategaeth, Egwyddorion, Polisi a Chynllunio' sy'n llywio'r dull o fynd i'r afael â blaenoriaethau strategol o fewn y Fwrdeistref Sirol a 'Dogfen Egwyddorion' a ddilynodd yn 2015
- rhagamcaniad o niferoedd dysgwyr, capasiti a chyflwr adeiladau

**Canfyddiadau**

**Defnydd Cymunedol:**

- Ni ddefnyddir yr ysgol ar gyfer gweithgareddau cymunedol yn ystod yr wythnos.
- Mae sefydliadau fel Menter Bro Ogwr a'r Urdd yn rhedeg clybiau gwyliau yn ystod cyfnodau o wyliau'r ysgol.
- Mae'r ysgol yn gweithredu clwb brecwast am ddim ac mae Menter Bro Ogwr yn rhedeg clwb ar ôl ysgol i ddysgwyr.
- Mae'r ysgol yn cynnal clybiau allgyrsiol ar ôl ysgol o ddydd Llun i ddydd Iau.

**Polisi Sylfaenol:**

- Mae'r cynnig hwn yn cyd-fynd â 'Dogfen Egwyddorion' Mawrth 2015

**Rhagamcaniadau o nifer dysgwyr, capasiti, cyflwr adeiladau:**

- Mae'r rhagamcaniadau o nifer dysgwyr sy'n effeithio ar ysgolion cynradd y clwstwr yn dangos bod y boblogaeth dysgwyr yn cynyddu ar gyfer rhai ardaloedd o fewn y clwstwr.
- Amlinellir cyflwr yr adeiladau presennol isod:

| Ysgol | Ansawdd y Lleoedd Dysgu |
|---|---|
| Ysgol Gymraeg Bro Ogwr | Sgôr cyflwr cyffredinol C (gwael; arddangos diffygion mawr a/neu ddim yn gweithredu fel y bwriadwyd) |

**Effaith ar y gymuned estyned**ig

- Mae'n debygol y bydd effaith gadarnhaol o ran cyfleusterau cymunedol modern, hygyrch, pwrpasol yn yr ysgol newydd arfaethedig.

**Effaith ar ysgolion eraill**

- Ni ddisgwylir y bydd yr ysgol newydd yn cael effaith sylweddol ar unrhyw ysgol arall o ran lleihau niferoedd disgyblion. Gan mai ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yw hon, bydd yn denu disgyblion o ddalgylch llawer ehangach ac yn annhebygol o gystadlu am ddisgyblion mewn ysgolion cyfagos. Felly, mae nifer y disgyblion a all symud o ysgolion cyfrwng Saesneg i'r ysgol newydd hon yn debygol o fod yn fach iawn.

- Er bod cyfraddau cadw a throsglwyddo i'r ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg eisoes yn dda yn Ysgol Gymraeg Bro Ogwr, rhagwelir y gall yr ysgol newydd gael effaith gadarnhaol wrth gynorthwyo yn y meysydd hyn a bydd hynny o fudd i'r ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg yn ogystal â chynorthwyo gydag ymrwymiad yr awdurdod lleol i helpu i gynyddu nifer y dysgwyr mewn addysg cyfrwng Cymraeg (yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru a'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg). Yn ychwanegol at hyn, mae unrhyw welliant mewn un ysgol cyfrwng Cymraeg yn debygol o fod o fudd i'r clwstwr o ysgolion cyfrwng Cymraeg yn gyffredinol wrth i'r ysgolion gydweithio'n agos i rannu arfer dda.

**Sut bydd y penderfyniad yn effeithio ar bobl â nodweddion gwarchodedig gwahanol?**

Ystyrir nad yw'n debygol y bydd y cynnig yn cael effaith anghyfartal ar unrhyw nodweddion gwarchodedig. Os rhywbeth, mae'n debygol y caiff effaith gadarnhaol o ystyried y byddai'r ysgol newydd yn cael ei chynllunio i gydymffurfio'n llawn â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd a fyddai'n cefnogi pob dysgwr, aelod o staff, ymwelwyr a.y.b.

**Ymgynghoriad**

**A fu ymgynghoriad penodol ar y penderfyniad hwn (os na, nodwch pam a/neu pryd y gallai hyn ddigwydd):**

Bydd yr ymgynghoriad yn dechrau ar 7 Chwefror 2022.

**Beth oedd canlyniadau'r ymgynghoriad?**
Ystyriwyd effaith y cynnig hwn a gofynnwyd am ymatebion pellach fel rhan o'r ymgynghoriad. Bydd y canlyniad yn cael ei gofnodi a'i gyflwyno i'r Cabinet yn yr Adroddiad Ymgynghori.

**Yn gyffredinol ar draws y nodweddion gwarchodedig, pa wahaniaeth barn a ddatgelwyd gan ddadansoddiad o'r ymgynghoriad?**
I'w gadarnhau ar ôl cwblhau'r ymgynghoriad.

**Pa ganlyniadau a gafwyd o'r dadansoddiad ynghylch effaith y penderfyniad ar bobl â nodweddion gwarchodedig gwahanol?**
I'w gadarnhau ar ôl cwblhau'r ymgynghoriad.

## Asesu effaith ar staff

**Rhowch fanylion yr effaith ar staff, gan gynnwys y proffil staffio os/fel y bo'n briodol:**
Canlyniad y cynnig, pe bai'n mynd yn ei flaen, fyddai bod y strwythur staffio yn debygol o gynyddu dros gyfnod o amser. Byddai'r strwythur staffio yn cyd-fynd â'r cynnydd yn y boblogaeth ysgol. Y corff llywodraethu fyddai'n gyfrifol am y strwythur staffio. Byddai'r strwythur yn cael ei bennu'n bennaf gan anghenion addysgol yr ysgol a'r gyllideb sydd ar gael.

## Asesiad o'r effaith ar y gymuned ehangach

**Rhowch fanylion unrhyw effeithiau ar y gymuned gyfan:**
Mae safle'r ysgol newydd arfaethedig lai na 0.2 milltir i ffwrdd o safle presennol yr ysgol. Felly, ni ragwelir y bydd potensial sylweddol i gael effaith negyddol ar y gymuned.

Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd yn cael effaith gadarnhaol ar gydlyniad cymunedol oherwydd os bydd y cynnig yn mynd rhagddo, bydd y dysgwyr yn mynychu adeilad ysgol newydd mwy a fydd yn ymgorffori cyfleusterau cymunedol pwrpasol.

## Dadansoddiad o effaith yn ôl nodweddion gwarchodedig

**Crynhowch ganlyniadau'r dadansoddiad os gwelwch yn dda:**
Ystyrir nad yw'n debygol y bydd y cynnig yn cael effaith anghyfartal ar unrhyw nodweddion gwarchodedig.

## Asesu perthnasedd ac effaith y penderfyniad ar bobl â nodweddion gwahanol

**Perthnasedd** = Uchel/Isel/Dim **Effaith** = Uchel/Isel/Niwtral

| Nodwedd | Perthnasedd | Effaith |
|---|---|---|
| Oed | Uchel | Isel |
| Anabledd | Dim | Niwtral |
| Ailbennu rhywedd | Dim | Niwtral |
| Statws priodasol neu bartneriaeth sifil | Dim | Niwtral |
| Beichiogrwydd a mamolaeth | Dim | Niwtral |
| Hil | Dim | Niwtral |
| Crefydd neu gred | Dim | Niwtral |
| Rhyw | Dim | Niwtral |
| Cyfeiriadedd rhywiol | Dim | Niwtral |

| | | |
|---|---|---|
| Grwpiau eraill sydd ar wahân yn gymdeithasol (gan gynnwys anghydraddoldeb ar sail iechyd) | Dim | Niwtral |

**Os oes unrhyw effaith negyddol wedi'i nodi, amlinellwch y camau a wnaed i leihau hynny:**
Ystyrir nad yw’n debygol y bydd y cynnig yn cael effaith anghyfartal ar unrhyw nodweddion gwarchodedig.

**Rhowch gyngor ar y goblygiadau cydraddoldeb cyffredinol y dylid eu hystyried yn y penderfyniad terfynol, gan ystyried perthnasedd ac effaith:**

I gael ei gadarnhau ar ôl y broses ymgynghori.

**Llofnodwyd:**

Rheolwr Prosiect, Tîm Moderneiddio Ysgolion, Addysg a Chymorth i Deuluoedd

**Dyddiad:**

24 Ionawr 2022

## Atodiad B - Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

**Ysgol Gymraeg Bro Ogwr**

| | |
|---|---|
| **Cynnig:** | Ehangu arfaethedig Ysgol Gymraeg Bro Ogwr |
| **Adran:** | Tîm Moderneiddio Ysgolion - Cyfarwyddiaeth Addysg a Chymorth i Deuluoedd |
| **Swyddog Cwblhau:** | Rheolwr Rhaglen Ysgolion |
| **Dyddiad:** | 2 Chwefror 2022 |
| **Disgrifiad Byr:** | Y cynnig yw adleoli ac ehangu Ysgol Gymraeg Bro Ogwr i adeilad ysgol newydd o faint ar gyfer 2.5 dosbarth mynediad, gyda 90 o leoedd meithrin cyfwerth ag amser llawn a dosbarth asesu ac arsylwi 8 lle. |
| **Ar bwy mae'r cynnig hwn yn effeithio?** | Corff llywodraethu, staff, dysgwyr a rhieni/gofalwyr - Ysgol Gymraeg Bro Ogwr.<br><br>Disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) sydd angen darpariaeth arbenigol cyfrwng Cymraeg, eu rhieni/gofalwyr a'r gymuned anghenion dysgu ychwanegol ehangach.<br><br>Cymunedau Coety a Bracla.<br><br>Ysgolion cyfrwng Cymraeg eraill ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr<br>(h.y. cynradd ac uwchradd).<br><br>Ysgolion o fewn ardaloedd Porth y Cymoedd, Pen-y-bont ar Ogwr a Phencoed yn y fwrdeistref sirol.<br><br>Grwpiau rhanddeiliaid (ee Rhieni Dros Addysg Gymraeg (RHaG) Mudiad Meithrin, Fforwm y Gymraeg mewn Addysg) |
| **Beth yw nodau'r polisi a sut maen nhw'n ymwneud â'r Gymraeg?** | Ysgol gynradd gymunedol cyfrwng Cymraeg yn Ffordd y Dywysoges, Bracla, Pen-y-bont yw Ysgol Gymraeg Bro Ogwr. Fe'i hadeiladwyd yn 1994 ac mae wedi'i lleoli ar 2.7 erw o dir. Mae’r ysgol wedi’i hymestyn ers ei hadeiladu’n wreiddiol ac mae’n cynnwys dwy ystafell ddosbarth symudol dros dro y tu ôl i’r ysgol. Y nifer derbyn disgyblion presennol (PAN) yw 54. Mae rhai rhannau o'r ysgol yn orlawn ac mae’r adeilad wedi'i raddio fel cyflwr C.<br><br>Bwriad y cynnig yw symud yr ysgol i adeilad ysgol newydd ar gyfer yr 21ain Ganrif sy'n addas i'r pwrpas ar safle Ffordd Cadfan sydd wedi ei leoli 0.2 milltir o safle'r ysgol bresennol. Byddai gan yr ysgol newydd PAN o 75, gan greu cyfleoedd ychwanegol i fwy o ddysgwyr gael mynediad i addysg cyfrwng |

| | |
|---|---|
| | Cymraeg. Byddai'r capasiti presennol o 378 yn cynyddu i 525 ar gyfer dysgwyr 4-11 oed o dan y cynnig hwn.<br><br>Ar hyn o bryd, mae dysgwyr cyfrwng Cymraeg sydd ag anghenion dysgu ychwanegol sylweddol yn cael eu cefnogi gan dîm peripatetig arbenigol. Yn unol â gofynion Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (ALNET) 2018, rhaid i bob awdurdod lleol ddarparu darpariaeth ADY ddwyieithog. Gan mai'r nod yw cynyddu nifer y dysgwyr cyfrwng Cymraeg, cynigir dosbarth asesu ac arsylwi cyfrwng Cymraeg pwrpasol i gefnogi dysgwyr ag ADY.<br><br>Bydd adeilad yr ysgol yn amgylchedd dysgu modern, hyblyg y gellir ei addasu. Bydd ganddo neuadd a stiwdio fawr (h.y. ar gyfer gwasanaethau, addysg gorfforol a bwyta) a plaza/'stryd' dysgu amlbwrpas. Bydd ardaloedd mewnol ac allanol wedi'u cynllunio'n briodol at ddefnydd yr ysgol a'r gymuned. Darperir mannau awyr agored i gefnogi'r ystod lawn o weithgareddau'r cwricwlwm. Darperir gwell parcio i ymwelwyr, staff a chludiant i'r ysgol ar y safle. Bydd y cynnig hefyd yn cynnwys adolygiad o lwybrau diogel i'r ysgol, ac os oes angen, buddsoddiad mewn gwelliannau i seilwaith priffyrdd.<br><br>Bydd yr ysgol yn cael ei hariannu gan Raglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru ac adnoddau cyfalaf Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Byddai'r ysgol arfaethedig yn agor i ddisgyblion ym mis Medi 2025 ar dir oddi ar Ffordd Cadfan ym Mracla, Pen-y-bont ar Ogwr.<br><br>Wedi'i hadeiladu i Fwletin Adeiladu 99, byddai'r ysgol yn gwbl hygyrch ac yn cydymffurfio â'r holl Reoliadau Adeiladu perthnasol. |
| **Pwy fydd yn elwa / a allai'r polisi effeithio ar grwpiau Cymraeg?** | Dysgwyr yn Ysgol Gymraeg Bro Ogwr<br>Dysgwyr cyfrwng Cymraeg sydd ag anghenion dysgu ychwanegol sylweddol.<br>Rhieni/gofalwyr disgyblion sy'n mynychu Ysgol Gymraeg Bro Ogwr.<br>Staff yn Ysgol Gymraeg Bro Ogwr<br>Y cymunedau yng nghyffiniau'r ysgol.<br><br>Dylai fod effaith gadarnhaol ar grwpiau Cymraeg gan y bydd yr adeilad newydd yn hygyrch i'r gymuned leol. Gallai hyn gynnwys dosbarthiadau Cymraeg i oedolion, cyfarfodydd grwpiau Cymraeg ac ati. |

**Proffil ieithyddol presennol yr ardal(oedd) daearyddol:**

Nododd Cyfrifiad 2011, o’r 134,545 o drigolion sy’n byw ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, fod 9.7% (13,103) yn gallu siarad Cymraeg, tra nad oedd y 90.3% arall (121,442) yn gallu siarad Cymraeg. Gellir cymharu hyn â ffigurau Cymru gyfan a ddangosodd o’r 2,955,841 o drigolion sy’n byw yng Nghymru, roedd 19.0% (562,016) yn gallu siarad Cymraeg, tra nad oedd yr 81.0% arall (2,393,825) yn gallu siarad Cymraeg.

Mae'r tabl sy'n dilyn yn dangos sgiliau Cymraeg trigolion sy'n byw ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr o'i gymharu â ffigur Cymru gyfan, ac fe'i ceir o Gyfrifiad 2011:
https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Welsh-Language/Census-Welsh-Language/welshspeakers-by-localauthority-gender-detailedagegroups-2011census

| | Pen-y-bont | Cymru Gyfan |
|---|---|---|
| Yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg | 7.3 | 14.6% |
| Yn gallu siarad a darllen ond methu ysgrifennu Cymraeg | 0.9% | 1.5% |
| Yn gallu siarad ond methu darllen nac ysgrifennu Cymraeg | 1.5% | 2.7% |
| Yn gallu deall Cymraeg llafar yn unig | 4.1% | 5.3% |
| Cyfuniad arall o sgiliau | 3.6% | 2.5% |
| Dim sgiliau | 82.7% | 73.3% |
| Cyfanswm | 100% | 100% |

Mae'r data'n dangos bod sgiliau Cymraeg trigolion ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn is na lefel sgiliau iaith Gymraeg Cymru Gyfan.

Yn ôl yr Arolwg Blynyddol o’r Boblogaeth ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2021, dywedodd 17.8% o ymatebwyr sy’n byw ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr eu bod yn gallu siarad Cymraeg, o gymharu â chanran Cymru gyfan o 29.2% o ymatebwyr. Gellir rhannu hyn ymhellach â'r data a geir yn y tabl sy'n dilyn.

| Sgiliau Iaith Gymraeg Trigolion (%) | | |
|---|---|---|
| | Bwrdeistref Sirol Pen-Y-Bont ar Ogwr | Cymru |
| Yn gallu darllen Cymraeg | 16.9% | 25.9% |
| Yn gallu ysgrifennu Cymraeg | 15.9% | 23.8% |
| Yn gallu deall Cymraeg llafar | 21.2% | 33.7% |

Mae’r data’n dangos bod bwlch yn sgiliau iaith Gymraeg trigolion Pen-y-bont ar Ogwr o gymharu â Chymru gyfan.

| Sgiliau Iaith Gymraeg Trigolion (%) | | |
|---|---|---|
| | Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr | Cymru |
| Yn siarad Cymraeg bob dydd | 6.3% | 15.2% |
| Yn siarad Cymraeg bob wythnos | 3.1% | 5.2% |
| Ei defnyddio’n llai aml neu byth | 6.9% | 7.3% |

Mae’r data’n dangos, o ran yr iaith lafar, fod % trigolion Pen-y-bont ar Ogwr o gymharu â Chymru gyfan sy’n defnyddio’r Gymraeg yn sylweddol is.

Mae’r data’n dangos yn glir bod amrywiaeth yn sgiliau iaith Gymraeg trigolion Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr o gymharu â data Cymru gyfan.

Rhagwelir y byddai’r cynnig hwn yn gwella cyfleoedd addysgu a dysgu yn sylweddol ac mae’n debygol y bydd y nifer sy’n manteisio ar addysg cyfrwng Cymraeg yn yr ardal yn cynyddu o ganlyniad i ddarparu adeilad ysgol ar gyfer yr 21ain Ganrif, a thrwy hynny gefnogi targedau Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) yr awdurdod lleol, hyrwyddo’r Gymraeg a chynyddu nifer y dysgwyr meithrin sy’n trosglwyddo i addysg gynradd cyfrwng Cymraeg.

Nid yw Ysgol Gymraeg Bro Ogwr yn cael ei defnyddio ar hyn o bryd ar gyfer gweithgareddau cymunedol yn ystod yr wythnos. Fodd bynnag, mae sefydliadau fel Menter Bro Ogwr a'r Urdd yn rhedeg clybiau gwyliau yn ystod cyfnodau o wyliau'r ysgol. Mae'r ysgol yn gweithredu clwb brecwast am ddim ac mae Menter Bro Ogwr yn rhedeg clwb ar ôl ysgol i ddysgwyr. Cynigir clybiau all-gyrsiol ar ôl ysgol yn ystod yr wythnos o ddydd Llun i ddydd Iau.

| | |
|---|---|
| | Mae Menter Bro Ogwr wedi rhedeg cyrsiau Cymraeg i oedolion i rieni yn y gorffennol ac mae'r ysgol ar hyn o bryd yn edrych ar sefydlu grŵp Rhieni a Phlant Bach.<br><br>Mae Ysgol Gymraeg Bro Ogwr wedi'i chategoreiddio fel ysgol "werdd" gyda safonau rhagorol yn cael eu cyflawni ar ddiwedd y cyfnod sylfaen a Chyfnod Allweddol 2. Nid oes data na ffigurau cyfredol ar gyfer hyn ar gael gan nad yw data cenedlaethol wedi'i gasglu ers dwy flynedd. |
| **A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral?** | Cadarnhaol |
| **Disgrifiwch pam y bydd yn cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg.** | Byddai'r cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar y defnydd o'r Gymraeg gan y byddai mwy o leoedd disgyblion ar gael i ddysgwyr sydd am gael addysg cyfrwng Cymraeg.<br><br>Bydd y cyfleusterau'n rhoi cyfle i gyrsiau Cymraeg gael eu cynnig i rieni/gofalwyr.<br><br>Byddai'r ysgol arfaethedig yn rhoi cyfle i ddysgwyr sydd am gael addysg cyfrwng Cymraeg drosglwyddo o ysgol cyfrwng Saesneg.<br><br>Byddai'r addysg cyfrwng Cymraeg ragorol a ddarperir gan Ysgol Gymraeg Bro Ogwr yn cael ei gwella ymhellach drwy ddarparu cyfleusterau addas i'r diben newydd.<br><br>Mae cynyddu lleoedd cyfrwng Cymraeg yn cefnogi CSCA yr awdurdod lleol ac agenda Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru. |
| **Pa dystiolaeth sydd gennych i gefnogi'r farn hon?** | Ar hyn o bryd, mae gan Ysgol Gymraeg Bro Ogwr 378 o leoedd ar gyfer dysgwyr 4-11 oed a 55 o leoedd meithrin. Mae'r ysgol yn denu mwy o geisiadau nag y gall ei gymryd yn aml. Bydd maint yr ysgol newydd ar gyfer 525 o leoedd i ddysgwyr 4-11 oed, gyda 90 o leoedd meithrin cyfwerth ag amser llawn. Yn ogystal, bydd dosbarth asesu ac arsylwi 8 lle. |
| **Pa gamau y gallwch eu cymryd i gyfrannu'n well at effeithiau cadarnhaol?** | Hyrwyddo'r Gymraeg drwy weithgareddau ymgysylltu cynnar â rhieni/gofalwyr.<br><br>Cyfeirio rhieni/gofalwyr at ddosbarthiadau/cyrsiau Cymraeg gan yr ysgol.<br><br>Ar hyn o bryd nid oes gan yr awdurdod lleol ganolfan drochi Gymraeg. Fodd bynnag, darperir cyllid i gefnogi dysgwyr wrth |

| | |
|---|---|
| | drosglwyddo o ysgolion cyfrwng Saesneg i ysgolion cyfrwng Cymraeg. Gellid hyrwyddo'r cyfle hwn.<br><br>Datblygiad proffesiynol parhaus staff yr ysgol a rhannu arfer gorau.<br><br>Datblygu sesiwn Ti a Fi o ansawdd uchel ym Mracla a fydd yn cynnig cyfle i rieni brofi manteision niferus profiadau blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg i'w plentyn a'u hunain. |
| **Cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg.** | Cynyddu cyfranogiad yn y Gymraeg drwy gynnig y cyfle i rieni/gofalwyr ac aelodau eraill o'r gymuned fynychu dosbarthiadau Cymraeg a/neu gyfleoedd eraill i ymgysylltu â'r gymuned drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ogystal, byddant yn cael eu hannog i gyfeirio rhieni/gofalwyr at ddosbarthiadau Cymraeg.<br><br>Gellid defnyddio cyfleusterau'r ysgol ar gyfer gweithgareddau Cymraeg a fydd yn cynyddu cyfranogiad. Mae cyfle i greu partneriaeth gydag asiantaethau gan gynnwys 'Cymraeg i Oedolion', 'Menter Bro Ogwr' a Choleg Pen-y-bont ar Ogwr er mwyn i aelodau'r gymuned ddysgu Cymraeg ac ymgymryd â gweithgareddau trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ogystal, mae cyrsiau Cymraeg yn cael eu cynnig gan Dysgu Cymraeg Morgannwg sy'n cyflwyno cyrsiau ar-lein ac yn lleol ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf ar ran y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Maent hefyd yn cynnig ystod o gyrsiau blasu ar-lein y gall unrhyw un gael mynediad iddynt ac yn cynnig sesiynau Sadwrn Siarad o bryd i'w gilydd.<br><br>Mae gweithgareddau trwy gyfrwng y Gymraeg yn cael eu cynnig yn bennaf gan Fenter Bro Ogwr er bod Partneriaeth Dysgu Pen-y-bont ar Ogwr hefyd yn anelu at gynnig gweithgareddau dysgu lle gallant wneud hynny, a lle mae gweithgareddau'n profi'n hyfyw o ran niferoedd.<br><br>Bydd dysgwyr yn cael cyfle i ymgymryd â gweithgareddau allgyrsiol drwy gyfrwng y Gymraeg. |
| **Cyfleoedd i hybu'r Gymraeg.** | Gallai'r ysgol ganiatáu i'r gymuned ddefnyddio cyfleusterau ar gyfer dosbarthiadau Cymraeg/gweithgareddau a gyflwynir drwy gyfrwng y Gymraeg, a thrwy hynny hyrwyddo'r Gymraeg.<br><br>Bydd yr ysgol wedi'i chynllunio gyda defnydd cymunedol mewn golwg. Bydd yn gwbl hygyrch ac yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010. Efallai y bydd cyfleoedd i gynnal gweithgareddau cymunedol yn ystod oriau ysgol.<br><br>Mae gan yr ysgol gysylltiadau â'r Urdd a gallai ddatblygu cysylltiadau ymhellach â grwpiau chwaraeon cyfrwng Cymraeg. |

| | |
|---|---|
| | O ystyried ei lleoliad canolog ym Mhen-y-bont ar Ogwr, bydd yr ysgol yn hygyrch iawn i'r gymuned gyfagos ac ehangach.<br><br>Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i hyrwyddo'r Gymraeg, cynyddu nifer yr ysgolion Cymraeg a nifer y lleoedd i ddysgwyr, fel y nodir yn y Cynllun. |
| **Cydymffurfio â Safonau Cymraeg y Cyngor.** | Bydd trefniadau a phrosesau cytundebol ar gyfer cyflawni'r prosiect yn cael eu cynnal fel eu bod yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg. Bydd cyfarfodydd ymgynghori'n ddwyieithog a rhoddir gwybod i'r contractwr am y gofyniad hwn a gofynnir iddynt hefyd fabwysiadu'r dull hwn o ran cyflwyno unrhyw sesiynau ymgysylltu â rhanddeiliaid. Bydd yr holl arwyddion yn ystod ac ar ôl adeiladu yn ddwyieithog. |

| **Adolygiad – Sylwadau'r Ymgynghoriad** | **Dyddiad:** |
|---|---|
| | |

**Monitro, Gwerthuso ac Adolygu**

Os bydd y cynnig yn mynd rhagddo, bydd y prosiect yn cael ei adolygu'n rheolaidd yn ystod y broses o ddylunio, cyflwyno ac ar ôl symud i mewn gan Reolwr y Prosiect – Tîm Moderneiddio Ysgolion.

**Crynodeb**

Y cynnig yw darparu ysgol bwrpasol newydd ar gyfer yr 21ain Ganrif i Ysgol Gymraeg Bro Ogwr ar safle yn Ffordd Cadfan, Bracla, Pen-y-bont ar Ogwr. Bydd yr ysgol newydd yn un 2.5 dosbarth derbyn y flwyddyn (hy 525 o leoedd i ddysgwyr) ar gyfer dysgwyr 4-11 oed, gyda 90 o leoedd meithrin cyfwerth ag amser llawn ynghyd â dosbarth arsylwi ac asesu 8 lle. Byddai'r ysgol yn agor ym mis Medi 2025.

Ystyrir y byddai’r cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg:

- Darperir lleoedd ychwanegol ar gyfer dysgwyr cyfrwng Cymraeg.
- Bydd yr ysgol wedi'i chynllunio i gyflwyno’r Cwricwlwm newydd i Gymru.

- Gellid defnyddio cyfleusterau’r ysgol ar gyfer defnydd cymunedol/dosbarthiadau oedolion trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Mae’r safle wedi’i leoli’n ganolog i annog defnydd gan y gymuned gyfagos ac ehangach sydd am gael cyfle i gymryd rhan mewn dosbarthiadau/cyrsiau Cymraeg y gellid eu cynnig.
- Bydd yr ysgol yn gwbl hygyrch.
- Gellid cynnig cyfleoedd pontio o gyfrwng  Saesneg i gyfrwng Cymraeg.
- Byddai'r addysg cyfrwng Cymraeg ardderchog a gaiff dysgwyr sy'n mynychu Ysgol Gymraeg Bro Ogwr yn parhau ac yn cael ei wella ymhellach trwy ddarparu cyfleusterau newydd.

## Atodiad C - Ffurflen Sgrinio Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (AEA)

# Ffurflen Sgrinio Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (AEA)

Mae'r ddogfen hon yn adnodd amlbwrpas sy'n sicrhau bod y camau priodol yn cael eu cymryd i gydymffurfio â deddfwriaeth Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus ac i ddangos ein bod wedi rhoi'r sylw dyledus i'r angen i leihau anghydraddoldebau canlyniadau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol wrth wneud penderfyniadau strategol o dan y Ddyletswydd Economaidd–Gymdeithasol. Mae hefyd yn sicrhau bod Safonau'r Gymraeg yn cael eu hystyried.
Cliciwch yma i gael rhagor o wybodaeth ac arweiniad i'ch helpu i gwblhau'r AEA hwn.

- **Dylid cynnal yr asesiad hwn pan fyddwch yn ffurfio eich polisi neu gynnig. Bydd unrhyw effaith negyddol a nodwyd yn eich cynorthwyo i ddyfeisio strategaethau ymgysylltu er mwyn casglu rhagor o dystiolaeth.**
- **Os byddwch yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus llawn fel rhan o'ch polisi neu gynnig, dylid llenwi'r ffurflen hon cyn i'r ymgynghoriad ddechrau a'i ddefnyddio fel adnodd i lywio eich cwestiynau ymgynghori a'ch gweithgareddau ymgysylltu.**
- **Mae angen ymateb i bob adran a phob cwestiwn ac ni ddylid eu gadael yn wag hyd yn oed os ydynt yn 'amherthnasol' neu'n 'destun ymgynghoriad pellach'.**

| | |
|---|---|
| Enw'r prosiect, polisi, swyddogaeth, gwasanaeth neu gynnig sy'n cael ei asesu: | Gogledd-ddwyrain Pen-y-bont ar Ogwr – adeilad newydd i Ysgol Gymraeg (YG) Bro Ogwr |
| Disgrifiad byr a nod polisi neu gynnig: | Cynnig i wneud newid rheoledig i ehangu Ysgol Gymraeg Bro Ogwr yn ysgol 2.5 dosbarth mynediad (FE), gyda meithrinfa â 90 lle cyfwerth ag amser llawn ynghyd â dosbarth arsylwi ac asesu 8 lle ar dir oddi ar Ffordd Cadfan, i ddigwydd o ddechrau tymor yr hydref 2025 |
| Pwy sy'n gyfrifol am gyflawni'r polisi neu'r cynnig? | Cyfarwyddwr – Addysg a Chymorth i Deuluoedd |
| Dyddiad cwblhau sgrinio AEA: | 10/06/21 |

| | |
|---|---|
| A yw'r polisi neu'r cynnig hwn yn ymwneud ag unrhyw bolisïau eraill? (nodwch os gwelwch yn dda) | • Rhaglen Moderneiddio ysgolion<br>• Rhaglen Dechrau'n Deg<br>• Cynnig Gofal Plant Llywodraeth Cymru<br>• Maint Dosbarthiadau Babanod<br>• Anghenion Dysgu Ychwanegol<br>• Gwasanaethau Cyhoeddus Pen-ybont ar Ogwr – Cynllun Llesiant<br>• Cynllun Corfforaethol 2018-2022<br>• Strategaeth Ariannol Tymor Canolig<br>• Strategaeth Symud Cymru Ymlaen 2018-2021<br>• Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015<br>• Addysg yng Nghymru: Ein cenhadaeth genedlaethol - cynllun gweithredu 2017-2021<br>• Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr - Cynllun Datblygu Lleol (CDLl)<br>• Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr - Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg<br>• Cymraeg 2050: strategaeth y Gymraeg |
| Pwy sy'n cael eu heffeithio gan y polisi hwn (e.e. Staff, preswylwyr, pobl anabl, menywod yn unig?) | Dysgwyr, rhieni a staff |
| A yw'r polisi'n gysylltiedig â, yn cael ei ddylanwadu gan, neu'n effeithio ar bolisïau neu feysydd gwaith eraill (mewnol neu allanol)? *Noder: Ystyriwch hyn o ran gofynion statudol, polisïau lleol, penderfyniadau rhanbarthol (partneriaeth), polisïau cenedlaethol, diwygiadau lles.* | • Rhaglen Dechrau'n Deg<br>• Cynnig Gofal Plant Llywodraeth Cymru<br>• Maint Dosbarthiadau Babanod<br>• Anghenion Dysgu Ychwanegol<br>• Gwasanaethau Cyhoeddus Pen-ybont ar Ogwr – Cynllun Llesiant<br>• Cynllun Corfforaethol 2018-2022<br>• Strategaeth Ariannol Tymor Canolig<br>• Strategaeth Symud Cymru Ymlaen 2018-2021<br>• Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015<br>• Addysg yng Nghymru: Ein cenhadaeth genedlaethol - cynllun gweithredu 2017-2021 |

| | |
|---|---|
| | • Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr - Cynllun Datblygu Lleol (CDLl)<br>• Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr - Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg<br>• Cymraeg 2050: strategaeth y Gymraeg |
| Os yw hwn yn adolygiad neu'n ddiwygiad o bolisi sy'n bodoli eisoes, a oes AEA wedi'i gynnal? Dylech gynnwys y dyddiad cwblhau: | Amh. |
| Os oes AEA yn bodoli, pa ddata newydd sydd wedi'i gasglu ers ei gwblhau? | Amh. |

## Asesiad o Effaith

**Nodweddion gwarchodedig**
A yw'n bosibl y bydd unrhyw agwedd o'r polisi neu'r cynnig yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl o wahanol grwpiau mewn gwahanol ffyrdd?

***Noder: Os byddwch yn nodi effaith negyddol ar unrhyw un o'r nodweddion gwarchodedig, bydd angen i chi gasglu tystiolaeth bellach i gwblhau AEA llawn.**

| | **Rhowch X yn y blwch perthnasol** | | | **Esboniad o'r effaith** |
|---|---|---|---|---|
| | **Effaith(effeithiau) cadarnhaol** | **Effaith(effeithiau) negyddol** | **Dim effaith** | |
| Rhywedd | X | | | Bydd dyluniad yr adeiladau yn darparu ar gyfer defnyddwyr niwtral o ran rhywedd |
| Anabledd | | | X | |
| Hil | | | X | |
| Crefydd a chred | | | X | |
| Cyfeiriadedd Rhywiol | | | X | |
| Oed | X | | | Sicrhau gwell amgylchedd ysgol i ddysgwyr |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Beichiogrwydd a Mamolaeth | | | X | |
| Person trawsryweddol | | | X | |
| Statws briodasol neu bartneriaeth sifil | | | X | |

**Effaith Economaidd-Gymdeithasol**

A yw’n bosibl y bydd unrhyw agwedd o’r polisi neu’r cynnig yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl neu gymunedau sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol? ***Noder: Os byddwch yn nodi effaith economaidd-gymdeithasol negyddol, bydd angen i chi gasglu tystiolaeth bellach i gwblhau AEA llawn.**

| | **Rhowch X yn y blwch perthnasol** | | | **Esboniad o'r effaith** |
|---|---|---|---|---|
| | **Effaith(effeithiau) cadarnhaol** | **Effaith(effeithiau) negyddol** | **Dim effaith** | |
| Anfantais economaidd-gymdeithasol | X | | | Gwell cyfleusterau i ddysgwyr sy’n byw gydag anfantais economaidd-gymdeithasol sy’n mynychu. Potensial o ddarpariaeth gofleidiol, sydd o bosibl yn galluogi rhieni i chwilio am waith neu hyfforddiant |

**Y Gymraeg**

A yw’n bosibl y bydd unrhyw agwedd o’r polisi neu’r cynnig yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar allu pobl i ddefnyddio’r Gymraeg ac o ran trin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg?

***Noder: Os byddwch yn nodi effaith negyddol ar allu pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac o ran trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, bydd angen i chi gasglu tystiolaeth bellach i gwblhau AEA llawn.**

| | **Rhowch X yn y blwch perthnasol** | | | **Esboniad o'r effaith** |
|---|---|---|---|---|
| | **Effaith(effeithiau) cadarnhaol** | **Effaith(effeithiau) negyddol** | **Dim effaith** | |
| A fydd y polisi neu’r cynnig yn effeithio ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio’r Gymraeg | X | | | Bydd cynnydd yn nifer y lleoedd ar gael mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg gydag ehangu YG Bro Ogwr fel rhan |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | o'r cynnig. Defnydd posibl o'r ysgol ar gyfer grwpiau cymunedol Cymraeg, e.e. Ti a Fi, dosbarthiadau Cymraeg i oedolion |
| A fydd y polisi neu'r cynnig yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg | **X** | | | Bydd cynnydd yn nifer y lleoedd ar gael mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg gydag ehangu YG Bro Ogwr fel rhan o'r cynnig. Defnydd posibl o'r ysgol ar gyfer grwpiau cymunedol Cymraeg, e.e. Ti a Fi, dosbarthiadau Cymraeg i oedolion |

**Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus**

Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn cynnwys dyletswydd cydraddoldeb gyffredinol a dyletswyddau penodol sy'n helpu awdurdodau i gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol.

Nod y ddyletswydd cydraddoldeb gyffredinol yw integreiddio ystyriaethau o'r gwaith hyrwyddo cydraddoldeb ym materion dydd i ddydd awdurdodau cyhoeddus. I grynhoi, mae'n rhaid i'r rhai sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd cydraddoldeb, wrth arfer eu swyddogaethau, roi sylw dyledus i'r angen i:

- Ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth, ac ymddygiad arall a waherddir gan y Ddeddf.
- Hyrwyddo cyfle cyfartal ymysg pobl sy'n rhannu nodweddion a'r rhai nad ydynt
- Meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion a'r rhai nad ydynt

**Sut mae'r polisi neu'r cynnig yn dangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i'r ddyletswydd cydraddoldeb gyffredinol?**

| |
|---|
| Byddai'r cynllun yn cael ei ddatblygu i sicrhau nad oes unrhyw effaith negyddol ar unrhyw grŵp gwarchodedig. |

**Caffael a phartneriaethau**

Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (DCSC) yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod cyhoeddus ystyried anghenion nodweddion gwarchodedig wrth ddylunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys lle gwneir hyn mewn partneriaeth â sefydliadau eraill neu drwy gaffael gwasanaethau. Mae Safonau'r Gymraeg hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod cyhoeddus ystyried effeithiau unrhyw benderfyniad polisi, neu newid yn y modd y darperir gwasanaethau, ar yr iaith Gymraeg, gan gynnwys unrhyw waith a wneir mewn partneriaeth â neu gan drydydd parti. Rhaid inni hefyd sicrhau ein bod yn ystyried y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol wrth gynllunio penderfyniadau caffael a chomisiynu mawr gan ystyried sut y gall trefniadau o'r fath leihau anghydraddoldebau canlyniad a achosir gan anfantais economaidd-gymdeithasol.

**A fydd y polisi neu'r cynnig hwn yn cael ei gyflawni'n gyfan gwbl neu'n rhannol gan gontractwyr neu bartneriaid?**

| | **Rhowch X yn y blwch perthnasol:** |
|---|---|
| Bydd | X (rhannol) |
| Na fydd | |

Os bydd, pa gamau y byddwch yn eu cymryd i gydymffurfio â'r Ddyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol, Deddfwriaeth y Gymraeg a'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol o ran caffael a/neu bartneriaethau?

| | **Camau a gymerwyd i sicrhau cydymffurfiaeth:** |
|---|---|
| Dyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol | Mae dogfennau caffael a chontractau cadarn yn cynnwys rhoi sylw dyledus i hyn |
| Deddfwriaeth y Gymraeg | Mae dogfennau caffael a chontractau cadarn yn cynnwys rhoi sylw dyledus i hyn |
| Dyletswydd economaidd-gymdeithasol | Mae dogfennau caffael a chontractau cadarn yn cynnwys rhoi sylw dyledus i hyn |

**Beth ydych chi wedi penderfynu ei wneud?**

Cofnod o'r penderfyniad yn seiliedig ar asesu effaith ar nodweddion gwarchodedig, effaith economaidd-gymdeithasol a'r iaith Gymraeg. Rhowch X yn y blwch perthnasol.

**Os byddwch yn nodi effaith negyddol ar un, rhai neu pob nodwedd warchodedig, dyletswyddau economaidd-gymdeithasol neu'r iaith Gymraeg, bydd yn RHAID i chi gwblhau AEA llawn.**

| **Effaith a nodwyd** | **Camau nesaf:** | **Rhowch X yn y blwch perthnasol:** |
|---|---|---|
| Ni nodwyd yr un effaith negyddol | Rhoi o'r neilltu: parhau â'r polisi neu'r cynnig | **X** |

| | | |
|---|---|---|
| Nodwyd un effaith negyddol neu fwy | Cwblhau AEA llawn i gasglu mwy o dystiolaeth am effeithiau negyddol posibl | |

| **Esboniwch y rhesymau dros y penderfyniad hwn. Os ydych wedi 'rhoi o'r neilltu' mae'n rhaid i chi gynnwys gwybodaeth a thystiolaeth i gyfiawnhau eich penderfyniad.** |
|---|
| Nodwyd nad yw'r cynnig yn debygol o gael effaith negyddol ar unrhyw grŵp gwarchodedig. Nodwyd effeithiau cadarnhaol, gan gynnwys y Gymraeg, rhywedd ac oedran fel ag a nodir yn y tabl uchod. Gan na nodwyd unrhyw effeithiau negyddol, ni fydd angen cynnal asesiad llawn o'r effaith ar gydraddoldeb. |

**Cymeradwyaeth:**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad cwblhau sgrinio AEA:** | **10/06/21** |
| **Cymeradwywyd gan (Pennaeth Gwasanaeth):** | |
| **Dyddiad cymeradwyaeth gan HoS:** | |

| | |
|---|---|
| **Os yw'r sgrinio hwn wedi nodi bod angen AEA llawn, pwy fydd yn cynnal yr AEA llawn?** | Amh. |
| **Os yw'r sgrinio hwn wedi nodi bod angen AEA llawn, erbyn pryd y bydd yr AEA llawn wedi cael ei gwblhau (Dyddiad):** | Amh. |

# Atodiad 1 – Adroddiadau Estyn

## Adroddiad Estyn- Ysgol Gymraeg Bro Ogwr

Adroddiad ar Ysgol Gymraeg Bro Ogwr

Mehefin 2017

**Crynodeb**

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

**Perfformiad presennol**

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu
- bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n hapus ac yn ddiogel yn yr ysgol, ac yn gwybod at bwy i droi os bydd angen cymorth neu gefnogaeth arnynt
- y staff yn darparu profiadau dysgu cynhwysfawr i'w disgyblion, sy'n ennyn eu diddordeb ac yn eu hysgogi'n dda
- y staff yn cymhwyso gofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn fwriadus i'w cynlluniau gwaith er mwyn galluogi rhan fwyaf y disgyblion i wneud cynnydd da yn eu medrau llythrennedd a rhifedd dros gyfnod
- y ddarpariaeth ar gyfer yr iaith Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig yn effeithiol
- ansawdd yr addysgu yn effeithiol mewn llawer o ddosbarthiadau
- y gymuned yn un ofalgar lle mae blaenoriaeth amlwg i les ei disgyblion, gyda phob un yn dangos parch a gofal am ei gilydd
- yr ethos yn un cartrefol a chynhwysol

**Rhagolygon gwella**

Mae rhagolygon gwella yn dda oherwydd bod:

- y pennaeth dros dro, gyda chefnogaeth a chyfraniad gwerthfawr yr uwch dîm rheoli, yn gosod cyfeiriad strategol pwrpasol ar gyfer datblygiad yr ysgol
- arweinwyr yn arfarnu ansawdd gwaith yr ysgol yn systematig trwy weithredu cylch o weithgareddau monitro effeithiol sydd wedi eu cynllunio'n dda
- bod cynllun datblygu'r ysgol yn gynhwysfawr ac yn nodi nifer o dargedau gwella perthnasol
- yr ysgol yn gweithio'n llwyddiannus gydag amrywiaeth o bartneriaid mewn ffordd sy'n cael effaith gadarnhaol ar safonau a lles disgyblion ac sy'n ehangu eu profiadau dysgu yn dda

- yr ysgol wedi ei staffio'n effeithiol ac mae'n gwneud defnydd llwyddiannus o arbenigedd unigolion i gyfoethogi'r addysgu a'r dysgu
- y staff cynorthwyol yn rhan annatod o'r tîm ac yn cyfrannu'n sylweddol at lwyddiant y dysgu
- yr ysgol yn cynnig gwerth da am arian

**Argymhellion**

A1 Ymateb i'r materion iechyd a diogelwch a godwyd yn ystod yr arolwg

A2 Gwella medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) disgyblion

A3 Gwella gallu disgyblion i weithio'n annibynnol a chymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain

A4 Rhannu arferion gorau y Cyfnod Sylfaen ar draws y cyfnod

A5 Datblygu rôl strategol y llywodraethwyr i'w galluogi i herio'r ysgol yn effeithiol ynghylch ei pherfformiad

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Adroddiad Estyn - Ysgol Gynradd yr Archddiacon John Lewis yr Eglwys yng Nghymru

Adroddiad ar Ysgol yr Archddiacon John Lewis

Ionawr 2017

**Crynodeb**

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Digonol** |

**Perfformiad presennol**

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- Rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da o ran gwella eu medrau llythrennedd a rhifedd
- Safonau darllen a llafaredd yn dda
- Safonau'r Gymraeg yn dda ar y cyfan
- Rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn dda mewn pynciau eraill
- Rhan fwyaf y disgyblion yn ymddwyn yn dda
- Presenoldeb yn gwella
- Athrawon yn cynllunio profiadau dysgu ysgogol
- Y ddarpariaeth ar gyfer y rhan fwyaf o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn dda
- Yr ysgol yn amgylchedd diogel a gofalgar

**Rhagolygon gwella**

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn ddigonol oherwydd bod:

- Y pennaeth yn rhoi blaenoriaeth i bennu safonau uchel o ran cyflawniad a lles
- Gweithdrefnau i reoli perfformiad staff yn effeithiol
- Arweinwyr yn dadansoddi data'n drylwyr i nodi meysydd i'w gwella yn y safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni
- Cynllun gwella'r ysgol yn ddogfen wedi'i hysgrifennu'n dda sy'n nodi blaenoriaethau ysgolion ar gyfer gwella'n briodol
- Gan yr ysgol bartneriaethau cryf a buddiol gydag ysgolion eraill
- Partneriaethau â rhieni yn gryf
- Yr ysgol yn rheoli ystod eang o adnoddau'n effeithiol i ddiwallu anghenion a diddordebau disgyblion
- Arweinwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn dda

Fodd bynnag:

- Nid yw arweinwyr yn darparu arweinyddiaeth strategol ddigon effeithiol
- Nid yw uwch arweinwyr yn dosbarthu cyfrifoldebau'n ddigon da i gefnogi anghenion penodol yr ysgol
- Nid yw'r corff llywodraethu yn herio'r ysgol yn ddigon da nac yn sicrhau bod gan yr ysgol y polisïau diweddaraf ac yn bodloni'r holl ofynion statudol
- Nid yw gweithgareddau hunanarfarnu yn cael eu datblygu na'u gweithredu'n ddigon trylwyr i nodi'r holl wendidau mewn dysgu ac addysgu
- Ni ddefnyddir grantiau i wella deilliannau ar gyfer pob disgybl sy'n agored i niwed, yn enwedig y
- rhai mwy abl

**Argymhellion**

A1 Cynyddu cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio eu medrau rhifedd mewn pynciau eraill

A2 Sicrhau bod pob athro yn cynllunio gweithgareddau i ddiwallu anghenion pob dysgwr, yn enwedig y rhai mwy abl

A3 Gwella trefniadau asesu gan gynnwys defnyddio strategaethau asesu ar gyfer dysgu a chymedroli asesiadau diwedd cyfnod

A4 Gwella'r defnydd o'r amgylchedd awyr agored i gefnogi dysgu yn y Cyfnod Sylfaen

A5 Sicrhau bod arweinwyr ar bob lefel yn deall ac yn cyflawni eu rôl fel arweinwyr strategol

A6 Gwella trylwyredd ac ystod y gweithgareddau hunanarfarnu i fonitro safonau a darpariaeth yn fwy trylwyr

**Beth sy’n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion. Bydd Estyn yn adolygu cynnydd yr ysgol.

## Adroddiad Estyn - Ysgol Gynradd Bracla

Adroddiad ar Ysgol Gynradd Bracla

Mehefin 2016

**Crynodeb**

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

**Perfformiad presennol**

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- Bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da ac yn ddysgwyr brwdfrydig
- Yr ysgol yn darparu amgylchedd pwrpasol, gofalgar i ddisgyblion
- Safonau'r lles yn dda iawn
- Athrawon yn darparu cwricwlwm ysgogol ac amrywiol i ddisgyblion
- Rhan fwyaf o'r addysgu'n dda
- Adeilad yr ysgol yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda ac mae'n cefnogi dysgu disgyblion yn dda
- Darpariaeth awyr agored yr ysgol yn dda ac yn rhoi amrywiaeth o gyfleoedd cyffrous i ddisgyblion ddysgu Rhagolygon ar gyfer gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd bod:

- Y pennaeth yn darparu arweinyddiaeth effeithiol, sy'n canolbwyntio'n bwrpasol ar godi safonau
- Mae gan arweinwyr ddisgwyliadau uchel o ddysgwyr a staff
- Llywodraethwyr yn herio'r ysgol i wella'n effeithiol
- Mae gan yr ysgol brosesau hunanarfarnu cadarn a chynhyrchiol iawn
- Mae arweinwyr yn defnyddio data perfformiad yn dda i olrhain cynnydd disgyblion
- Mae ganddi hanes da o wneud gwelliannau
- Mae partneriaethau strategol effeithiol iawn, yn enwedig gyda rhieni
- Mae arweinwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn dda i gefnogi gwelliannau

### Argymhellion

A1 Gwella safonau ysgrifennu Cymraeg yng nghyfnod allweddol 2

A2 Gwella'r ddarpariaeth ar gyfer rhifedd ar draws y cwricwlwm

A3 Cynyddu cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio medrau Cymraeg y tu allan i wersi Cymraeg

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig, gan ddisgrifio'r arfer ragorol a welwyd yn ystod yr arolygiad.

## Adroddiad Estyn - Ysgol Gynradd Bryncethin

Adroddiad ar Ysgol Gynradd Bryncethin

Gorffennaf 2018

### Crynodeb

Mae Ysgol Gynradd Bryncethin yn gynhwysol iawn ac mae'n darparu amgylchedd dysgu diogel, croesawgar ac ysgogol i'w holl ddisgyblion. Mae bron pob un o'r disgyblion yn mwynhau dod i'r ysgol ac maen nhw'n gwneud cynnydd da ac yn cyflawni'n dda.

Mae athrawon yn meithrin hinsawdd gadarnhaol ar gyfer dysgu ac yn rhoi gweithgareddau diddorol i ddisgyblion sy'n ennyn eu diddordeb yn dda. Mae mewnbwn y disgyblion i sut a beth maent yn ei ddysgu yn agwedd gref ar waith yr ysgol. Mae safonau ymddygiad a hunanddisgyblaeth bron pob disgybl mewn gwersi ac o amgylch yr ysgol yn uchel.

Mae arweinwyr ysgol yn darparu arweinyddiaeth effeithiol a chyfeiriad strategol clir i waith yr ysgol. Mae diwylliant o welliant yn treiddio drwy'r ysgol ac mae'r pennaeth yn annog y staff i ymchwilio ac i roi cynnig ar ddulliau newydd. Mae hyn wedi arwain at sefydlu cymuned addysgu gref lle mae staff yn dysgu oddi wrth ei gilydd yn effeithiol.

| Maes arolygu | Barn |
|---|---|
| Safonau | Da |
| Lles ac agweddau at ddysgu | Da |
| Addysgu a phrofiadau dysgu | Da |
| Gofal, cymorth ac arweiniad | Da |
| Arweinyddiaeth a rheolaeth | Da |

### Argymhellion

A1 Gwella medrau llafaredd a darllen Cymraeg disgyblion

A2 Gwella strategaethau i gynyddu presenoldeb

A3 Darparu cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion ddatblygu eu dealltwriaeth o ddiwylliant a threftadaeth Cymru

### Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael ag argymhellion yr arolygiad.

## Adroddiad Estyn - Ysgol Gynradd Brynmenyn

Adroddiad ar Ysgol Gymraeg Brynmenyn

Medi 2012

**Crynodeb**

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Digonol** |

**Perfformiad presennol**

Bernir bod perfformiad presennol yr ysgol yn ddigonol oherwydd:

- bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd boddhaol ac yn cyflawni safonau sy'n debyg i'r cyfartaledd ar y cyfan, ond bod perfformiad lleiafrif o ddisgyblion, bechgyn fel arfer, yn rhy isel;
- bod safonau llythrennedd wedi gwella'n ddiweddar, ond maent yn parhau i fod yn rhy isel;
- bod agweddau'r rhan fwyaf o ddisgyblion at ddysgu yn gadarnhaol a bod y rhan fwyaf ohonynt yn ymddwyn yn dda;
- bod y cwricwlwm yn ymarferol a chreadigol, ond nid yw'n rhoi digon o bwyslais ar ddatblygu medrau llythrennedd disgyblion;
- bod ansawdd cyffredinol yr addysgu yn ddigonol, er bod ansawdd y marcio yn anghyson;
- bod y gofal, y cymorth a'r arweiniad yn ddigonol er nad yw trefniadau diogelu cystal ag y dylent fod;
- bod rolau arwain a rheoli strategol yn cael eu rhannu'n helaeth; a
- bod partneriaethau gydag ysgolion eraill, yr awdurdod lleol a'r gymuned yn dda.

**Rhagolygon gwella**

Bernir bod rhagolygon gwella'r ysgol yn ddigonol oherwydd:

- bod uwch arweinwyr a llywodraethwyr yn rhannu ymrwymiad i wella'r ysgol;
- bod y monitro a'r arfarnu rheolaidd o ran yr addysgu a'r dysgu yn drylwyr, yn eang ac yn ffactor allweddol yn eu gwelliant;
- bod yr uwch dîm rheoli yn effeithiol o ran adeiladu tîm cymharol newydd o athrawon a chynorthwywyr; ac
- nid yw prosesau gwella wedi arwain at gynnydd digonol mewn safonau llythrennedd eto, ond mae'r ysgol wedi rhwystro'r dirywiad, ac mae safonau'n codi, er bod hynny o sylfaen isel.

**Argymhellion**

A1 Gwella safonau llythrennedd ar draws yr ysgol, yn enwedig ar gyfer bechgyn a'r disgyblion hynny sy'n fwy abl.

A2 Cryfhau'r cwricwlwm ar gyfer llythrennedd ymhellach.

A3 Gwella addysgu a dysgu bechgyn a'r disgyblion mwy abl.

A4 Datblygu rôl rheoli strategol y corff llywodraethol.

A5 Sicrhau bod trefniadau diogelu'n cael eu hadolygu'n fwy rheolaidd a bod pob aelod o staff yn cael hyfforddiant llawn ac aml ar weithdrefnau diogelu.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Adroddiad Estyn - Ysgol Fabanod Bryntirion

Adroddiad ar Ysgol Fabanod Bryntirion

Ionawr 2015

**Crynodeb**

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

**Perfformiad presennol**

Mae'r ysgol yn dda oherwydd bod:

- Llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da mewn perthynas â'u mannau cychwyn isel
- Bron pob un o'r disgyblion yn ymddwyn yn dda, yn mwynhau'r ysgol ac â phresenoldeb da
- Y cwricwlwm yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu ysgogol
- Gofal, cymorth ac arweiniad yn dda iawn
- Mae'r ysgol yn gwneud defnydd da o asiantaethau arbenigol i gefnogi disgyblion sy'n agored i niwed
- Mae cymorth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol ac mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd da
- Mae'r ysgol yn defnyddio'r amgylchedd ffisegol yn dda i roi profiadau dysgu difyr i ddisgyblion

**Rhagolygon gwella**

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd bod:

- Y pennaeth yn rhoi ymdeimlad clir o gyfeiriad i waith yr ysgol
- Mae pob aelod o staff yn cyfuno'n dda iawn mewn ethos tîm cryf
- Mae arweinwyr yn dadansoddi data cyrhaeddiad disgyblion yn ofalus wrth arfarnu perfformiad yr ysgol
- Mae cysylltiad agos rhwng yr adroddiad hunanarfarnu a'r blaenoriaethau yng nghynllun gwella'r ysgol
- Mae'r ysgol yn gwneud defnydd da o ystod eang o bartneriaethau ac yn llwyddo i gynnwys llawer o rieni wrth gefnogi dysgu eu plant
- Mae trefniadau effeithiol ar gyfer datblygu arbenigedd staff drwy amrywiaeth o gyfleoedd datblygiad proffesiynol

**Argymhellion**

A1 Gwella medrau siarad a meddwl annibynnol disgyblion

A2 Sicrhau bod yr addysgu'n herio'r disgyblion mwy abl yn gyson

A3 Gwella effeithiolrwydd adborth i ddisgyblion fel bod ganddynt ddealltwriaeth glir o sut y gallant wella eu gwaith

A4 Datblygu gallu llywodraethwyr i ddarparu cyfeiriad strategol a lefelau uwch o her

A5 Sicrhau bod gweithdrefnau hunanarfarnu yn canolbwyntio'n glir ar sut mae'r ddarpariaeth yn gwella deilliannau i ddisgyblion

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu, sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Adroddiad Estyn - Ysgol Fabanod Cefn Glas

Adroddiad ar Ysgol Fabanod Cefn Glas

Hydref 2015

**Crynodeb**

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

**Perfformiad presennol**

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- Bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da yn ystod eu hamser yn yr ysgol
- Mae safonau ymddygiad yn dda ac mae bron pob disgybl yn gwrtais ac yn ymddwyn yn dda
- Mae gan bron pob un o'r disgyblion ddealltwriaeth dda iawn o sut i gadw'n iach
- Mae lefelau presenoldeb yn uchel ac yn cymharu'n dda ag ysgolion tebyg eraill
- Mae athrawon yn canolbwyntio'n effeithiol ar ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a meddwl disgyblion mewn ffyrdd dychmygus ar draws y cwricwlwm
- Mae athrawon a chynorthwywyr dysgu yn cydweithio'n dda fel tîm
- Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn paratoi cyflwyniadau bywiog a dychmygus sy'n ysgogi'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda
- Mae'r ysgol yn gymuned gynnes, groesawgar a meithringar, sy'n rhoi blaenoriaeth uchel i sicrhau bod disgyblion yn derbyn gofal da, ac yn teimlo'n ddiogel
- Mae trefniadau da yn eu lle i gefnogi disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol
- Mae disgyblion yn elwa o ddefnyddio ystod eang o adnoddau o ansawdd da
- Mae'r ysgol yn gwneud defnydd da o'i hardaloedd awyr agored helaeth ac ag adnoddau da, ac mae'r rhain yn cefnogi dysgu disgyblion yn dda

### Rhagolygon ar gyfer gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd bod:

- Y pennaeth a'r uwch dîm rheoli yn rhannu gweledigaeth glir ar gyfer gwella'r ysgol
- Mae gan staff gyfrifoldebau clir ac maent yn gweithio'n bwrpasol gyda'i gilydd fel tîm cryf
- Mae gan y pennaeth ddisgwyliadau uchel ac mae'n cefnogi staff ar bob lefel i roi o'u gorau a chyrraedd eu potensial llawn
- Mae llywodraethwyr yn cefnogi'r ysgol yn dda ac yn ymwybodol o'i chryfderau a'r meysydd y mae angen eu datblygu
- Mae hunanarfarnu a chynllunio datblygu yn rhan reolaidd o fywyd gwaith yr ysgol
- Mae'r ysgol yn defnyddio gwybodaeth o'r broses hunanarfarnu yn briodol i bennu blaenoriaethau addas megis gwella medrau darllen uwch disgyblion
- Mae'r bartneriaeth â rhieni yn nodwedd arbennig o gryf yr ysgol, gan gyfrannu'n effeithiol iawn at ethos hynod gynhwysol yr ysgol

- Mae llawer o gyfleoedd datblygiad proffesiynol parhaus yn helpu staff i gaffael gwybodaeth a sgiliau newydd sy'n arwain at brofiadau dysgu o ansawdd da i ddisgyblion
- Mae pwyslais cryf ar ddatblygu a rhannu arfer dda o fewn yr ysgol a chyda darparwyr eraill, gan sicrhau hinsawdd o welliant parhaus

**Argymhellion**

A1 Gwella ysgrifennu annibynnol disgyblion a'u medrau ysgrifennu creadigol ac estynedig

A2 Gwella mewnbwn disgyblion i beth a sut maen nhw'n dysgu

A3 Gwella cyfleoedd i ddisgyblion wneud dewisiadau a gwneud penderfyniadau ystyrlon

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu, sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig, gan ddisgrifio'r arfer ragorol a welwyd yn ystod yr arolygiad.

## Adroddiad Estyn - Ysgol Gynradd Coety

Adroddiad ar Ysgol Gynradd Coety

Mawrth 2018

**Crynodeb**

Yn gyffredinol, mae disgyblion yn Ysgol Gynradd Coety yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn. Mae ganddynt agweddau cadarnhaol at ddysgu ac maent yn trin ei gilydd gyda gofal a pharch. Mae staff yn darparu profiadau dysgu diddorol sy'n cymell disgyblion i ddysgu, ond nid oes digon o gyfleoedd o ansawdd da i ddisgyblion yn y cyfnod sylfaen ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol. Mae systemau effeithiol i ddisgyblion nodi agweddau ar eu gwaith y mae angen iddynt eu gwella, ac mae athrawon yn darparu adborth o ansawdd da i'w helpu i lwyddo.

Mae uwch arweinwyr wedi rheoli'r cynnydd yn nifer y disgyblion a'r symud i adeilad newydd yn dda. Maent yn rhoi blaenoriaeth uchel i greu cymuned ofalgar sy'n ystyried ac yn diwallu anghenion disgyblion. Mae ganddynt weithdrefnau defnyddiol i ddadansoddi gwaith yr ysgol ac i nodi meysydd i'w datblygu, ond nid ydynt bob amser yn nodi pob maes yn gywir nac yn cynnwys staff wrth gynllunio ar gyfer gwella'n ddigon da.

| Maes arolygu | Barn |
|---|---|
| Safonau | Da |
| Lles ac agweddau at ddysgu | Da |
| Addysgu a phrofiadau dysgu | Digonol ac angen gwella |
| Gofal, cymorth ac arweiniad | Da |
| Arweinyddiaeth a rheolaeth | Digonol ac angen gwella |

**Argymhellion**

A1 Sicrhau bod yr holl staff yn cael cymorth ac adborth priodol i'w helpu i ddatblygu'n broffesiynol

A2 Cynyddu cyfranogiad staff yn y broses ar gyfer cynllunio gwella'r ysgol

A3 Darparu gwell cyfleoedd i ddatblygu medrau dysgu annibynnol disgyblion yn y cyfnod sylfaen

A4 Gwella'r ddarpariaeth ar gyfer rhifedd ar draws y cwricwlwm

**Beth sy'n digwydd nesaf**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn adolygu cynnydd yr ysgol.

## Adroddiad Estyn - Ysgol Gynradd Llangrallo

Adroddiad Estyn ar Ysgol Gynradd Llangrallo

Mawrth 2014

**Crynodeb**

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

**Perfformiad presennol**

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- canlyniadau ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn uwch na'r disgwyliadau;
- bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu;
- ymddygiad disgyblion o ansawdd uchel;
- mae perthynas gadarnhaol rhwng disgyblion a staff;
- mae addysgu yn y rhan fwyaf o ddosbarthiadau yn gyson uchel;
- mae disgyblion yn llawn cymhelliant ac yn gwrtais, ac maent yn mwynhau'r ysgol; ac
- mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol.

**Rhagolygon gwella**

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd bod:

- y pennaeth, y staff a'r llywodraethwyr yn rhannu gweledigaeth gref ar gyfer datblygiad yr ysgol yn y dyfodol;
- mae proses drylwyr o hunanarfarnu, sy'n defnyddio ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol;
- mae cynllunio gwella'r ysgol yn canolbwyntio'n agos ar godi lefelau cyflawniad disgyblion;
- mae gan yr uwch dîm rheoli a'r llywodraethwyr ddealltwriaeth dda o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu;
- mae partneriaethau gyda rhieni a'r gymuned leol yn gryf;
- mae gwaith tîm a chyfathrebu yn effeithiol ar bob lefel; ac
- mae'r ysgol yn rheoli ei hadnoddau'n dda.

**Argymhellion**

A1 Gwella canlyniadau ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen

A2 Gwella'r ddarpariaeth ar gyfer ysgrifennu estynedig ar draws y cwricwlwm

A3 Sicrhau cysondeb yn ansawdd yr addysgu ledled yr ysgol

A4 Gwella'r ardal tu allan ar gyfer disgyblion hŷn y Cyfnod Sylfaen

A5 Gwella presenoldeb ymhellach

**Beth sy’n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

# Adroddiad Estyn - Ysgol Gynradd Croesty

Ysgol Gynradd Croesty

Heol Coychurch

Pencoed

Pen-y-bont

CF35 5LY

Ionawr 2015

**Ysgol Gynradd Croesty**

**Canlyniad yr ymweliad monitro**

Bernir bod Ysgol Gynradd Croesty wedi gwneud cynnydd da o ran y materion allweddol ar gyfer gweithredu yn dilyn ymweliad Estyn ym mis Ionawr 2015. Mae'r ysgol wedi'i thynnu oddi ar y rhestr o ysgolion y mae angen iddynt gael eu monitro gan Estyn. Ni fydd rhagor o ymweliadau monitro gan Estyn mewn perthynas â'r arolygiad hwn.

Yn gywir

Mererid Wyn Williams

Cyfarwyddwr Cynorthwyol

Adroddiad ar Ysgol Gynradd Croesty

Tachwedd 2013

**Crynodeb**

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

**Perfformiad presennol**

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn ddigonol oherwydd bod:

- perfformiad ar ddiwedd asesiadau diwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 wedi gwella dros y ddwy flynedd ddiwethaf;
- mae safon bresennol y gwaith mewn llawer o lyfrau disgyblion yn dda;
- mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda ac yn gwrtais, ac mae ganddynt agwedd dda at ddysgu;
- mae ansawdd yr addysgu yn dda ac mae athrawon yn darparu gweithgareddau dysgu diddorol a pherthnasol sy'n diwallu anghenion y rhan fwyaf o ddisgyblion;
- mae'r staff yn darparu lefel uchel o ofal, cymorth ac arweiniad i ddisgyblion;
- mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol lle mae disgyblion yn cael eu gwerthfawrogi; ac
- mae ystod eang o bartneriaethau yn cael effaith fuddiol ar gyflawniad disgyblion.

Fodd bynnag:

- dros y pedair blynedd diwethaf, mae perfformiad yr ysgol mewn asesiadau ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 yn gyffredinol wedi ei gosod yn y 50% is o ysgolion sydd â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i brydau ysgol am ddim;
- nid yw medrau ysgrifennu a rhifedd estynedig llawer o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 wedi'u datblygu'n dda ar draws y cwricwlwm;
- nid yw lefelau presenoldeb cystal ag y dylent fod; ac
- nid yw llawer o ddisgyblion yn ymwneud yn ddigonol ag asesu eu dysgu eu hunain.

**Rhagolygon gwella**

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd bod:

- gan arweinwyr ysgolion weledigaeth glir ar gyfer datblygiad yr ysgol yn y dyfodol ac mae'r uwch dîm arweinyddiaeth sydd newydd ei ffurfio yn dechrau effeithio ar safonau ar gyfer pob dysgwr;
- mae gan arweinwyr yr ysgol ddealltwriaeth gywir o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu, sy'n deillio o weithdrefnau hunanasesu effeithiol;
- mae pob aelod o staff yn glir ynghylch eu rolau wrth weithredu strategaethau gwella, sydd eisoes wedi cael effaith gadarnhaol ar godi safonau dros y ddwy flynedd ddiwethaf; ac

- mae'r corff llywodraethu yn effeithiol o ran dwyn yr ysgol i gyfrif am y safonau y mae'n eu cyflawni.

**Argymhellion**

A1 Codi safonau fel bod mwy o ddisgyblion yn cyrraedd y lefel a ddisgwylir ar gyfer eu hoedran ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2

A2 Gwella gallu disgyblion i gymhwyso eu medrau ysgrifennu estynedig a rhifedd ar draws y cwricwlwm yng nghyfnod allweddol 2

A3 Gwella presenoldeb disgyblion

A4 Mynd i'r afael â'r anghydbwysedd sylweddol o ran maint dosbarthiadau yn y Cyfnod Sylfaen

A5 Gwella cyfleoedd i ddisgyblion asesu eu dysgu eu hunain

**Beth sy’n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu, sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Adroddiad Estyn - Ysgol Gynradd Llidiard

Adroddiad Estyn ar Ysgol Gynradd Llidiard

Tachwedd 2017

**Crynodeb**

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd disgwyliedig o’u mannau cychwyn. Mae’r rhan fwyaf yn cymhwyso’u medrau llythrennedd a rhifedd yn dda mewn gwaith ar draws y cwricwlwm. Mae rhan fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol yn datblygu medrau hynod effeithiol mewn technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh). Mae bron pob un o’r disgyblion yn mwynhau dod i’r ysgol ac mae ganddynt agweddau cadarnhaol at ddysgu.

Mae ansawdd yr addysgu yn gryf. Mae'r cwricwlwm yn eang ac yn cynnig ystod eang o brofiadau diddorol i bob disgybl.

Mae’r disgyblion yn derbyn gofal, cymorth ac arweiniad da ac mae partneriaeth yr ysgol gyda’r rhan fwyaf o rieni yn gryf. Mae gan y pennaeth weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol ac fe’i cefnogir yn dda gan yr uwch dîm rheoli. Mae'r staff yn adnabod cymuned yr ysgol yn dda ac yn cydweithio fel tîm yn effeithiol i gyrraedd safonau uchel ar gyfer disgyblion. Mae'r corff llywodraethu yn cefnogi'r ysgol yn llwyddiannus.

| Maes arolygu | Barn |
|---|---|
| Safonau | Da |
| Lles ac agweddau at ddysgu | Da |
| Addysgu a phrofiadau dysgu | Da |
| Gofal, cymorth ac arweiniad | Da |
| Arweinyddiaeth a rheolaeth | Da |

**Argymhellion**

A1 Gwella medrau llafaredd, darllen ac ysgrifennu Cymraeg disgyblion cyfnod allweddol 2

A2 Gwella medrau gwneud penderfyniadau disgyblion fel y gallant wneud dewisiadau annibynnol ynghylch sut a beth maent yn ei ddysgu

A3 Sicrhau bod adborth athrawon yn dweud wrth ddisgyblion beth sydd angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith

A4 Datblygu dysgu awyr agored yn y cyfnod sylfaen

**Beth sy'n digwydd nesaf**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael ag argymhellion yr arolygiad.

## Adroddiad Estyn - Ysgol Gynradd Llangewydd

Adroddiad ar Ysgol Gynradd Llangewydd

Tachwedd 2015

**Crynodeb**

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Rhagorol** |

**Perfformiad presennol**

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- Llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da o leiaf ac yn adeiladu ar eu medrau'n dda wrth iddynt symud drwy'r ysgol
- Mae disgyblion o bob gallu yn gwneud cynnydd da mewn dysgu ac yn defnyddio'r Gymraeg fel ail iaith
- Mae ymddygiad disgyblion a lefel eu hymgysylltiad yn dda
- Mae gwrando ac ymateb i farn disgyblion yn gryfder
- Mae system gadarn ar gyfer asesu ac olrhain cynnydd disgyblion yn rheolaidd
- Mae lefelau eithriadol o ofal, cymorth ac arweiniad i bob disgybl, sydd hefyd yn cael effaith gadarnhaol ar rieni
- Mae'r ysgol yn gymuned fywiog lle mae staff yn cydnabod ac yn dathlu amrywiaeth ei disgyblion

**Rhagolygon gwella**

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn rhagorol oherwydd bod:

- Y pennaeth yn darparu arweinyddiaeth a chyfeiriad hynod effeithiol i'r ysgol
- Mae'r corff llywodraethu yn cyflawni ei ddyletswyddau'n dda iawn ac yn cyfrannu'n helaeth at gyfeiriad strategol yr ysgol
- Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer hunanarfarnu, monitro a chynllunio ar gyfer gwelliannau pellach wedi'u hen sefydlu ac yn effeithiol iawn
- Mae'r ysgol wedi datblygu partneriaeth ragorol gyda rhieni
- Mae gan yr ysgol rôl bwysig a gweithgar o fewn y gymuned leol, lle mae perthnasoedd rhagorol yn amlwg
- Mae arweinwyr yn rheoli'r defnydd o staff ac adnoddau yn effeithiol iawn
- Mae'r ysgol yn defnyddio ei hadnoddau'n dda i sicrhau bod pob grŵp o ddisgyblion yn cyflawni'n llwyddiannus

**Argymhellion**

A1 Sicrhau cyfleoedd cyson ac amrywiol i ddisgyblion ddefnyddio eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm

A2 Gwella cysondeb marcio ac asesu ar gyfer dysgu drwy roi cyfleoedd i ddisgyblion ymateb i sylwadau athrawon

A3 Rhannu'r arfer hynod effeithiol o ymgysylltu â theuluoedd a'r gymuned ag ysgolion eraill ledled Cymru

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig, gan ddisgrifio'r arfer ragorol a welwyd yn ystod yr arolygiad.

## Adroddiad Estyn - Ysgol Gynradd Maes Yr Haul

Adroddiad ar Ysgol Gynradd Maes Yr Haul

Mai 2018

**Crynodeb**

Mae'r ysgol yn gymuned ddysgu hapus a bywiog lle mae disgyblion yn gwneud cynnydd da. Mae medrau cyfathrebu disgyblion yn arbennig o gryf, ac maent yn cymhwyso eu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn effeithiol mewn ystod eithriadol o gyfoethog o gyd-destunau. Ar draws yr ysgol, mae ymddygiad disgyblion yn rhagorol. Maent yn gwrtais tuag at ymwelwyr ac yn gweithio'n eithriadol o dda gyda'i gilydd. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd datblygedig iawn i ddisgyblion gadw'n heini ac yn cefnogi eu lles emosiynol yn effeithiol iawn. Mae cyfleoedd eithriadol o dda i ddisgyblion ddatblygu eu hyder a'u gwydnwch a meithrin medrau creadigol. Mae'r uwch dîm arweinyddiaeth yn gryf. Mae ganddo weledigaeth bwerus a chynhyrchiol ar gyfer darparu addysg gyflawn i ddisgyblion yr ysgol, y mae'n ei rhannu'n effeithiol gyda'r holl randdeiliaid.

| Maes arolygu | Barn |
|---|---|
| Safonau | Da |
| Lles ac agweddau at ddysgu | Rhagorol |
| Addysgu a phrofiadau dysgu | Da |
| Gofal, cymorth ac arweiniad | Rhagorol |
| Arweinyddiaeth a rheolaeth | Da |

**Argymhellion**

A1 Gwella medrau siarad Cymraeg disgyblion

A2 Gwella'r cyfleoedd i ddisgyblion iau archwilio eu hamgylchedd yn annibynnol a gwneud dewisiadau am eu dysgu

**Beth sy'n digwydd nesaf**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael ag argymhellion yr arolygiad. Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos i'w rhannu ar wefan Estyn.

## Adroddiad Estyn - Ysgol Gynradd Hengastell

Adroddiad ar Ysgol Gynradd Hengastell

Mehefin 2017

**Crynodeb**

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

**Perfformiad presennol**

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- Bron pob un o'r disgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion ychwanegol, yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol
- Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion fedrau llafaredd datblygedig iawn, ac mae ganddynt fedrau darllen ac ysgrifennu cryf
- Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cyflawni'n dda mewn mathemateg ac mae ganddynt fedrau datblygedig mewn rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh).
- Mae lles disgyblion yn dda; mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda, yn ymgysylltu â'u dysgu ac yn cydweithio â'u cyfoedion
- Mae presenoldeb wedi gwella ac yn gosod yr ysgol yn y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg
- Mae ansawdd yr addysgu yn dda, ac mae'r rhan fwyaf o wersi'n ddiddorol ac yn gyffrous
- Mae disgyblion yn derbyn gofal, cymorth ac arweiniad rhagorol, yn enwedig y rhai y gall eu hamgylchiadau eu gwneud yn agored i niwed, neu'r rhai sydd ag anghenion ychwanegol

**Rhagolygon gwella**

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd bod:

- Mae'r pennaeth yn arweinydd creadigol ac arloesol, ac fe'i cefnogir yn dda gan uwch dîm arweinyddiaeth brwdfrydig iawn
- Mae'r corff llywodraethol yn weithgar yn ei gefnogaeth o'r ysgol
- Mae proses gynhwysfawr ac effeithiol ar gyfer hunanarfarnu, sy'n arwain at gynllun defnyddiol ar gyfer gwella
- Mae strwythur rheoli perfformiad effeithlon ar waith ar gyfer yr holl staff, sy'n cael ei fonitro'n gadarn
- Mae ystod eang o bartneriaethau hynod effeithiol yn cyfoethogi'r cwricwlwm ac yn cefnogi dysgu a lles disgyblion yn eithriadol o dda

- Mae'r ysgol yn gymuned ddysgu hynod arloesol, sy'n rheoli ei hadnoddau ariannol a dynol yn hynod effeithlon

**Argymhellion**

A1 Sicrhau bod athrawon yn cyfateb gweithgareddau ystafell ddosbarth i anghenion dysgu disgyblion yn fwy penodol, yn enwedig ar gyfer disgyblion sydd angen cymorth gyda medrau sylfaenol

A2 Cryfhau rôl y corff llywodraethu

A3 Sicrhau bod monitro'n sicrhau gwelliant

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig, gan ddisgrifio'r arfer ragorol a welwyd yn ystod yr arolygiad.

## Adroddiad Estyn - Ysgol Gynradd Pencoed

Adroddiad ar Ysgol Gynradd Pencoed

Mai 2019

**Crynodeb**

Mae lles disgyblion wrth wraidd gwaith yr ysgol ac mae pob aelod o staff yn gweithio'n galed iawn i sicrhau bod ethos teuluol gofalgar a chynhwysol. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol iawn ar gyflawniad disgyblion, eu hagweddau at ddysgu, presenoldeb ac ymddygiad.

Mae rhan fwyaf y disgyblion, gan gynnwys y rhai yn yr unedau adnoddau dysgu, yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn. Mae disgyblion yn ymgymryd â rolau a chyfrifoldebau'n frwdfrydig ac yn cyfrannu'n dda at fywyd yr ysgol.

Mae athrawon yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu i ennyn diddordeb ac ysgogi disgyblion i ddysgu. Mae'r ysgol yn hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion o ddiwylliant a threftadaeth Cymru yn dda.

Mae gan yr ysgol berthynas gref a chefnogol iawn gyda rhieni. Mae'r swyddog ymgysylltu â theuluoedd wedi creu amrywiaeth o strategaethau hynod lwyddiannus i gynnwys rhieni ym mywyd a gwaith yr ysgol.

Mae'r pennaeth, ynghyd â'r dirprwy bennaeth ac uwch arweinwyr, yn darparu arweinyddiaeth gref a phwrpasol. Ynghyd â thîm ymroddedig a chydwybodol o staff, maent yn gweithio'n llwyddiannus i wella deilliannau disgyblion a chodi eu dyheadau.

| Maes arolygu | Barn |
|---|---|
| Safonau | Da |
| Lles ac agweddau at ddysgu | Da |
| Addysgu a phrofiadau dysgu | Da |
| Gofal, cymorth ac arweiniad | Da |
| Arweinyddiaeth a rheolaeth | Da |

**Argymhellion**

A1 Codi safonau mewn medrau iaith Gymraeg

A2 Darparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu'n ddysgwyr annibynnol

A3 Sicrhau bod yr holl athrawon yn rhoi digon o gyfleoedd i ddisgyblion ysgrifennu'n helaeth

**Beth sy'n digwydd nesaf**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael ag argymhellion yr arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei strategaethau i ennyn diddordeb teuluoedd ym mywyd a gwaith yr ysgol i'w rhannu ar wefan Estyn.

## Adroddiad Estyn - Ysgol Gynradd Penybont

Adroddiad ar Ysgol Gynradd Penybont

Mai 2019

**Crynodeb**

Drwy Ysgol Gynradd Penybont, mae ethos meddylgar, gofalgar a chefnogol, lle mae pob disgybl yn teimlo'n ddiogel ac yn cael ei werthfawrogi. Mae ymddygiad disgyblion yn rhagorol ac maent yn huawdl, yn gwrtais ac yn groesawgar i ymwelwyr. Mae'r pennaeth, y staff a'r llywodraethwyr yn gweithio'n dda fel tîm ac yn sicrhau bod yr ysgol yn darparu cymorth unigol, defnyddiol iawn i ddisgyblion a'u teuluoedd.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion agweddau cadarnhaol iawn at ddysgu, maent yn awyddus i ddysgu ac yn mwynhau eu gwersi. Mae staff yn cydweithio'n dda i greu amgylchedd tawel lle mae disgyblion yn parchu oedolion a'i gilydd. Mae athrawon yn darparu ystod dda o brofiadau dysgu sy'n ennyn diddordeb disgyblion yn dda. Un o gryfderau penodol yr ysgol yw'r gwaith i wella medrau siarad a gwrando disgyblion.

Mae'r pennaeth, ynghyd ag uwch arweinwyr, yn darparu arweinyddiaeth effeithiol a phwrpasol. Gyda'i gilydd mae ganddynt weledigaeth glir ar gyfer gwella ysgolion ac maent yn rhannu hyn yn llwyddiannus gyda phob aelod o staff. Gyda'i gilydd, maent yn gosod disgwyliadau uchel ac yn sefydlu cynlluniau strategol effeithiol sy'n canolbwyntio ar ddiwallu anghenion pob disgybl.

**Argymhellion**

A1 Gwella medrau Cymraeg disgyblion

A2 Galluogi disgyblion i gyfrannu'n effeithiol at wneud penderfyniadau

A3 Creu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion ymwneud â sut a beth maent yn ei ddysgu

**Beth sy'n digwydd nesaf**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael ag argymhellion yr arolygiad.

## Adroddiad Estyn - Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Pen-y-fai

Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Pen-y-fai

Heol Eglwys

Penyfai

Pen-y-bont

CF31 4LX

27 Mehefin 2018

**Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Pen-y-fai**

**Canlyniadau adolygiad Estyn**

Bernir bod yr ysgol wedi gwneud cynnydd digonol o ran mynd i'r afael ag argymhellion arolygiad Adran 28. Mae'r ysgol wedi'i thynnu oddi ar y rhestr o ysgolion y mae angen iddynt gael eu hadolygu gan Estyn. Ni fydd rhagor o weithgarwch monitro mewn perthynas â'r arolygiad hwn.

Yn gywir

Mererid Wyn Williams

Cyfarwyddwr Cynorthwyol

Adroddiad ar Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Penyfai

Rhagfyr 2016

**Crynodeb**

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Digonol** |

**Perfformiad presennol**

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd:

- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyflawni safonau da mewn siarad, gwrando, darllen, ysgrifennu, mathemateg a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh)
- Mae bron pob un o'r disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da tuag at eu targedau trwy ymyrraeth a chymorth effeithiol
- Mae athrawon yn cynllunio profiadau dysgu diddorol, gan gynnwys mynediad i amrywiaeth eang o weithgareddau allgyrsiol, sy'n ennyn diddordeb ac yn cymell y rhan fwyaf o ddisgyblion
- Mae'r ysgol yn hyrwyddo'r Gymraeg yn effeithiol
- Mae'r adeilad yn darparu amgylchedd ysgogol, y mae staff yn ei ddefnyddio'n dda i hyrwyddo dysgu
- Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymddwyn yn dda iawn ac yn garedig ac yn ystyriol o'i gilydd
- Mae'r berthynas waith rhwng staff a disgyblion yn dda iawn
- Mae bron pob un o'r disgyblion yn cyflawni lefelau uchel o les oherwydd y gofal, y cymorth a'r arweiniad effeithiol y mae'r ysgol yn eu darparu o fewn ei hethos Cristnogol
- Mae cyfraddau presenoldeb yn uchel ac yn cymharu'n gyson dda ag ysgolion tebyg

**Rhagolygon gwella**

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn ddigonol oherwydd bod:

- Gan y pennaeth sydd newydd ei benodi weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol yn seiliedig ar ethos Cristnogol a sicrhau safonau uchel i bob disgybl
- Mae uwch arweinwyr yn rhoi cefnogaeth gydwybodol i'r pennaeth a, gyda'i gilydd, maent yn hyrwyddo ethos tîm cryf
- Mae gan aelodau'r uwch dîm arwain ddealltwriaeth gadarn o'r rhan fwyaf o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w gwella
- Mae'r corff llywodraethu yn gefnogol i'r ysgol ac mae ganddo ddealltwriaeth foddhaol o'i pherfformiad mewn perthynas ag ysgolion tebyg eraill

- Mae gwelliannau allweddol diweddar i gyfathrebu â rhieni yn eu galluogi i chwarae mwy o ran yn nysgu eu plant
- Mae gan yr ysgol ystod eang o bartneriaethau buddiol, sy'n cael effaith gadarnhaol ar les a safonau disgyblion

Fodd bynnag:

- Mae argymhellion yr arolygiad diwethaf yn parhau fel meysydd i arweinwyr eu gwella'n effeithiol, gan gynnwys cynyddu’r her i ddisgyblion, yn enwedig y rhai sy'n fwy abl
- Nid yw'r trefniadau ar gyfer hunanarfarnu a chynllunio gwella’r ysgol yn canolbwyntio'n ddigon cadarn ar wella deilliannau disgyblion
- Mae diffyg her gadarn gan lywodraethwyr i sicrhau bod disgyblion yn cyrraedd eu llawn botensial
- Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae'r ysgol wedi tanwario ei chyllideb yn sylweddol ar draul gwella adnoddau a'r amgylchedd awyr agored

## Adroddiad Estyn - Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair

Adroddiad ar Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair

Mehefin 2016

**Crynodeb**

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

**Perfformiad presennol**

- Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd bod:
- Rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn
- Mae medrau siarad a gwrando'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda iawn
- Mae medrau meddwl disgyblion yn datblygu'n eithriadol o dda
- Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu eu medrau darllen.
- Mae bron pob un o'r disgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol at ddysgu ac maent yn frwdfrydig iawn mewn gwersi
- Mae pob disgybl yn ymddwyn yn eithriadol o dda
- Mae ansawdd yr addysgu yn dda ar draws yr ysgol ac mae rhai gwersi yn rhagorol
- Mae ethos Catholig cryf yn cefnogi datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn dda iawn

**Rhagolygon gwella**

Mae rhagolygon gwella yn dda oherwydd bod:

- Gan y pennaeth weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol ac mae'n rhannu hyn yn effeithiol gyda staff, llywodraethwyr a disgyblion
- Mae'n fodel rôl rhagorol sy'n cefnogi ac yn herio staff a disgyblion i wneud eu gorau
- Mae ymdeimlad da o waith tîm ar draws yr ysgol ac mae staff yn croesawu syniadau newydd yn gadarnhaol
- Mae llywodraethwyr yn ymgymryd â'u cyfrifoldebau'n gydwybodol ac mae ganddynt ddiddordeb cryf ym mywyd beunyddiol yr ysgol
- Mae'r ysgol yn dangos ymrwymiad da i fynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol a lleol; er enghraifft, mae'r Cyfnod Sylfaen wedi'i wreiddio'n dda
- Ceir dadansoddiad trylwyr o bob agwedd ar fywyd a gwaith yr ysgol, gan gynnwys lles disgyblion

- Mae gan yr ysgol ystod ardderchog o bartneriaethau, sy'n cael effaith sylweddol ar gyflawniad a lles disgyblion; er enghraifft, mae partneriaeth hynod effeithiol gyda Phrifysgol Caerwysg, sydd wedi helpu i wella medrau meddwl disgyblion

**Argymhellion**

A1 Codi safon ysgrifennu estynedig a chreadigol y rhan fwyaf o ddisgyblion

A2 Gwella medrau disgyblion yn y Gymraeg

A3 Gwella presenoldeb disgyblion

A4 Sicrhau gwell cydbwysedd o gyfrifoldeb arweinyddiaeth ar draws y tîm arweinyddiaeth

**Beth sy’n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu, sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion. Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd yr ysgol.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig, gan ddisgrifio'r arfer ragorol a welwyd yn ystod yr arolygiad.

# Adroddiad Estyn - Ysgol Gynradd Gatholig Sant Robert

Adroddiad ar Ysgol Gynradd Gatholig Sant Robert

Ebrill 2015

**Crynodeb**

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

**Perfformiad presennol**

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- Rhan fwyaf y disgyblion yn cyflawni safonau da erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2
- Mae disgyblion mwy abl yn rhan uchaf cyfnod allweddol 2 yn gwneud cynnydd da ac weithiau da iawn
- Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac mae ganddynt agwedd gadarnhaol at iechyd a ffitrwydd
- Mae bron pob un o'r disgyblion yn cymryd rhan frwdfrydig yn eu gwaith ac yn awyddus i ddysgu
- Mae'r ysgol yn darparu llawer o brofiadau dysgu gwerth chweil a diddorol sy'n diwallu anghenion y rhan fwyaf o ddisgyblion
- Mae gan bob athro ddisgwyliadau uchel o'r holl ddisgyblion ac mae hyn yn cyfrannu'n dda at y cynnydd da y mae'r rhan fwyaf yn ei wneud
- Mae'r ysgol yn amgylchedd gofalgar lle mae'r holl staff yn gwerthfawrogi disgyblion yn fawr

**Rhagolygon gwella**

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd bod:

- Gan y pennaeth weledigaeth glir a chyfres o werthoedd craidd sy'n hyrwyddo gwelliant mewn safonau a lles yn llwyddiannus
- Mae'r ysgol yn rhoi sylw da i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol megis gweithredu'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd
- Mae proses hunanarfarnu'r ysgol wedi hen sefydlu ac mae'n cynnwys yr holl staff a llywodraethwyr
- Mae'r ysgol yn nodi meysydd perthnasol i'w gwella yn gywir ac mae'r rhain yn llywio blaenoriaethau yn y cynllun gwella ysgol
- Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gydag ystod o bartneriaid i wella ei darpariaeth
- Mae'r pennaeth yn defnyddio'r holl staff yn effeithiol i wneud y defnydd gorau o'u profiad a'u harbenigedd
- Mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian

**Argymhellion**

A1 Gwella safonau disgyblion yn eu defnydd o fedrau rhifedd ar draws y cwricwlwm

A2 Gwella medrau annibynnol disgyblion i'w galluogi i wneud penderfyniadau am eu dysgu eu hunain

A3 Sicrhau bod cynllunio'n sicrhau datblygiad systematig medrau gwybodaeth a chyfathrebu disgyblion (TGCh)

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Adroddiad Estyn - Ysgol Gynradd Tondu

Adroddiad ar Ysgol Gynradd Tondu

Tachwedd 2019

**Crynodeb**

Mae llawer o ddisgyblion yn Ysgol Gynradd Tondu yn gwneud cynnydd cryf o'u mannau cychwyn wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Maent yn datblygu medrau llythrennedd a rhifedd effeithiol y maent yn eu cymhwyso'n dda ar draws y cwricwlwm. Mae'r rhan fwyaf yn ymddwyn yn dda ac yn dangos lefelau uchel o oddefgarwch ac ystyriaeth tuag at ddisgyblion eraill ac oedolion.

Mae'r staff yn adnabod eu disgyblion yn dda. Mae llawer o athrawon yn cyflwyno gwersi ac yn cynllunio profiadau dysgu sy'n ennyn diddordeb ac yn ysgogi disgyblion yn llwyddiannus. Mae systemau'r ysgol ar gyfer olrhain a monitro cynnydd disgyblion yn llwyddo i sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd da dros amser. Mae darpariaeth lles yr ysgol yn effeithiol ac yn darparu cymorth sensitif i ddisgyblion sy'n agored i niwed, sy'n helpu'r disgyblion hyn i wella eu hyder a'u parodrwydd i ddysgu.

Mae arweinyddiaeth yn yr ysgol yn dda. Mae gan uwch arweinwyr weledigaeth glir ar gyfer parhau i wella'r ysgol ac mae eu gwaith wedi cael effaith gadarnhaol ar bob rhan o'r ysgol yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

| Maes arolygu | Barn |
|---|---|
| Safonau | Da |
| Lles ac agweddau at ddysgu | Da |
| Addysgu a phrofiadau dysgu | Da |
| Gofal, cymorth ac arweiniad | Da |
| Arweinyddiaeth a rheolaeth | Da |

**Argymhellion**

A1 Dadansoddi gwybodaeth o fonitro yn fwy gofalus i nodi achosion gwaelodol diffygion yn y ddarpariaeth ac mewn safonau

A2 Sicrhau cynllunio cyson ar draws y cyfnod sylfaen i alluogi disgyblion i ddatblygu a chymhwyso eu medrau'n annibynnol

A3 Darparu cyfleoedd rheolaidd o ansawdd uchel i ddisgyblion mwy abl i ymestyn eu dysgu

**Beth sy'n digwydd nesaf**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael ag argymhellion yr arolygiad.

## Adroddiad Estyn - Ysgol Gynradd Trelales

Ysgol Gynradd Trelales

Stryd y Ffynnon

Trelales

CF32 0LF

3 Gorffennaf 2019

**Ysgol Gynradd Trelales**

**Canlyniadau adolygiad Estyn**

Bernir bod yr ysgol wedi gwneud cynnydd digonol o ran mynd i'r afael ag argymhellion arolygiad Adran 28. Mae'r ysgol wedi'i thynnu oddi ar y rhestr o ysgolion y mae angen iddynt gael eu hadolygu gan Estyn. Ni fydd rhagor o weithgarwch monitro mewn perthynas â'r arolygiad hwn.

Yn gywir

Mererid Wyn Williams a

Liz Miles

Cyfarwyddwyr Cynorthwyol

Adroddiad ar Ysgol Gynradd Trelales

Ionawr 2018

**Crynodeb**

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae bron pob disgybl yn gwneud cynnydd da yn unol â'u galluoedd. Mae bron pob un o'r disgyblion yn ddysgwyr brwdfrydig iawn sy'n mwynhau dod i'r ysgol ac yn ymddwyn yn dda iawn. Mae'r ysgol yn darparu lefel effeithiol o ofal, cymorth ac arweiniad i ddisgyblion. Mae athrawon a swyddogion cymorth dysgu yn cydweithio'n dda i gefnogi dysgu disgyblion. Fodd bynnag, mae ansawdd yr addysgu yn amrywio gormod ar draws yr ysgol. Mae gan y pennaeth weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol a thros y flwyddyn ddiwethaf mae wedi cyflwyno strategaethau gwella addas, ond mae'n rhy gynnar i weld effaith camau gweithredu ar safonau disgyblion ac ar y ddarpariaeth. Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol, ond nid ydynt yn rhoi digon o her i arweinwyr mewn perthynas â pherfformiad yr ysgol.

| Maes arolygu | Barn |
|---|---|
| Safonau | Da |
| Lles ac agweddau at ddysgu | Da |
| Addysgu a phrofiadau dysgu | Digonol ac angen gwella |
| Gofal, cymorth ac arweiniad | Da |
| Arweinyddiaeth a rheolaeth | Digonol ac angen gwella |

**Argymhellion**

A1 Cryfhau rôl arweinwyr ar bob lefel fel eu bod yn gweithredu'n fwy strategol ac yn canolbwyntio'n fwy craff ar safonau disgyblion a gwella'r ddarpariaeth

A2 Datblygu rôl llywodraethwyr wrth fonitro ansawdd y ddarpariaeth a chynnydd disgyblion i'w galluogi i herio perfformiad yr ysgol

A3 Sicrhau bod y cwricwlwm arfaethedig yn diwallu anghenion pob disgybl ac yn datblygu ei medrau, yn enwedig rhifedd ar draws y cwricwlwm.

A4 Gwella ansawdd yr addysgu drwy rannu'r arfer orau yn yr ysgol yn fwy effeithiol

**Beth sy'n digwydd nesaf**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu, sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn adolygu cynnydd yr ysgol.

## Adroddiad Estyn - Ysgol Gynradd Tremaen

Adroddiad ar Ysgol Gynradd Tremaen

Tachwedd 2016

**Crynodeb**

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Digonol** |

**Perfformiad presennol**

- Mae perfformiad presennol yr ysgol yn ddigonol oherwydd:
- Mae'r ysgol yn gymuned gynnes, groesawgar a chynhwysol
- Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen yn dda, gyda mynegiant a dealltwriaeth
- Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n dda, yn siarad yn hyderus ac yn esbonio eu meddyliau'n glir
- Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymddwyn yn dda ac mae gan y rhan fwyaf agwedd gadarnhaol iawn at ddysgu
- Mae'r ysgol yn darparu cymorth effeithiol i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol a'r rhai sy'n trosglwyddo i'r ysgol sydd â lefel uchel o angen

Fodd bynnag:

- Nid yw disgyblion mwy abl yn cyflawni cystal ag y gallent yn gyson
- Mae gormod o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim nad ydynt yn perfformio'n cystal â disgyblion eraill
- Mae presenoldeb wedi gosod yr ysgol yn y 50% isaf am y tair blynedd diwethaf o gymharu ag ysgolion tebyg

**Rhagolygon gwella**

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn ddigonol oherwydd:

- Mae'r tîm arweinyddiaeth wedi sefydlu gweledigaeth glir ar gyfer yr ysgol fel cymuned gwbl gynhwysol
- Mae staff wedi sylweddoli nod yr ysgol o wella lles disgyblion sy'n agored i niwed yn effeithiol
- Mae cynllunio gwelliant yn canolbwyntio'n briodol ar flaenoriaethau cenedlaethol fel y fframwaith llythrennedd a rhifedd

Fodd bynnag:

- Nid yw arweinwyr yn dadansoddi gwybodaeth am berfformiad disgyblion yn gyson yn effeithiol ac, o ganlyniad, nid y blaenoriaethau yn y cynllun datblygu ysgol bob amser yw’r rhai sy’n debygol o gael yr effaith fwyaf ar godi deilliannau disgyblion.
- Nid yw arweinwyr yn monitro nac yn gwerthuso cynnydd nac effaith mentrau'n rheolaidd nac yn gadarn
- Mae’r ysgol yn rhy araf yn mynd i’r afael â diffygion yng nghyrhaeddiad disgyblion
- Mae'r ysgol wedi bod yn araf yn ymateb i argymhellion yr arolygiad diwethaf

**Argymhellion**

A1 Codi safonau llythrennedd a datblygiad mathemategol disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen

A2 Codi safonau ar gyfer y disgyblion mwy abl

A3 Gwella medrau siarad ac ysgrifennu disgyblion yn y Gymraeg

A4 Gwella presenoldeb

A5 Sefydlu cynllun ysgol gyfan clir ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a rhifedd

A6 Sicrhau bod athrawon yn rhoi arweiniad clir i ddisgyblion ym mhob dosbarth ar yr hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella

A7 Cyflwyno systemau cadarn i sicrhau hunanarfarnu effeithiol a gwella’r ysgol

**Beth sy’n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu, sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion. Bydd Estyn yn adolygu cynnydd yr ysgol.

## Adroddiad Estyn - Ysgol Gynradd Gymraeg Calon Y Cymoedd

Adroddiad ar Ysgol Gynradd Gymraeg Calon y Cymoedd

Mawrth 2019

**Crynodeb**

Mae llais y disgybl a lles y plentyn yn ffocws clir ac yn nodweddion cryf o fywyd yn Ysgol Calon y Cymoedd. Mae bron pob plentyn yn ymddwyn yn dda ac yn dangos cwrteisi a pharch at ei gilydd ac oedolion. Mae'r ysgol yn elwa o arweinyddiaeth gref sy'n rhoi hawliau'r plentyn yn ganolog i bopeth, a rhennir y weledigaeth hon yn llwyddiannus ar draws gymuned yr ysgol gyfan. Mae gan arweinwyr ddisgwyliadau uchel a ffocws clir ar godi safonau yn barhaus.

Mae'r staff yn darparu cwricwlwm ysgogol, cyfoes sy'n gafael yn nychymyg y dysgwyr yn llwyddiannus. Mae bron pob disgybl yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu gyda'r rhan fwyaf yn cymhwyso'u medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg, gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn effeithiol wrth weithio ar draws y cwricwlwm.

| Maes arolygu | Barn |
|---|---|
| Safonau | Da |
| Lles ac agweddau at ddysgu | Da |
| Addysgu a phrofiadau dysgu | Da |
| Gofal, cymorth ac arweiniad | Da |
| Arweinyddiaeth a rheolaeth | Da |

**Argymhellion**

A1 Codi safonau darllen yn y Gymraeg

A2 Sicrhau bod prosesau gwella yn canolbwyntio'n fanwl ar werthuso a gwella safonau a chynnydd disgyblion

A3 Darparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion ymarfer eu medrau ysgrifennu yn annibynnol yn y cyfnod sylfaen

**Beth sy'n digwydd nesaf**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

# Adroddiad Estyn - Ysgol Cynwyd Sant

Adroddiad ar Ysgol Cynwyd Sant

Hydref 2016

**Crynodeb**

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Rhagorol** |

**Perfformiad presennol**

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu yn ystod eu cyfnod yno
- rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu eu medrau meddwl a dysgu annibynnol yn llwyddiannus iawn
- rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu medrau llafar i safon uchel iawn ac yn medru cyfleu eu hunain yn ysgrifenedig yn glir ac yn ddiddorol mewn ystod o ffurfiau ar draws y cwricwlwm
- medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) disgyblion yn datblygu'n gadarn ar draws yr ysgol
- cyfraniad rhan fwyaf y disgyblion i fywyd a gwaith yr ysgol yn effeithiol iawn
- ystod helaeth o brofiadau dysgu cyfoethog yn bodoli, sy'n ysgogi diddordeb disgyblion ac yn eu datblygu i fod yn ddysgwyr annibynnol hyderus
- y ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r iaith Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig yn gynhwysfawr, yn effeithiol, ac yn ganolog i'w holl fywyd a gwaith
- ansawdd yr addysgu yn effeithiol ac yn gyson gadarn ar draws yr ysgol
- ganddi weithdrefnau cynhwysfawr ar gyfer sicrhau gofal, cymorth ac arweiniad i ddisgyblion, sy'n cael effaith gadarnhaol ar eu safonau a'u lles

**Rhagolygon gwella**

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn rhagorol oherwydd bod:

- arweinyddiaeth flaengar ac arloesol y pennaeth yn sicrhau bod ei gweledigaeth a'i hathroniaeth yn cael ei rhannu'n llwyddiannus iawn gyda'r holl randdeiliaid
- arweinwyr yn cyfrannu'n ardderchog i sicrhau darpariaeth o ansawdd uchel a chodi safonau ar draws yr ysgol
- y corff llywodraethol yn chwarae rhan allweddol wrth sicrhau cyfeiriad strategol clir i'r ysgol sy'n eu galluogi i herio a dwyn yr ysgol i gyfrif am ei pherfformiad yn effeithiol
- ynddi ddiwylliant llwyddiannus iawn o hunanarfarnu a gweithdrefnau sicrhau gwelliant sy'n treiddio trwy bron pob agwedd o fywyd yr ysgol; o ganlyniad, mae
- gan arweinwyr a staff ddealltwriaeth gynhwysfawr o gryfderau'r ysgol a'r meysydd sydd angen eu datblygu ymhellach

- gweithdrefnau hunanarfarnu'n cynnwys barn rhanddeiliaid yn dda ac mae llais y disgyblion yn nodwedd ragorol o'r broses; mae eu llais yn dylanwadu'n gryf ar sicrhau trefniadau a chwricwlwm celfyddydau creadigol llwyddiannus
- yr ysgol yn cynllunio'n effeithiol iawn ar gyfer gwireddu blaenoriaethau sy'n deillio o'r adroddiad hunanarfarnu
- yr ysgol yn rhannu ei harfer dda yn llwyddiannus iawn ac yn cydweithio'n eithriadol o effeithiol gyda nifer fawr o ysgolion a mudiadau eraill yn lleol ac yn genedlaethol; mae hyn yn cryfhau cymhwysedd staff yr ysgol yn effeithiol iawn er mwyn sicrhau gwelliannau parhaus a chodi safonau
- prosesau rheoli perfformiad effeithiol iawn yn bodoli ac mae hyfforddiant pwrpasol yn cefnogi anghenion staff yn llwyddiannus iawn; mae datblygiad proffesiynol parhaus yr holl staff yn cysylltu'n glir â'r athroniaeth sy'n gyrru gwaith yr ysgol yn llwyddiannus iawn
- yr ysgol yn gymuned ddysgu effeithiol iawn gyda rhwydweithiau llwyddiannus yn bodoli rhyngddi a nifer o ysgolion a mudiadau eraill sy'n cynnig ystod eang o gyfleoedd i arweinwyr, athrawon a chymorthyddion ddatblygu'n broffesiynol a chydweithio'n llwyddiannus i wella safonau gwaith disgyblion

**Argymhellion**

A1 Parhau i gynyddu cyfraddau presenoldeb disgyblion

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig, gan ddisgrifio'r arfer ragorol a welwyd yn ystod yr arolygiad.

## Adroddiad Estyn – Ysgol Y Ferch O’r Sgêr

Adroddiad ar Ysgol Y Ferch O'r Sgêr

Mawrth 2019

**Crynodeb**

Mae ethos Cymreig cryf yn bodoli yn yr ysgol ac mae disgyblion yn dangos balchder tuag at ddiwylliant Cymru a’u cymuned leol. Ar y cyfan, mae’r addysgu yn gadarn ac mae athrawon yn cynnig ystod eang o brofiadau dysgu diddorol ac ymarferol i’r disgyblion, sy’n ennyn eu brwdfrydedd wrth ddysgu. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu i fod yn ddysgwyr annibynnol. Maent yn cydweithio’n dda ag eraill gan roi cymorth a chefnogaeth i’w cyfoedion pan fo angen. Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer disgyblion bregus yn ganmoladwy ac mae’n ymateb yn dda i’w hanghenion. Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn gwrtais iawn ac yn ofalgar o’i gilydd.

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae ansefydlogrwydd mewn staffio wedi cyfyngu ar allu arweinwyr i fynd i’r afael ag anghysondebau yn y ddarpariaeth a’r safonau. Bellach, mae’r pennaeth a’r llywodraethwyr yn darparu arweiniad clir i waith yr ysgol, mae’r strwythur staffio cyfredol yn eglur ac mae’r arweinwyr ar bob lefel yn cyflawni eu dyletswyddau’n gydwybodol. Maent bellach yn defnyddio ystod bwrpasol o weithgareddau gwerthuso addas. O ganlyniad, mae ganddynt wybodaeth gynyddol gadarn am y safonau cyfredol sy’n eu galluogi i gynllunio a gweithredu gwelliannau addas.

| Maes arolygu | Barn |
|---|---|
| Safonau | Digonol ac angen gwella |
| Lles ac agweddau at ddysgu | Da |
| Addysgu a phrofiadau dysgu | Digonol ac angen gwella |
| Gofal, cymorth ac arweiniad | Digonol ac angen gwella |
| Arweinyddiaeth a rheolaeth | Digonol ac angen gwella |

**Argymhellion**

A1 Sicrhau bod arweinyddiaeth yr ysgol yn effeithiol ar bob lefel

A2 Mynd i’r afael â’r agweddau o ddiogelwch y safle a nodwyd yn ystod yr arolygiad

A3 Mynd i’r afael â’r diffyg yng nghyllideb yr ysgol

A4 Codi safonau ysgrifennu disgyblion

A5 Sicrhau bod gweithdrefnau asesu ffurfiannol a chrynodol yn effeithiol

**Beth sy’n digwydd nesaf**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn adolygu cynnydd yr ysgol.

# Adroddiad Estyn - Ysgol Gatholig yr Archesgob McGrath

Adroddiad ar Ysgol Uwchradd Gatholig Archesgob McGrath

Tachwedd 2019

**Crynodeb**

Mae Ysgol Uwchradd Gatholig Archesgob McGrath yn darparu amgylchedd gofalgar a chefnogol iawn, y mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn falch o fod yn rhan ohono. Mae'r ethos Catholig, sy'n cydnabod bod 'pob plentyn yn unigolyn unigryw, yn werthfawr i Dduw', yn sylfaenol i bob agwedd ar fywyd yr ysgol. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu'n llwyddiannus fel dinasyddion moesegol a gwybodus. Maent yn dysgu dangos parch ac yn hyrwyddo rhinweddau yn cynnwys diolchgarwch a thosturi.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn meithrin perthnasoedd gwaith pwrpasol gyda'u dosbarthiadau ac yn dangos gwybodaeth bynciol gref. Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn wrth ddatblygu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau. Mae ansawdd yr addysgu yn cyfrannu'n gadarnhaol at les a datblygiad personol disgyblion, yn ogystal â'r safonau y maent yn eu cyflawni.

Yn y blynyddoedd diwethaf, mae arweinwyr yr ysgol wedi llwyddo i gefnogi gwelliannau yn neilliannau, lles, ymddygiad a phresenoldeb disgyblion. Fodd bynnag, nid yw uwch arweinwyr wedi ymgynghori'n ddigon da â staff am newidiadau pwysig ac nid yw'r trefniadau gwneud penderfyniadau bob amser yn ddigon tryloyw. Mae hyn wedi cyfrannu at forâl isel ymhlith y staff ac wedi'i wneud yn anodd iddynt gyflawni eu dyletswyddau mor drylwyr ag o'r blaen.

| Maes arolygu | Barn |
|---|---|
| Safonau | Da |
| Lles ac agweddau at ddysgu | Da |
| Addysgu a phrofiadau dysgu | Da |
| Gofal, cymorth ac arweiniad | Da |
| Arweinyddiaeth a rheolaeth | Da |

**Argymhellion**

A1 Gwella ymgynghori a chyfathrebu, gan gynnwys ynglŷn â gwneud penderfyniadau

A2 Cynyddu manylder prosesau hunanwerthuso ar bob lefel

A3 Cryfhau'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau disgyblion yn gynyddol

A4 Mynd i'r afael â'r mater diogelu a nodwyd yn ystod yr arolygiad

**Beth sy'n digwydd nesaf**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn adolygu cynnydd yr ysgol.

## Adroddiad Estyn - Ysgol Gyfun Brynteg

Adroddiad ar Ysgol Gyfun Brynteg

Rhagfyr 2016

**Crynodeb**

Dros y tair blynedd diwethaf, mae arweinyddiaeth sicr wedi arwain at welliannau i'r ddarpariaeth a'r safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni. Dros y cyfnod hwn, mae perfformiad disgyblion yn Ysgol Gyfun Brynteg gan amlaf yn cymharu'n ffafriol â disgyblion mewn ysgolion tebyg. Mae gan y rhan fwyaf o athrawon ddisgwyliadau uchel o'u disgyblion ac maent yn sefydlu perthnasoedd cadarnhaol ar gyfer dysgu. Mae llawer o ddisgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol at eu dysgu ac yn gwneud cynnydd addas. Mewn llawer o wersi, mae disgyblion yn datblygu eu medrau llythrennedd yn dda. Mae gan yr ysgol ethos cynhwysol a chefnogol sy'n hyrwyddo lles disgyblion yn effeithiol. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn foesgar ac yn gwrtais, ac yn ymddwyn yn dda.

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut mae'n mynd i gynnal safonau uchel ac ansawdd y ddarpariaeth a mynd i'r afael â'r argymhellion.

**Argymhellion**

A1 Gwella safon medrau rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) disgyblion ar draws y cwricwlwm

A2 Gwella cywirdeb hunanarfarnu

A3 Darparu rheolaeth ariannol gadarn i fynd i'r afael â'r diffyg yn y gyllideb

A4 Mynd i'r afael â'r materion iechyd a diogelwch a nodwyd yn ystod yr arolygiad

## Adroddiad Estyn - Ysgol Gyfun Bryntirion

Adroddiad ar Ysgol Gyfun Bryntirion

Hydref 2016

**Crynodeb**

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Rhagorol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Rhagorol** |

**Perfformiad presennol**

Mae'r ysgol yn rhagorol oherwydd:

- Mae perfformiad ym mron pob un o'r prif ddangosyddion allweddol yng nghyfnod allweddol 4 ers 2014 wedi bod ymhell uwchlaw perfformiad ysgolion tebyg, gyda disgyblion yn gwneud cynnydd eithriadol o gyfnodau allweddol blaenorol ym mwyafrif y dangosyddion.
- Mae perfformiad yn y dangosyddion sy'n cynnwys Saesneg a mathemateg wedi bod yn gyson uchel iawn am y tair blynedd diwethaf
- Mae disgyblion mwy abl, disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol a disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn cyflawni'n dda iawn
- Yn 2016, mae data dros dro yn dangos bod perfformiad yn y chweched dosbarth yn uwch na pherfformiad ysgolion tebyg ym mhob dangosydd ac yn gyson ymhell uwchlaw'r sgôr pwyntiau cyfartalog ehangach a chyfran y disgyblion sy'n cyflawni tair gradd A* i C ers 2014.
- Mae gan ddisgyblion agweddau eithriadol o gadarnhaol at eu dysgu
- Mae cyfraddau presenoldeb wedi bod yn llawer uwch na'r canlyniadau wedi'u modelu yn gyson ers pedair blynedd
- Mae ethos rhagorol yr ysgol, ei threfniadau o ansawdd uchel ar gyfer gofal, cymorth ac arweiniad, a'r addysgu cyson dda mewn gwersi yn sicrhau bod disgyblion yn ymgysylltu ac yn frwdfrydig iawn i ddysgu

**Rhagolygon gwella**

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn rhagorol oherwydd:

- Mae'r pennaeth a'r uwch dîm yn darparu arweinyddiaeth strategol eithriadol
- Mae gweledigaeth glir i ddatblygu diwylliant o ddisgwyliadau uchel ym mhob agwedd ar waith yr ysgol
- Mae'r ysgol yn gymuned ddysgu effeithiol gyda diwylliant o rannu ac ymdrechu i wella meysydd allweddol o berfformiad
- Mae trefniadau gwella ansawdd systematig yr ysgol sydd wedi'u cynllunio'n dda yn cyfrannu'n dda at gryfhau'r ddarpariaeth
- Mae cyfrifoldebau rheoli llinell yn glir ac yn gadarn, ac maent yn sicrhau bod athrawon a rheolwyr ar bob lefel yn gwbl atebol am eu gwaith

- Mae’r ysgol wedi gwneud cynnydd cryf iawn wrth fynd i’r afael ag argymhellion yr adroddiad arolygu blaenorol

**Argymhellion**

A1 Gwella ansawdd adborth ysgrifenedig i ddisgyblion a'u hymateb iddo

A2 Gwella'r trefniadau ar gyfer datblygu medrau Cymraeg disgyblion

**Beth sy’n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig, gan ddisgrifio'r arfer ragorol a welwyd yn ystod yr arolygiad.

## Adroddiad Estyn – Coleg Cymunedol Y Dderwen

Adroddiad ymweliad – Coleg Cymunedol Y Dderwen

Mehefin 2017

**Canlyniad monitro**

Bernir bod Coleg Cymunedol Y Dderwen wedi gwneud cynnydd digonol mewn perthynas â'r argymhellion yn dilyn yr arolygiad craidd ym mis Hydref 2015. O ganlyniad, mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn tynnu'r ysgol oddi ar y rhestr o ysgolion sydd angen mesurau arbennig.

**Argymhellion**

Er mwyn cynnal a gwella'r cynnydd hwn, dylai'r ysgol barhau i gynnal lefel y cynnydd y mae eisoes wedi'i wneud, a pharhau i fynd i'r afael â'r argymhellion arolygu hynny lle mae angen cynnydd pellach.

# Adroddiad Estyn - Ysgol Gyfun Pencoed

**Crynodeb**

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

**Perfformiad presennol**

Mae perfformiad presennol Ysgol Gyfun Pencoed yn dda oherwydd:

- Dros y pum mlynedd diwethaf, mae perfformiad yng nghyfnod allweddol 4 wedi gwella yn y rhan fwyaf o'r dangosyddion allweddol; mae perfformiad disgyblion yn y trothwy lefel 2 gan gynnwys Saesneg a mathemateg wedi bod yn uwch na deilliannau wedi'u modelu am bedair allan o'r pum mlynedd diwethaf
- Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd cryf yn eu dysgu
- Mewn llawer o wersi, mae disgyblion yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau
- Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymddwyn yn dda, ac mae'r rhan fwyaf yn cymryd rhan yn eu gwersi gyda brwdfrydedd
- Mae llawer o athrawon yn cynllunio eu gwersi i ddarparu ystod fuddiol o weithgareddau ysgogol, ac yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llythrennedd
- Mae'r ysgol yn darparu ystod eang iawn o weithgareddau allgyrsiol sy'n denu nifer dda
- Mae gan yr ysgol ethos gofalgar iawn ac mae'n gymuned gwbl gynhwysol

**Rhagolygon gwella**

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd bod:

- Y Tîm Arwain, staff a disgyblion yn rhannu gweledigaeth o'r ysgol sy'n helpu i ddatblygu diwylliant o ddyhead a chyflawniad
- Cefnogir y pennaeth yn effeithiol gan yr uwch dîm arwain, ac maent yn cyfathrebu'n dda â'r holl staff
- Mae llinellau atebolrwydd yn glir ac mae trefniadau rheoli perfformiad yn gryf
- Mae'r rhan fwyaf o arweinwyr canol yn cyflawni eu rolau'n effeithiol
- Mae llywodraethwyr yn ymgymryd â'u rôl fel cyfeillion beirniadol yn dda; mae ganddynt ddealltwriaeth gref o ddata perfformiad, ac maent yn herio ac yn cefnogi'r ysgol yn effeithiol
- Mae hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gweithdrefnau gwella wedi'u hen sefydlu ac wedi'u cysylltu'n dda
- Mae partneriaethau effeithiol gydag ystod eang o ddarparwyr yn helpu i hyrwyddo lles disgyblion a gwella eu profiadau dysgu

**Argymhellion**

A1 Codi safonau mewn mathemateg

A2 Gwella’r deilliannau ar gyfer disgyblion mwy abl

A3 Cryfhau ystod a defnydd data a gwybodaeth, gan gynnwys tystiolaeth uniongyrchol, i fireinio hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant

A4 Dileu'r diffyg yn y gyllideb

**Beth sy’n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

## Adroddiad Estyn - Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd

Adroddiad ar Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd

Mawrth 2015

**Crynodeb**

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

**Perfformiad presennol**

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- Y rhan fwyaf o'r disgyblion yn arddangos ymagweddau cadarnhaol tuag at ddysgu ac yn gwneud cynnydd pynciol da
- Deilliannau disgyblion yn y prif ddangosyddion ar ddiwedd cyfnod allweddol 4 am ddwy flynedd gyntaf yn yr ysgol yn gadarnhaol
- Ymddygiad disgyblion yn y gwersi ac o amgylch yr ysgol yn dda
- Bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus yn yr ysgol
- Y ddarpariaeth ar gyfer y Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig yn elfen gref o waith yr ysgol
- Trefniadau effeithiol yn yr ysgol i hyrwyddo iechyd a lles disgyblion yn effeithiol

**Rhagolygon gwella**

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd bod:

- Aelodau'r tîm rheoli uwch yn cyfleu disgwyliadau uchel i bob aelod o gymuned yr ysgol
- Patrwm o welliannau yn y deilliannau ers sefydlu'r ysgol
- Systemau cadarn ac effeithiol i sicrhau ansawdd a blaenoriaethau gwella cynhwysfawr
- Dealltwriaeth gadarn gan y tîm rheoli uwch o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w gwella
- Cysylltiad clir rhwng y meysydd i'w datblygu a blaenoriaethau'r cynllun gwella ysgol, gan gynnwys cynnal a chodi safonau a gwella medrau dysgu
- Partneriaethau effeithiol gyda darparwyr eraill i ehangu'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion a sicrhau cost effeithlonrwydd yng nghwricwlwm yr ysgol

**Argymhellion**

A1 Gwella safonau mewn Saesneg a Chymraeg yng nghyfnod allweddol 4

A2 Gwella'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgu ychwanegol

A3 Cryfhau ansawdd a sicrhau cysondeb mewn adborth athrawon i ddisgyblion ar sut i wella'u gwaith

A4 Cryfhau systemau rheolaeth i sicrhau atebolrwydd llawn ym mhob maes.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Atodiad 2 – Rhestr o randdeiliaid

- Corff Llywodraethol, rhieni, staff, gofalwyr, gwarcheidwaid a dysgwyr Ysgol Gymraeg Bro Ogwr
- Ysgolion eraill o fewn y clwstwr/ardal
- Awdurdodau cyfagos
- Yr Eglwys yng Nghymru ac Awdurdodau Esgobaethol Catholig
- Gweinidogion Cymru
- Llywodraeth Cymru
- Aelodau Etholaethol a Rhanbarthol o'r Senedd (ASau) ac Aelodau Seneddol (ASau) sy'n cynrychioli'r ardal a wasanaethir gan unrhyw ysgol sy'n ddarostyngedig i'r cynigion
- Estyn
- Undebau llafur athrawon a staff sy'n cynrychioli athrawon a staff eraill mewn unrhyw ysgol sy'n rhan o'r cynigion
- Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De
- Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru
- Cynghorau Tref a Chymuned sy'n cynrychioli'r ardal a wasanaethir gan unrhyw ysgol sy'n ddarostyngedig i'r cynigion
- Darparwyr meithrin annibynnol neu wirfoddol sy'n gwasanaethu'r ardal
- Tîm Gofal Plant CBSPAO/Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc a/neu Bartneriaethau Datblygu Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant lle bo hynny'n bresennol
- Aelodau'r Cabinet
- Bwrdd Rheoli Corfforaethol
- Aelodau Ward
- Rheolwr Grŵp CBSPAO, Cynhwysiant
- CAMHS, GIG Cymru, Bwrdd Iechyd Lleol, Cwm Taf
  Tîm Iechyd Meddwl Sylfaenol, GIG Cymru, Bwrdd Iechyd Lleol, Cwm Taf.
- Gwasanaeth Therapi Iaith a Lleferydd, GIG Cymru, Bwrdd Iechyd Lleol, Cwm Taf.

- Pediatregwyr, GIG Cymru, Bwrdd Iechyd Lleol, Cwm Taf.
- Therapi Galwedigaethol (OT) GIG Cymru, Bwrdd Iechyd Lleol, Cwm Taf.
- Gwasanaeth Ffisiotherapi: GIG Cymru, Bwrdd Iechyd Lleol, Cwm Taf.
- Seicolegwyr Addysg.  Gwasanaeth Seicoleg Addysg, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.
- Y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
- SNAP Cymru
- Barnardo's Cymru
- Comisiynydd y Gymraeg